ipc institute of public care

Driving improvement and innovation in care

# Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru

# Gwerthuso'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu

# Adroddiad Terfynol

Chwefror 2021

OXFORD BROOKES UNIVERSITY

http://ipc.brookes.ac.uk

# Cynnwys

Trosolwg o Ganfyddiadau ac Argymhellion Allweddol 4
Crynodeb Gweithredol 5
Diolchiadau 13
Rhestr Termau 14
1 Rhagarweiniad 15
2 Methodoleg y Gwerthusiad 18
2.1 Adolygiad ymchwil cyflym i fod yn sail i'r gwerthusiad ac i ddarparu cyd-destun ar gyfer y canfyddiadau 18
2.2 Cyd-gynhyrchiad gyda Grŵp Cyfeirio Cenedlaethol o Theori Newid 18
2.3 Arolwg dwyieithog ar-lein o dros 300 o rieni sy'n mabwysiadu 19
2.4 Arolwg ar-lein dwyieithog o weithwyr proffesiynol yn gweithio gyda theuluoedd mabwysiadol. 20
2.5 Cyfweliadau un-i-un gyda rhieni mabwysiadol a phobl ifanc 21
2.6 Cyfweliadau un-i-un gydag arweinwyr sector 22
2.7 Cyfyngiadau'r astudiaeth 22
3 Canfyddiadau'r Gwerthusiad 23
3.1 Beth mae'r astudiaeth hon yn ei ddweud wrthon ni am anghenion plant mabwysiedig a theuluoedd sy'n mabwysiadu? 23
3.1.1 Cryfderau ac anawsterau plant mabwysiedig yn yr astudiaeth hon o'i gymharu â phoblogaeth cyfan o blant....24
3.1.2 Diagnosau a chyflyrau plentyn i ....28
3.1.3 Anghenion dysgu ychwanegol plant (ADY)....31
3.1.4 I ba raddau mae plant yn ffynnu (yn yr ysgol, gartref)....33
3.1.5 Llesiant a hunan-effeithlonrwydd (magu plant) rhieni mabwysiadol....34
3.1.6 Barn rhieni am fabwysiadu yn gyffredinol – sut maen nhw'n ymdopi?....35
3.1.7 Effaith Pandemig Covid-19 ar anghenion y plentyn a'r teulu ....38
3.2 I ba raddau mae teuluoedd sy'n mabwysiadu yn teimlo ei bod yn IAWN i ofyn am help? 42
3.2.1 Galluogwyr allweddol....43
3.3 I ba raddau mae rhieni a theuluoedd mabwysiadol yn gwybod i ble i droi am help? 47
3.3.1 Gwybod ble i fynd am help gydag anghenion cyffredinol....48
3.3.2 Gwybod ble i fynd am help gydag anghenion a dargedir ....49
3.3.3 Gwybod ble i fynd am help gyda chymorth arbenigol ar gyfer anghenion..50
3.3.4 Beth sy'n cynorthwyo teuluoedd i wybod ble i fynd am help ar yr adeg priodol?....51
3.4 I ba raddau mae teuluoedd mabwysiadol wedi bod yn fodlon gyda'r cymorth sydd ar gael a pha mor ddefnyddiol ydyn nhw? 52

3.4.1 Cymorth Cyffredinol yn cynnwys Cymorth Mabwysiadu 'Cyfnod Cynnar' .. 52
3.4.2 Safbwyntiau rhieni a gweithwyr proffesiynol ar ansawdd y cymorth cyffredinol yn ehangach .......... 54
3.4.3 Safbwyntiau ar ansawdd cymorth mabwysiadu a dargedir neu gymorth mabwysiadu arbenigol .......... 58
3.4.4 Safbwyntiau rhieni a gweithwyr proffesiynol ynghylch hygyrchedd cymorth wedi'i dargedu neu arbenigol .......... 65
3.4.5 Y farchnad ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu .......... 69
3.4.6 Barn rhieni, gweithwyr proffesiynol ac arweinyddion sector am y graddau y mae gwasanaethau wedi gwella yn ystod oes y Fframwaith Cymorth Mabwysiadu (yn ystod y 2-3 blynedd diwethaf) .......... 71
3.5 I ba raddau y mae gwasanaethau cymorth mabwysiadu wedi'u cydgysylltu'n dda? 77
3.6 I ba raddau y mae ysgolion neu golegau'n ymwybodol o anghenion penodol plant mabwysiedig? 78
3.6.1 Barn y rhieni mabwysiadol yn yr astudiaeth hon .......... 78
3.6.2 Barn y gweithwyr proffesiynol mabwysiadu yn yr astudiaeth hon .......... 79
3.6.3 Ym mhle bu'r gwelliannau hyd yma? .......... 80
3.6.4 Ym mhle mae angen cynnydd o hyd? .......... 82
3.7 I ba raddau yr ystyrir bod y gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn ddigonol ar draws Cymru? 85
3.8 I ba raddau y mae'r llywodraethiant a'r gwella parhaus o gymorth mabwysiadu yn addas i'r diben? 90
3.8.1 I ba raddau mae teuluoedd mabwysiadol wedi eu hymglymu mewn datblygu'r gwasanaeth? .......... 92
3.9 I ba raddau y mae rhieni a rhanddeiliaid ehangach yn hyderus am ddyfodol gwasanaethau cymorth mabwysiadu yng Nghymru? 93
4 Bibliography / Llyfryddiaeth 95

Commented [IR1]:

## Rhestr o Dablau

Tabl 1: Mathau o Gymorth a nodir fesul lefel yr angen yn yr ASF (Fframwaith Cymorth Mabwysiadu) ....16
Tabl 2: Oedran y plentyn ffocws fesul cyfran o ymatebion rhieni yn yr arolwg gwerthusiad rhieni ASF ....20
Tabl 3: Ymatebwyr i arolwg gweithwyr proffesiynol mabwysiadu fesul math o asiantaeth (rhif a % o'r holl) ....21
Tabl 5: Sgoriau Holiadur Cryfderau ac Anawsterau ar gyfer plant 2-4 oed a gwyriadau safonol fesul math o raddfa ar gyfer y plant yn y arolwg o'i gymharu â normau Prydain ....26
Tabl 6: Sgoriau Holiadur Cryfderau ac Anawsterau ar gyfer plant oed 5-15 a gwyriadau safonedig fesul math o raddfa ar gyfer y plant yn yr arolwg o'i gymharu â normau Prydain ....27
Tabl 7: Rhieni'r adroddiad a riportiodd ddiagnosis ar gyfer (unig blentyn neu blentyn hynaf) plant o bob oed a phlant 11+ oed ....29
Tabl 8: Sgoriau SWEMWBS rhiant/gofalwr fesul arolwg gwaelodlin ASF cyfredol o'i gymharu â normau poblogaeth ar gyfer Lloegr ....35
Tabl 9: Cyfran o rieni a ymatebodd yn yr arolwg fesul y graddau y mae anghenion eu plant neu anghenion teuluol wedi cynyddu neu ostwng yn ystod cyfnod Pandemig Covid-19 ....38
Tabl 10: Cyfran o rieni yn disgrifio iddyn nhw fod angen cymorth cyffredinol, cymorth wedi'i dargedu neu gymorth arbenigol yn ystod y 12 mis diwethaf ac yn ystod cyfnod Pandemig Covid-19 yn benodol ....41
Tabl 11: Ymatebion i arolwg rhieni fesul y graddau y teimlir ar hyn bryd ei fod yn iawn i ofyn am help ....42
Tabl 12: Cyfran o ymatebwyr arolwg rhieni yn gwybod ble i fynd fesul lefel yr angen ....47
Tabl 13: Cyfran y rhieni yn ymateb i'r arolwg a ystyriai bod gwahanol ffurfiau o gymorth yn bwysig iddyn nhw yn ystod cyfnodau cynnar y mabwysiadu ....53
Tabl 14: Mathau o gymorth cyffredinol drwy raddio gan rieni sy'n ymateb i'r arolwg o 'da iawn' i 'gwael' ....55
Tabl 15: Mathau o gymorth a dargedir neu gymorth arbenigol fesul ymatebwyr i arolwg rhieni wedi'u graddio o dda iawn' i 'gwael iawn' ....59
Tabl 16: Mathau o gymorth a dargedir neu gymorth arbenigol a ystyriwyd fwyaf gwerthfawr o safbwynt gweithwyr proffesiynol mabwysiadu yn ymateb i'r arolwg ....60
Tabl 17: Y canran o rieni gwblhaodd yr arolwg yn ôl lefel yr oedden nhw'n gredu oedd ymwybyddiaeth yr ysgolion am fabwysiadu ....79

## Trosolwg o Ganfyddiadau ac Argymhellion Allweddol

Mae'r astudiaeth o gymorth mabwysiadu o dan y Fframwaith Cymorth Mabwysiadu yng Nghymru wedi cynhyrchu canfyddiadau a drionglwyd yn dda o waith maes a gynhaliwyd yn ystod Hydref 2020 yn cynnwys: arolygon o 312 o rieni mabwysiadol a 78 o weithwyr proffesiynol; cyfweliadau gyda 21 o rieni sydd wedi mabwysiadu a 21 o arweinwyr sector. Mae'r canfyddiadau cyfun yn awgrymu'r canlynol:

- Cafwyd cynnydd sylweddol ar draws y sector yn genedlaethol ac yn rhanbarthol i weithredu'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu, yn cynnwys annog mwy o deuluoedd i deimlo'n hyderus i ofyn am help ac i ddatblygu cynnig cadarnach a mwy gweledol o gymorth 'cyffredinol' y gall pawb ei gyrchu.
- Gyda chymorth Llywodraeth Cymru a chronfeydd elusennol eraill y DU, galluogwyd rhagor o blant a theuluoedd ag anghenion ac anawsterau gyrchu help a dargedir, yn cynnwys drwy gynigion mwy blaengar megis 'TESSA' a 'Mabwysiadu Gyda'n Gilydd', yn ogystal â chynigion mwy sefydledig yn cynnwys cymorth cymheiriaid, gwaith taith bywyd, ymgynghori â seicolegydd, ac ystod o gymhorthion therapiwtig eraill. Yn ddealladwy, hyd yn hyn, mae'r ffurfiau hyn o gymorth wedi targedu atal ac ymyriad 'oed a chyfnod cynnar' ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol sydd yn debygol o fod yn sylweddol fwy na rhai'r rhan fwyaf o blant eraill yng Nghymru.
- Mae cyfuniad o'r ddau ddatblygiad yn cynrychioli camau cyntaf positif iawn ar y daith i wella cymorth mabwysiadu o dan nawdd y Fframwaith Cymorth Mabwysiadu.
- Fodd bynnag, mae llawer rhagor i'w wneud. Mae cyllido a datblygiadau diweddar yn y gwasanaeth yn sicr wedi codi disgwyliadau teuluoedd sy'n mabwysiadu (y byddan nhw'n derbyn help wedi'i dargedu pan fo angen). Disgrifiodd teuluoedd eraill y profiad o gael cynigion cymorth anghyson neu o fod yn ymwybodol ohonyn nhw ar draws gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae llawer o ddulliau mwyaf gwerthfawr cymorth a dargedir yn gynnar, sydd â'r potensial i ostwng y galw am gymorth mewn argyfwng neu gymorth arbenigol yn nes ymlaen yn eu plentyndod, yn cael eu cyllido yn y tymor byr, a hynny'n codi mater pwysig am gynaladwyedd y gwasanaethau.
- Mae hefyd fylchau nodedig yn y cymorth, yn enwedig ar gyfer plant hŷn ag anghenion mwy cymhleth, yn cynnwys y rhai sydd ar drothwy bod yn oedolion.
- Mae'r tîm gwerthuso yn y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ym Mhrifysgol Oxford Brookes yn argymell cyfnod estynedig o gyllido a phwyslais perthynol ar barhau i wella, i adeiladu ar y gwelliannau sydd eisoes wedi'u cyflawni a'u cyfnerthu, ac i ffocysu ar symud yn ein blaen i alluogi'r canlynol:
  - Pob plentyn mabwysiedig i gael y math priodol o gymorth a sylw mewn ysgolion neu golegau, lle maen nhw'n cael mwy o drafferthion yn aml nag yn y cartref.
  - Cysondeb mynediad ar gyfer teuluoedd i ddulliau gwerthfawr o gymorth a dargedir ar draws pob rhanbarth a / neu asiantaethau cymorth, yn enwedig y rhai a all ddarparu cymorth therapiwtig neu seicolegol 'cyfnod cynnar' effeithiol cyn i deuluoedd gyrraedd cyfnod o argyfwng, hefyd cyngor rhagweithiol am gysylltu â'u teuluoedd biolegol a gwaith cofnodi profiadau bywyd therapiwtig uchel ei ansawdd.
  - Mwy o fynediad cyffredinol i gymorth a dargedir ac i gymorth arbenigol sydd ei angen ar deuluoedd sy'n mabwysiadu ar draws Cymru, yn cynnwys ar gyfer plant hŷn neu bobl ifanc ag anghenion cymhleth ac ar gyfer y plant hynny â chyflyrau niwro-ddatblygiadol sydd angen ei ymchwilio ymhellach ac angen cymorth pellach.

## Crynodeb Gweithredol

Mae’r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau gwerthusiad annibynnol a gynhaliwyd gan Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) ym Mhrifysgol Oxford Brookes am i ba raddau y cyflawnwyd nodau Fframwaith Cymorth Mabwysiadau Cymru gyfan a ddatblygwyd yn 2016-17, yn cynnwys cyfeirio at well hygyrchedd, ansawdd, cysondeb ac effaith cymorth ôl-mabwysiadu ar gyfer teuluoedd ar draws Cymru.

Tynnir y canfyddiadau o ystod o weithgareddau gwerthuso, yn feintiol ac ansoddol, a gynhaliwyd yn bennaf rhwng Hydref a Thachwedd 2020, yn cynnwys arolwg dwyieithog ar-lein o 312 o rieni mabwysiadol ymhob awdurdod lleol ar draws Cymru – y rhai ar y rhestrau derbyn cylchlythyrau asiantaethau mabwysiadu rhanbarthol ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol; arolwg dwyieithog ar-lein o 78 o weithwyr proffesiynol maes mabwysiadu o bob rhanbarth yng Nghymru, neu sy’n gweithio mewn rolau cenedlaethol; cyfweliadau ansoddol gyda 21 o rieni sydd wedi mabwysiadu a phobl ifanc; cyfweliadau ansoddol gyda 21 o arweinwyr sector ac adolygiad ymchwil cyflym.

Drwyddi draw, ‘clywodd’ y gwerthusiad gan dros 430 o unigolion sy’n ymwneud â chymorth mabwysiadu yng Nghymru, yn cynnwys 313 o rieni sy’n mabwysiadu: y rhai sydd newydd fabwysiadu yn ogystal â’r rhai sydd wedi bod yn magu plant am nifer o flynyddoedd[1].

Mae dipyn o driongli ar draws canfyddiadau’r gweithgareddau hyn, a hynny’n cynyddu ei dibynadwyedd. Mae’r astudiaeth hefyd wedi cynhyrchu swm sylweddol o ddata perthnasol i anghenion teuluoedd sydd wedi mabwysiadu, data sy’n debygol o fod yn ddefnyddiol i gynllunio darpar gymorth, ac felly mae hyn wedi’i gofnodi yn drylwyr yn y canfyddiadau.

**Perthnasol i anghenion plentyn a’r teulu,** yn hanesyddol y ddadl dros fabwysiadu oedd y byddai teulu twymgalon, cariadus a phositif yn gallu gwneud iawn am brofiadau anodd bywyd cynnar y plentyn mabwysiedig ac o bosibl camdriniaeth.

Mae cyn-astudiaethau yn aml yn amlygu sut mae canlyniadau plant mabwysiedig yn well na rhai’r plant sy'n dal yng ngofal awdurdod lleol (plant sy’n derbyn gofal), a’r gwelliannau yn cynnwys: twf corfforol, ymlyniadau a chyflawniad addysgol. Fodd bynnag, er y *gall* mabwysiadu gynnig cyfleoedd ar gyfer adfer a gwella canlyniadau ar gyfer plant sy’n derbyn gofal, erbyn hyn cydnabyddir ei bod yn debygol bydd angen cymorth ar ôl y mabwysiadu, ar draws y daith fabwysiadu ac ar adegau neu benodau ystyrlon, er mwyn gwella bywyd teuluol, hyrwyddo llesiant plentyn a/neu mewn rhai amgylchiadau i atal y lleoliad rhag methu. Yn gynyddol derbynnir y gallai fod angen cymorth wedi’i deilwra ar *bob* plentyn a fabwysiadir a’u rhieni ar ryw gyfnod[2]. Ymhlith canfyddiadau’r astudiaeth hon mae’r canlynol:

- Roedd plant y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg ar-lein yn cael llawer mwy o anawsterau, yn ôl mesur Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ) o’i gymharu â sampl gynrychioladol o blant Prydain. Mae’r gwahaniaeth yn ystadegol sylweddol ar gyfer plant iau (2-4 oed) yn ogystal â phlant hŷn (5-15 oed). Mae’r canfyddiad hwn yn cyd-fynd â chorff cynyddol o ymchwil sy’n awgrymu bod plant mabwysiedig yn

[1] Lleolwyd plant ar gyfartaledd am 5-7 mlynedd
[2] Ceir rhagarweiniad mwy cyflawn i anghenion plant mabwysiedig gan gynnwys cyfeiriadau yn Adran 1 o’r Rhagarweiniad

fwy tebyg i blant sy'n derbyn gofal[3] na holl boblogaethau plant o ran anghenion uwch eu hiechyd emosiynol a'u llesiant.

- Nodwyd bod tua 6% o blant rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) a bod 6% ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD). Mae gan ganran uwch o blant oed 11 a throsodd yr anhwylderau hyn (tua 15% ar gyfer ADHD ac 11% ar gyfer ASD). Fodd bynnag, roedd Anhwylder ar y Sbectrwm Alcohol Ffetws (FASD) lawer yn is ymhlith tua 1% ar gyfer plant iau a phlant hŷn. Mae hyn yn ymddangos yn arbennig o isel o'i gymharu ag amcangyfrifon diweddar ar gyfer yr holl boblogaeth[4]. Roedd 13% ychwanegol o rieni yn ansicr a oedd gan eu plentyn un o'r cyflyrau hyn neu gyflwr arall a/neu yn chwilio am ddiagnosis.
- Disgrifiodd aelodau teuluoedd a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth sut daeth anghenion ôl-mabwysiadu eu plentyn i'r amlwg yn fynych ar adegau pontio allweddol yn eu bywydau, er enghraifft wrth gychwyn yn yr ysgol gynradd neu ar drothwy eu glaslencyndod. Roedd llawer o rieni hefyd yn ymwybodol iawn o rai o achosion tebygol anghenion ychwanegol eu plentyn, er enghraifft, wynebu trawma yn gynnar yn eu bywydau, tarfu ar ymlyniadau, gwendidau genetig neu ddod i gysylltiad â chyffuriau yn y groth, a gallai'r ffactorau hyn fod wedi'u plethu'n dynn gyda'i gilydd, anodd i'w dadelfennu. Disgrifiodd rhai o'r rhieni newidiadau neu gyfnodau pontio mwy cyson a allai ennyn problemau yn eu plentyn, er enghraifft lle amharwyd ar y drefn arferol neu ddychwelyd i'r ysgol ar ôl gwyliau neu pan roedden nhw'n teimlo'n 'anniogel'. Hefyd, disgrifion nhw sut roedd llesiant eu plentyn yn aml yn gysylltiedig â sut roedd pethau'n mynd yn yr ysgol. Rhieni plant mabwysiedig iau neu rieni plant sydd newydd gael eu mabwysiadu oedd y mwyaf optimistig, ond cafwyd thema gyffredin ar draws ymatebion yr holl gyfranogwyr sef y byddai problemau yn debygol o ddod i ran eu plant rywbryd yn ystod eu plentyndod.
- Nododd 29% o'r rhieni sy'n cymryd rhan yn yr arolwg bod gan eu plentyn anghenion dysgu ychwanegol cydnabyddedig a chynlluniau yn cynnwys Cynlluniau Datblygu Unigol (CDY/IDP's). Disgrifiodd nifer o'r rhieni anghenion ychwanegol eu plentyn yng nghyd-destun yn 'gymdeithasol neu emosiynol' yn hytrach nag anghenion dysgu neu wybyddol er bod y rhain wedi cyd-blethu yn aml. Er bod cyfran gymharol uchel (85%) o rieni a gwblhaodd yr arolwg ar-lein yn ystyried bod eu plentyn yn ffynnu gartref, dim ond 69% oedd yn ystyried bod eu plentyn yn ffynnu yn dda neu'n dda iawn yn yr ysgol. Ystyriai 12% o rieni nad oedd eu plentyn yn ffynnu 'o gwbl' yn yr ysgol.
- Yn ôl mesur Graddfa Llesiant Meddyliol 'Short Warwick Edinburgh', roedd iechyd emosiynol a llesiant rhieni sy'n mabwysiadu yn sylweddol waeth o'i gymharu â sampl gynrychioladol o oedolion Prydain. Fodd bynnag, mynegwyd cryn hyder yn eu gallu i fagu ac roedd 78% yn credu eu bod yn 'rheoli' yn gymharol dda fel teulu (disgrifiodd eraill eu bod yn rheoli'n gymharol wael). Roedd rhieni plant iau yn fwy tebygol o nodi eu bod yn ymdopi'n gymharol dda a rhieni plant hŷn a phobl ifanc yn fwy tebygol o nodi eu bod yn ymdopi'n gymharol wael. Nododd rhai eu bod wedi gwneud addasiadau sylweddol i'w bywydau er mwyn 'gwneud i bethau weithio', er enghraifft rhoi gorau i'w gwaith neu gylchoedd eu cyfeillion. Hyd yn oed pan oedd pethau'n mynd yn gymharol esmwyth, mynegodd rhieni sy'n mabwysiadu bryder neu ofid am y dyfodol, er enghraifft cyfnod pontio eu plant i fod yn oedolion. Hefyd,

[3] Ceir cymariaethau ar draws normau Prydain a phoblogaethau sy'n derbyn gofal yn Adran 3.1.1. Cryfderau ac anawsterau plant mabwysiedig yn yr astudiaeth hon
[4] Amlinellwyd ym mhrif gorff yr adroddiad hwn (yn Adroddiad 3.1.2. Diagnosis a chyflyrau plentyn)

disgrifiodd rhai sut roedden nhw’n byw gydag ymddygiad eithafol eu plentyn neu drafferthion teuluol heb fod i gyd yn gysylltiedig â’r plentyn

- Credai 47% o rieni a gwblhaodd yr arolwg hwn fod anghenion eu plentyn neu eu teulu wedi cynyddu yn ystod cyfnod pandemig Covid-19. Mae eu hymatebion i gwestiynau ehangach ar y thema hon yn awgrymu eu bod yn teimlo bod angen cymorth(ion) arbenigol neu gymorth wedi’i dargedu arnyn nhw. Mae arolygon a sgyrsiau gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol drwyddi draw yn datgelu deuoliaeth glir ym mhrofiad teuluoedd sy’n mabwysiadu, yn cynnwys rhai y cynigiwyd ‘rhyddhad’ iddyn nhw neu set arbenigol o gyfleoedd (yn aml heb bwysau ysgol) ac i eraill roedd wedi pwysleisio neu amlygu anawsterau oedd eisoes yn bodoli. Y grŵp oedd yn ei chael hi’n haws i ymdopi oedd rhieni plant oed ysgol gynradd a’r grwpiau oedd yn ei chael yn fwy anodd i ymdopi oedd rhieni plant oed cyn-ysgol neu rieni plant yn ei harddegau cynnar. Profodd nifer o deuluoedd sy’n mabwysiadu rai pethau positif yn ystod y cyfnod hwn yn gymysg â rhai pethau negyddol megis colli’r rhyngweithio gyda phlant eraill / oedolion, colli incwm teuluol, cynnydd yn y strés ar ôl dychwelyd i’r gwaith neu i’r ysgol; pwysau addysgu gartref; a methu â chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp yn yr awyr agored.

**Ynglŷn â pha raddau mae teuluoedd yn credu ei fod yn iawn nawr i ofyn am help a gwybod ble i fynd i gael help**

Roedd hwn yn gwestiwn allweddol y gwerthusiad gan fod y Fframwaith Cymorth Mabwysiadu wedi bod yn agored wrth geisio gwella canrannau y teuluoedd sy’n credu ei fod ‘yn Briodol i ofyn am help’ ac mae'r canfyddiadau yn awgrymu bod hwn yn faes a welodd gynnydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ers i’r Fframwaith gael ei gyhoeddi. Mae'r dystiolaeth allweddol ar gyfer hyn yn cynnwys:

- Ystyriai mwyafrif mawr (84%) o rieni mabwysiadol a gwblhaodd yr arolwg ar-lein ei bod (yn gyfredol) yn Briodol neu’n Briodol iawn i ofyn am help. Dim ond cyfran fechan (4%) nododd eu bod yn teimlo nad oedd yn Briodol neu ddim yn Briodol o gwbl i wneud hynny
- Ystyriai 85% o weithwyr proffesiynol maes mabwysiadu a gwblhaodd yr arolwg fod rhieni sy’n mabwysiadu yn fwy abl i ofyn am help nawr o'i gymharu â 3 blynedd yn ôl, ac mae hyn yn awgrymu gwelliant positif, sefyllfa y mae arweinwyr sector yn nodi mewn cyfweliad, a llawer o’r arweinwyr hyn yn ystyried hyn yn un o ‘ddatblygiadau mawr’ ym maes cymorth mabwysiadu yn ystod y blynyddoedd diweddar. Roedd y sectorau gwirfoddol yn fwy tebygol o ddisgrifio sut roedden nhw wedi gweithredu.
- Nododd y rhan fwyaf o rieni a gwblhaodd arolwg eu bod yn gwybod neu o leiaf bod syniad ganddyn nhw ble i droi am help gydag anghenion cyffredinol (81%), wedi’i dargedu (74%) neu arbenigol (79%). Roedd rhieni a oedd wedi mabwysiadu yn ddiweddar, weithiau’n hyderus iawn am wybod ble i fynd am help. Nodwyd enghreifftiau i gefnogi'r gwelliant hwn gan weithwyr proffesiynol ym maes mabwysiadu oedd yn cynnwys: mwy o rieni mabwysiadol yn dod am gymorth yn cynnwys ar gyfnod cynharach; a mwy o ymholiadau am fabwysiadu lle roedd darpar fabwysiadwyr yn gofyn am gymorth (yn fwy ymwybodol o’i argaeledd).
- Priodolwyd y gwelliannau yn y maes hwn drwy werthuso cyfranogwyr i amryfal o ffactorau. O dan ymbarél y Fframwaith ei hun, mae’r rhain yn cynnwys: mwy o empathi gan sefydliadau i fabwysiadwyr a hinsawdd croesawus positif, tawelu meddwl mabwysiadwyr â’u ‘negeseua’ (yn ystod camau cynnar y daith fabwysiadu); ‘cael pwynt sengl mynediad cliriach‘ ar gyfer mabwysiadwyr (yn y rhanbarthau neu

yn sector gwirfoddol); cael ystod ehangach o'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys cynigion rhagweithiol 'cymorth cynnar' sydd newydd ei ddatblygu megis TESSA[5] neu 'Mabwysiadu gyda'n Gilydd'[6]; a chyfathrebiadau gwell rhwng asiantaethau a mabwysiadwyr hefyd rhwng mabwysiadwyr eu hunain (drwy'r cyfryngau cymdeithasol) am yr hyn sydd yn cael ei gynnig.

- Ymhlith y rhwystrau parhaus i gyrchu cymorth mae: synnwyr o stigma neu gywilydd ar ran rhieni yn cyfaddef bod angen cymorth arnyn nhw; pryderon awdurdod lleol o ran cael eu barnu (sef methu); y teimlad na fydd pobl yn gwrando arnoch chi; ychydig o ddiffyg eglurder am yr hyn sydd ar gael (yn enwedig i blant hŷn a'u teuluoedd ) neu beth ydy'r 'llwybr i mewn' gorau (gallai'r llwybrau cymorth wahaniaethu o ardal i ardal ac o awdurdod lleol i awdurdod lleol, a hefyd rhwng iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg). Rhoddodd rhieni bwyslais arbennig ar y ddau ffactor, a disgrifiodd rhai eu bod wedi colli hyder ac ymddiriedaeth yn y gwasanaethau oherwydd profiadau blaenorol o geisio help a methu â'i gael ar yr adegau pan oedd fwyaf ei angen neu deimlo eu bod yn mynd mewn 'cylchoedd', yn gael eu parseli o sefydliad i sefydliad i ddod o hyd i help. Fodd bynnag, mae'r profiadau hyn, mwy na thebyg yn ymddiriedaeth cyfeirio at ymdrechion cynharach i gyrchu cymorth wedi'i dargedu neu gymorth arbenigol yn hytrach na chymorth cyffredinol.

**O ran y graddau y mae ysgolion a cholegau yn ymwybodol o fabwysiadu a/neu'n gefnogol o blant mabwysiedig**

Mae nifer o astudiaethau ymchwil blaenorol wedi pwysleisio arwyddocâd amgylchedd positif i blant mabwysiedig ac i ysgolion a cholegau fod yn 'ymwybodol o faterion mabwysiadu' fel y gallan nhw deilwra eu cymorth i blant mabwysiedig. I lawer o rieni, mae'r ysgol, yn aml yn faes allweddol o anhawster parhaus i'w plentyn

Ac eithrio'r rhai hynny â phlant o dan oed ysgol, dim ond 57% o rieni mabwysiadol a ymatebodd i'r arolwg ar gyfer yr astudiaeth hon oedd yn ystyried bod ymwybyddiaeth ysgolion Cymru o anghenion plant mabwysiedig yn dda neu'n dda iawn. Fodd bynnag, roedd 58% yn meddwl bod ymwybyddiaeth ysgolion yn gwella. Roedd canran uwch o weithwyr proffesiynol a gymerodd ran mewn arolwg ar-lein ar gyfer y gwerthusiad hwn (74%) yn hystyried nad oedd ysgolion yn 'ymwybodol iawn' neu 'ddim yn ymwybodol o gwbl' o faterion mabwysiadu. Fodd bynnag, roedd, 49% hefyd yn credu y cafwyd gwelliannau yn ystod y 3 blynedd diwethaf.

Cysondeb ydy'r mater allweddol a ddaeth i'r amlwg o ran yr agwedd bwysig hon o gymorth system gyfan ar gyfer plant mabwysiedig. Ystyriwyd bod rhai ysgolion, yn enwedig y rhai sydd wedi derbyn mewnbwn gan dimoedd o therapyddion neu therapyddion unigol / gweithwyr mabwysiadu, a'r rhai gyda phennaeth gwybodus /Cydlynydd ADY yn cynnig amgylchedd da meithringar ar gyfer plant mabwysiedig.

Fodd bynnag, credai llawer o rieni, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol ym maes mabwysiadu, bod angen dealltwriaeth fwy cyson ar ysgolion a cholegau yn gyffredinol,

[5] Gwasanaethau Therapiwtig, Addysg a Chymorth ym maes Mabwysiadu, ffurf newydd o gymorth yng Nghymru es 2019, yn cyfuno asesiad dan arweiniad seicolegydd, hyfforddiant, ymgynghori gydag ysgolion ysgolion a chymorth cymheiriaid (partner o rieni).

[6] Darperir y gwasanaeth hwn gan St Davids yn gweithio gyda'r sector cyfan i ddod o hyd i deuluoedd ar gyfer plant a fyddai fel arall efallai'n gorfod aros yn hirach i gael eu lleoli a rhagweithio i'w cynorthwyo. Mae'n cynnwys cynnig gweithredol o gymorth therapiwtig.

yn enwedig yn y sector uwchradd yn benodol am effaith hirdymor ymlyniadau amharedig a thrawma yn ystod plentyndod cynnar ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol plant. Hefyd, ystyriwyd bod dulliau ysgol gyfan o ddelio gydag ymddygiad (heriol) weithiau'n 'gosbol yn bennaf' yn niweidiol i bob plentyn â'r anghenion hyn. Awgrymodd rhieni a gweithwyr proffesiynol nifer o ddulliau sut y gallai ysgolion a cholegau gael eu hannog i wella cysondeb yn eu dull o fynd ati, yn cynnwys drwy raglenni hyfforddi penodol a gofyniad statudol am gynllun addysg tebyg i'r hyn sydd yn ofynnol yn gyfredol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Os na fydd anghenion plentyn wedi cael eu diwallu yn yr ysgolion, nododd rhai rhieni eu bod wedi cael gafael ar gymorth amgen neu ychwanegol eu hunain, er enghraifft drwy addysg gartref, newid ysgol (i un sy'n fwy ymwybodol o faterion mabwysiadu) neu dalu am gymorth ychwanegol / ysgol annibynnol.

**O ran y graddau y mae teuluoedd yn fodlon ar y cymorth mabwysiadu sydd yn cael ei gynnig a'i gael yn ddefnyddiol**

- Mae'r gwerthusiad hwn yn cydnabod y gwaith sylweddol a wnaed yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf ar lefel genedlaethol i ddatblygu: ystod o 'gynigion' o wasanaethau newydd megis 'TESSA' sydd wedi'i anelu at deuluoedd sy'n dechrau profi effeithiau trawma plentyndod cynnar, 'Mabwysiadu Gyda'n Gilydd' i ddod o hyd i deuluoedd ar gyfer plant a fyddai efallai'n gorfod aros yn hirach a gweithredu'n rhagweithiol i'w cynorthwyo, a 'Connected' i ddarparu rhwydwaith cymorth cymheiriaid ar gyfer pobl ifanc mabwysiedig. Datblygwyd hefyd ddeunyddiau a chyrsiau newydd yn genedlaethol at ddefnydd rhieni sy'n mabwysiadu (er enghraifft rhianta therapiwtig neu gysylltu ag aelodau teulu biolegol y plentyn mabwysiedig) yn ogystal â phodlediadau hygyrch i roi gwybodaeth i ddarpar fabwysiadwyr am fabwysiadu (drwy glywed gan fabwysiadwyr eu hunain). Cydnabyddir bod y rhain i gyd yn adnoddau blaengar a datblygiadau uchel eu hansawdd. Yn amlwg, gwnaed cynnydd gan nifer o wasanaethau mabwysiadu rhanbarthol a'r sector gwirfoddol o ran datblygu neu barhau i ddatblygu eu cynigion 'craidd' ac i ryw raddau eu cynigion am gymorth a dargedir ar gyfer teuluoedd sy'n mabwysiadu yn cynnwys ystod o gymhorthion therapiwtig.
- Ystyriai rhieni a gwblhaodd yr arolwg ar gyfer yr astudiaeth hon bod nifer o agweddau o'r cymorth cyffredinol sydd ar gael yn gyfredol yn dda iawn, yn cynnwys yn enwedig y cymorth a dderbynion nhw yn ystod cyfnodau cynnar y mabwysiadu gan weithiwr cymdeithasol mabwysiadu, gan gymheiriaid a/neu hyfforddiant (ôl-) mabwysiadu. Yn aml, nododd y rhai a gyfwelwyd fod pethau'n gwella ac y bydden nhw'n hoffi gweld rhychwant y cynnig cyffredinol yn parhau, er mwyn diwallu anghenion a dewisiadau unigolion. Roedd gweithwyr proffesiynol hefyd yn cytuno bod y cynnig 'cyffredinol' wedi gwella'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diweddar.
- Adroddwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol bod tua 59% o blant mabwysiedig sydd angen cofnodi profiadau bywyd ar draws Cymru wedi ei gyrchu yn fwy amserol yn ystod 2019-2020 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, awgrymodd rhieni a gymerodd ran yn y arolwg ac mewn cyfweliadau y gellid parhau i wella ansawdd y gwaith (therapiwtig) o gofnodi profiadau bywyd neu gynhyrchion ac yn amserlennu rhai ffyrdd o gymorth megis hyfforddiant neu 'ddiwrnodau teulu', er mwyn sicrhau mynediad gwell i bawb, yn cynnwys rhieni sengl.
- Gellid disgrifio Rhaglenni sydd newydd eu sefydlu TESSA a Mabwysiadu gyda'n Gilydd fel rhai sy'n rhychwantu cymorth cyffredinol a chymorth a dargedir gan fod y

ddwy raglen yn cynnig ffurf o ‘help cynnar a dargedir’ i deuluoedd sy’n profi effaith trawma plentyndod cynnar. Mae’n nhw’n debyg i, ond nid yn union yr un fath â chynnig o gyfarfodydd aml-ddisgyblaethol ac ymgynghoriad gyda seicolegydd sydd wedi bodoli ers nifer o flynyddoedd mewn un rhanbarth ond nawr yn cael ei gynnig i nodi a rhagweld ffurfiau i anghenion plant mabwysiedig[7]. Roedd rhieni â phrofiad o’r ffurfiau hyn o help a dargedwyd yn gynnar yn dueddol o ganmol eu hansawdd a’u gwerth. Roedd gweithwyr proffesiynol hefyd yn sylweddoli sut roedden nhw’n cynrychioli gwelliannau allweddol yn nes ymlaen, cymorth a dargedir yn fwy penodol neu gymorth mwy arbenigol yn cynnwys ffurfiau o gymorth mewn ’argyfwng’.

- Adroddwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol bod cymorth a dargedir ar gyfer teuluoedd sydd eu angen yn cyrraedd mwy o blant a theuluoedd (cynnydd o 72%, 70 o deuluoedd yn 2018-201 i 237 o deuluoedd yn 2019-2020). Roedd llawer o rieni a gymerodd ran yn yr arolwg wedi cyrchu ffurfiau o gymorth mabwysiadu a dargedir, er mai dim ond tua hanner ohonyn nhw oedd yn credu bod digon ohono ar hyn o bryd. Mynegodd rhieni a gwblhaodd yr arolwg y boddhad mwyaf gyda TESSA (ystyriai 81% bod y cymorth hwn yn dda neu’n dda iawn), ac yna hyfforddiant ôl-mabwysiadu (79%) a chymorth therapiwtig plant a’u rhieni (70%). Canrannau cymharol isel o rieni fynegodd foddhad gyda ffurfiau eraill o gymorth a dargedir, yn enwedig cymorth a dargedir ar gyfer eu plentyn yn yr ysgol neu gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS), yn awgrymu mai argaeledd y gwasanaethau ydy’r broblem yn hytrach nag ansawdd y cymorth a dderbynnir. Yn fwy cyffredinol, er bod rhai rhieni a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth hon wedi nodi eu bod yn teimlo’n gryf bod gwasanaethau a dargedir neu wasanaethau ‘wedi eu cynnal a’u helpu’ (yn enwedig ffurfiau cynnar o gymorth therapiwtig), teimlai eraill nad oedd y cyfryw gymorth yn addas ar gyfer anghenion eu plentyn neu ddim ar gael iddyn nhw. Cytunodd gweithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon, gyda dim ond 55% yn ystyried bod cymorth mabwysiadu a dargedir yn ddigonol ar hyn o bryd a dim ond 11% yn cytuno bod cymorth arbenigol yn ddigonol.
- Os oedd teuluoedd wedi derbyn pecynnau o gymorth a dargedir yn cynnwys ‘elfen’ therapiwtig, roedd hyn yn ymddangos yn ddefnyddiol iawn iddyn nhw. Ni fu’n bosibl yn y gwerthusiad hwn i ystyried pa fodel o ddarpariaeth sy’n gweithio orau ond nododd asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol a gwasanaethau cymorth mabwysiadu rhanbarthol â mynediad i arbenigedd seicolegol eu bod yn fwy hyderus bod ganddyn nhw’r gwasanaethau priodol i ddiwallu anghenion eu teuluoedd. Pan oedd gwasanaethau mabwysiadu yn cael mynediad i wasanaethau therapiwtig neu seicolegol llawnach, roedd y cynnig, yn aml yn cynnwys nid yn unig gwaith uniongyrchol gyda theuluoedd ond hefyd cymorth ar ffurf ‘ymgynghori’ gyda seicolegwyr arbenigol ar gyfer pawb sy’n ymwneud â phlant mabwysiedig yn cynnwys rhieni ac ysgolion.
- Y broblem ‘ddyrys’ allweddol o ran darparu cymorth a dargedir a chymorth arbenigol ar gyfer teuluoedd sy’n mabwysiadu ydy’r tensiwn rhwng yr awydd i sicrhau cysondeb (a fynegwyd yn fynych yn yr astudiaeth hon gan rieni sy’n mabwysiadu a weithiau gan arweinydd sectorau) a'r angen am hyblygrwydd wrth gyflenwi o fewn gwahanol ardaloedd a rhanbarthau (weithiau mynegwyd hyn gan rhai o arweinwyr sectorau a gweithwyr proffesiynol ym maes mabwysiadu)

[7] Mae’r model hwn nawr yn cael ei ddefnyddio gan ranbarthau eraill gan ddatblygu’r cynnig hwn ochr yn ochr â TESSA

- Dim ond ychydig dros hanner y rhieni a gwblhaodd yr arolwg a ofynnodd yn ddiweddar am gymorth a dargedir neu gymorth arbenigol nododd eu bod yn gallu ei gael pan oedden nhw ei angen (57%), ac anghytunodd tua un rhiant o bob pump yn gryf y gallen nhw wneud hynny (21%). Nododd dau draean fod y gwasanaethau yn ddigon agos i'w cartrefi (66%), ond roedd bron i 1 ymhob 6 yn anghytuno â hyn (16%). Yn yr un modd er bod canran uchel o weithwyr proffesiynol (83%) a gymerodd ran yn yr arolwg yn credu ei bod yn eitha hawdd i hawdd iawn i gyrchu cymorth mabwysiadu cyffredinol, dim ond 56% oedd yn meddwl ei bod yn eitha hawdd i hawdd iawn i gyrchu cymorth a dargedir a dim ond 6% i gael mynediad i wasanaethau cymorth arbenigol. Nodwyd y bylchau allweddol cyffredinol yn y gwasanaethau sy'n effeithio ar blant mabwysiedig a'u teuluoedd mewn llawer o fannau yng Nghymru sef:
  - Cymorth therapiwtig / mynediad i wasanaethau dan arweiniad seicoleg
  - Cymorth cydlynus ar gyfer plant hŷn a phlant ifanc, yn cynnwys y rhai ar drothwy bod yn oedolion ar draws gwasanaethau allweddol yn cynnwys cymorth mabwysiadu, addysg, CAMHS, tai ac eraill – dull 'dim drws anghywir' o fynd ati.
  - Llwybrau diagnosis clir, effeithlon a chymorth ar gyfer plant â FASD, ADHD neu ASD.
  - Llwybrau clir, effeithlon i CAMHS arbenigol lle nad oes gan dimau cymorth mabwysiadu y lefel briodol o arbenigedd nac adnoddau o ddiwallu anghenion plentyn.
  - Gwaith ar gofnodi profiadau bywyd uchel ei ansawdd a therapiwtig, yn enwedig ar gyfer plant hŷn.
  - Cyngor rhagweithiol am gyswllt â theuluoedd biolegol ar gyfer pob plentyn mabwysiedig a theuluoedd sy'n mabwysiadu, nid yn unig ar gyfer y rheiny lle rhagwelir cyswllt ar gyfnod cynnar, yn cynnwys o ran y cyfryngau cymdeithasol.
  - Seibiannau byr ar gyfer plant mabwysiedig a theuluoedd sy'n mabwysiadu pan fo angen y rhain, er enghraifft mewn sefyllfaoedd 'uchel eu pwysau'.

Amlygwyd rhai o'r bylchau hyn ymhellach yn ystod cyfnod Pandemig Covid-19, er enghraifft nododd rhai rhieni eu bod wedi gorfod aros 'hyd yn oed yn hirach' am rai o'r cymhorthion hyn neu i gael gwybod nad oedden nhw ar gael yn ystod y cyfnod hwn.

- Nodwyd rhwystrau a wynebai rhai teuluoedd rhag cyrchu cymorth a dargedir gan ystod o randdeiliaid oedd yn cynnwys (mewn rhai ardaloedd) yr angen i fynd nid yn unig drwy dimau mabwysiadu rhanbarthol ond hefyd 'yn ôl drwy' wasanaethau awdurdod lleol y teuluoedd i gael rhai o'r cymhorthion hyn; cynnydd yn yr ymwybyddiaeth a'r galw am y gwasanaethau hyn, adnoddau dan bwysau hyd yn oed ar ôl y buddsoddiad ynddyn nhw; cynigion heb eu datblygu'n llawn mewn rhai rhannau o Gymru o'i gymharu â mannau eraill; cynlluniau cymorth cynnar heb fod yn ddigon clir mewn rhai achosion am ddarpar anghenion tebygol plant mabwysiedig a/neu ddiffyg eglurder o fewn y sector cymorth mabwysiadu am ba gymorth penodol fyddai fwyaf priodol i ddiwallu anghenion plentyn unigol; rhestrau aros hir iawn ar gyfer CAMHS a dryswch ynglŷn â chymhwystra ar gyfer y gwasanaethau hyn; a diffyg eglurder am y llwybrau neu'r protocolau o ran asesu arbenigol ar gyfer cyflyrau megis FASD neu amseroedd aros hir am asesiadau o'r fath; ac yn olaf diffyg adnoddau a neilltuwyd ar gyfer cymorth arbenigol, yn enwedig cymorth therapiwtig fel bod rhai rhieni yn dal i orfod 'brwydro am wasanaethau'.

- Er bod rhieni, gweithwyr proffesiynol ac arweinyddion sector yn ochelgar bositif am ddyfodol gwasanaethau mabwysiadu yn gyffredinol yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer y teuluoedd sydd wedi mabwysiadu yn fwy diweddar, disgrifiwyd yn gyson bod y ddarpariaeth a dargedir a'r ddarpariaeth arbenigol ar gyfer teuluoedd sy'n mabwysiadu 'mewn cyfnod cynnar ar y daith o wella' ac angen sylw a/neu fuddsoddiad pellach.
- Ystyriai 84% o weithwyr proffesiynol maes mabwysiadu bod buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn cymorth mabwysiadu wedi cael effaith bositif ar argaeledd a/neu ansawdd y gwasanaethau hyn a chredai 98% bod y cyllid wedi cael ei 'ddefnyddio'n dda'. Fodd bynnag, nododd nifer hefyd feysydd o freuder posibl yn yr holl system, nid y lleiaf ohonyn nhw ydy natur byr-dymor llawer o'r buddsoddi diweddar a ystyrir i fod o leiaf cyn bwysiced â'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu ei hun i fod yn gyfrwng i achosi newid positif.

Yn gyffredinol, roedd canfyddiadau'r astudiaeth yn awgrymu ar y cyfan bod camau positif wedi'u gwneud tuag at gyflawni nodau cyffredinol Fframwaith Cymorth Mabwysiadu. Gosodwyd sylfaen gadarn o ganlyniadau i'r Fframwaith a'r buddsoddiadau ychwanegol a wnaed yn y gwasanaethau cymorth mabwysiadu, ond mae angen gwneud rhagor er mwyn diwallu'n effeithiol anghenion holl deuluoedd mabwysiadol yng Nghymru yn cynnwys i alluogi'r canlynol:

- Yr holl blant mabwysiedig i dderbyn y math priodol o gymorth a sylw mewn ysgolion neu golegau, lle maen nhw'n ei chael hi'n anodd yn aml, yn fwy felly nag yn eu cartrefi.
- Cysondeb mynediad ar gyfer teuluoedd i ffurfiau gwerthfawr o gymorth a werthfawrogir ar draws pob rhanbarth, yn enwedig y cymorth a all gynnig help 'cyfnod cynnar' therapiwtig effeithiol neu gymorth seicolegol cyn i deuluoedd fynd i argyfwng, a hefyd cyngor rhagweithiol am gyswllt â theuluoedd biolegol a gwaith cofnodi profiadau bywyd therapiwtig uchel ei ansawdd.
- Mynediad mwy cyffredinol i gymorth wedi'i dargedu ac arbenigol pan fydd ei angen ar deuluoedd mabwysiadol ar draws Cymru, yn cynnwys ar gyfer plant hŷn neu bobl ifanc ag anghenion cymhleth, ac ar gyfer y plant hynny sydd efallai â chyflyrau niwro-ddatblygiadol sydd angen eu harchwilio ymhellach ynghyd â chymorth pellach.

## Diolchiadau

Hoffai'r tîm gwerthuso yn y Sefydliad Gofal Cyhoeddus achub ar y cyfle hwn i fynegi ein diolch didwyll i'r holl rieni, pobl ifanc, gweithwyr proffesiynol maes mabwysiadu ac arweinwyr sectorau a gymerodd ran yn y gwerthusiad hwn, pobl sydd wedi rhoi o'u hamser ac hebddyn nhw ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl.

Hoffen ni ddiolch i'r Grŵp Cyfeirio Cenedlaethol am eu hymrwymiad i'r gwerthusiad hwn ac am y cymorth a gafwyd ganddyn nhw ar ei gyfer.

## Rhestr Termau

Mae tîm ymchwil y Sefydliad Gofal Cyhoeddus wedi ceisio defnyddio iaith blaen i ddisgrifio'r dulliau gwerthuso a'r canfyddiadau ar gyfer yr astudiaeth hon. Fodd bynnag, defnyddir nifer o dermau, ymadroddion neu gysyniadau yn fynych ac efallai byddai'n dda o beth i'w hegluro a'u disgrifio ar ddechrau'r adroddiad.

| Term neu Ymadrodd | Diffiniad |
|---|---|
| ADHD | Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd |
| ASD | Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (yr enw cyffredin ar hyn ydy 'awtistiaeth') |
| Y Gofal a brofwyd | Plentyn neu berson ifanc sydd naill ai'n derbyn gofal neu wedi derbyn gofal (er enghraifft person ifanc hŷn 18 oed sydd wedi 'gadael gofal', plentyn sydd wedi dychwelyd at ei deulu biolegol neu blentyn mabwysiedig) |
| FASD | Anhwylder ar y Sbectrwm Alcohol Ffetws. Cyflwr a achosir gan y fam yn yfed alcohol yn ystod ei beichiogrwydd. |
| Plentyn sy'n derbyn gofal | Plentyn neu berson ifanc sydd ar hyn o bryd yng ngofal yr awdurdod lleol |
| Cyffredinol | Defnyddir y gair i gyfeirio at 'anghenion' neu 'gymhorthion' teulu sy'n mabwysiadu – a ddiffinnir fel yr hyn sydd yn effeithio ar bob teulu sy'n mabwysiadu neu sydd ar gael iddyn nhw. |

# 1 Rhagarweiniad

Yn hanesyddol y drafodaeth gyhoeddus ynglŷn â mabwysiadu oedd y byddai teulu twymgalon, cariadus a phositif yn gwneud iawn am brofiadau cynnar anodd a chamdriniaeth plentyn o bosibl (babi yn aml). Mae'r drafodaeth yn y broses o gael ei diwygio ar sail ymchwil, profiad o ymarfer a'r hyn y gall teuluoedd sy'n mabwysiadu ei ddweud wrthon ni (Stock et al. 2016; Selwyn 2017; Meakings et al. 2018).

Mae astudiaethau blaenorol hefyd wedi dangos sut mae canlyniadau plant mabwysiedig yn dueddol o fod yn well na rhai'r plant hynny sy'n aros yng ngofal awdurdod lleol (plant sy'n derbyn gofal), gyda gwelliannau y tybir sy'n cynnwys: twf corfforol, ymglymiadau a chyflawniadau addysgol (Van Jzendoorn & Juffer 2006).

Fodd bynnag, er y *gall* mabwysiadu gynnig cyfleoedd i adfer a gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, erbyn hyn, cydnabyddir angen cymorth ar ôl mabwysiadu, ar draws taith fabwysiadu ac ar adegau neu benodau ystyrlon, er mwyn gwella bywyd teuluol, hyrwyddo llesiant plentyn a/neu mewn rhai amgylchiadau atal lleoliad rhag methu. Yn gynyddol, derbynnir efallai bydd angen cymorth wedi'i deilwra ar yr holl blant mabwysiedig a'u rhieni ryw adeg

Stock et al. 2016; Dance a Rushton 2005; Palacios a Brodzinsky 2010 dyfynnwyd yn Meakings et al. 2018; Bell a Kempenaar 2010; Pennington 2012; Holmes et al., 2013; Ottaway et al. 2014; Selwyn et al. 2015.

Yn 2017, i gydnabod y sail tystiolaeth hwn ac o ganlyniad i adborth uniongyrchol gan blant mabwysiedig a theuluoedd sy'n mabwysiadu yng Nghymru, cyd-luniodd Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru, gan ymgorffori gyd-elfennau rhanbarthol[8], lleol a chenedlaethol [9], fframwaith blaengar a set gysylltiol o ddisgwyliadau cymorth ar gyfer teuluoedd ar draws sbectrwm o 'lefel' o anghenion o'r cyffredinol (anghenion yr holl deuluoedd sy'n mabwysiadu) hyd at anghenion cymorth mwy arbenigol ac wedi'u targedu.

Yr enw a roddwyd i hyn oedd y 'Fframwaith Cymorth Mabwysiadu' neu 'ASF' a'i ddau nod ydy:

- Sicrhau bod amrediad o gymorth ar gael a digon ar gael ar draws Cymru i ddiwallu'r angen a'r galw mewn modd amserol a chost-effeithiol, yn cynnwys '**cynnig craidd'** o gymorth i gynorthwyo teuluoedd ar gyfnod cynnar taith fabwysiadu ac i annog 'ail-fynediad hawdd' i mewn i wasanaethau yn ôl yr angen.
- Hyrwyddo hinsawdd ar draws Cymru lle mae rhieni a theuluoedd mabwysiadol yn teimlo ei fod yn '**IAWN i ofyn am help'**.

Un newid strwythurol allweddol sy'n sail i'r fframwaith fu datblygu math o '**bwynt mynediad sengl'** ymhob rhanbarth i mewn i wasanaethau cymorth mabwysiadu[10] a rhai cyllidebau cyfun ar draws ranbarthau (mae ychydig o amrywioldeb yng ngraddau cyfuno

[8] Mae 5 trefniant rhanbarthol ar hyn o bryd: Canolbarth a Gorllewin Cymru; Gogledd Cymru; De Ddwyrain Cymru; Bro a Chymoedd a Chaerdydd; a'r Bae Gorllewinol
[9] Yn cynnwys y sector gwirfoddol, yn benodol St Davids, Barnardo, AfA Cymru, ac Adoption UK
[10] Er bod y rhain wedi cael eu datblygu ar wahanol gyflymder gyda mabwysiadwyr hŷn dim ond yn cychwyn ar ddiwedd 2020 (yn bennaf oherwydd Pandemig Covid-19)

cyllidebau o'r fath, gydag awdurdodau lleol mewn rhai rhanbarthau yn cadw ychydig o'r gyllideb gyffredinol i ariannu cymorth arbenigol sydd ei angen ar bob achos unigol).

Ochr yn ochr â datblygu ASF, nododd achos busnes seiliedig ar dystiolaeth **yr angen am fuddsoddiad ychwanegol** mewn gwasanaethau cymorth mabwysiadu er mwyn cyflawni eu nodau, yn enwedig i ymestyn tu hwnt i 'help cynnar' i fod yn gymorth mwy arbenigol ac wedi'u targedu yn fwy penodol ar gyfer teuluoedd sy'n mabwysiadu y tybir bod bwlch. Yn 2019/20, bron i 2 flynedd i mewn i'r daith newid, neilltuodd Llywodraeth Cymru £2.3 miliwn ar gyfer buddsoddi mewn cymorth mabwysiadu ar draws y wlad. Tybir bod hyn yn ffynhonnell bwysig o gynnydd mewn cyllid yn ystod y cyfnod perthnasol, wedi'i gyfeirio'n bennaf at dimau mabwysiadu rhanbarthol a pheth ohono wedi'i gyfeirio at y sector gwirfoddol. Fodd bynnag, o ganlyniad i fenter gydlynus genedlaethol, mae rhai rhanbarthau hefyd wedi sicrhau cyllid ar gyfer gwasanaethau (cymorth) mabwysiadu o'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) o gyllid awdurdod lleol a/neu gyllid rhanbarthol awdurdod a/neu gyllid cyfun.

Amlinellir y **mathau o gymorth a ragwelwyd yn wreiddiol** yn y Fframwaith bod gofyn amdano ar bob lefel yn y tabl isod:

**Tabl 1: Mathau o Gymorth a nodir fesul lefel yr angen yn yr ASF (Fframwaith Cymorth Mabwysiadu)**

| Lefel yr Angen | Mathau o gymorth a ragwelir |
|---|---|
| Cyffredinol (holl deuluoedd sy'n mabwysiadu) | ▪ Cyngor a gwybodaeth<br>▪ Aelodaeth AUK<br>▪ Paratoi a hyfforddiant ar ôl cymeradwyaeth<br>▪ Grwpiau cymorth cymheiriaid<br>▪ Cymorth gyda chyswllt â theulu biolegol a chael gweld cofnodion<br>▪ Gwasanaethau iechyd ac addysg yn 'ymwybodol o fabwysiadu<br>▪ Gwaith cofnodi profiadau taith bywyd |
| Wedi'i dargedu | ▪ Cymorth therapiwtig / ystod o therapïau<br>▪ Hyfforddiant mwy arbenigol ar ôl cymeradwyaeth (bwydlen)<br>▪ Cymorth anghenion ychwanegol / mwy o ymwybyddiaeth o fabwysiadu mewn ysgolion<br>▪ Gwaith therapiwtig cofnodi profiadau bywyd<br>▪ Trosolwg gweithredol o gynlluniau cymorth parhaus<br>▪ Mynediad i lwfans ariannol<br>▪ Mynediad i CAMHS |
| Arbenigol | Yn ychwanegol at y rhai a restrir uchod:<br>▪ Cymorth therapiwtig mwy arbenigol<br>▪ CAMHS (Arbenigol)<br>▪ Cymorth aml-asiantaethol ar gyfer anghenion |

Bu **mathau eraill newydd o gymorth a ddatblygwyd ers sefydlu'r Fframwaith,** yn cynnwys rhai a ariennir gan fuddsoddiad Lywodraeth Cymru a rhai gan y Loteri

Genedlaethol yn anodd i'w lleoli'n fanwl ar sbectrwm angen gan eu bod yn rhychwantu mwy nag un lefel o angen er enghraifft:

- Rhaglen **TESSA** [11] (Gwasanaethau Therapiwtig, Addysg a Chymorth ym maes Mabwysiadu) a gefnogir gan Adoption UK a'i ariannu gan y Loteri Genedlaethol a'i ddefnyddio gyda chymorth gan bob un o'r timau cymorth mabwysiadau rhanbarthol. Lluniwyd y rhaglen hon fel ymyriad ataliol cynnar ar gyfer teuluoedd mewn perygl o ddioddef effeithiau trawma plentyndod cynnar ac yn cynnwys elfennau asesiad dan arweiniad seicolegydd; hyfforddiant; ymgynghori gydag ysgolion a chymorth cymheiriaid (partner rhiant).
- **Mabwysiadau Gyda'n Gilydd** a arweinir gan Gymdeithas Plant Dewi Sant (St Davids), gyda chymorth Llywodraeth Cymru ac NAS. Mae'r gwasanaeth hwn yn dod â holl Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol Cymru at ei gilydd i ganfod a chynnig cymorth rhagweithiol i deuluoedd ar gyfer plant a fyddai fel arall yn aros yn hirach am leoliad. Mae'n cynnwys cynnig rhagweithiol o gymorth therapiwtig
- **Seicolegwyr clinigol wedi'u hymgorffori yng ngwasanaethau cymorth mabwysiadu a thimoedd (rhanbarthol)** er mwyn darparu cyngor ar ddull ymgynghori i weithwyr proffesiynol eraill, i ysgolion a theuluoedd o gyfnodau cynnar y mabwysiadu i gyfnodau hwyrach y mabwysiadu yn ogystal ag ychydig o waith uniongyrchol (1:1).

Mae canfyddiadau astudiaethau eraill diweddar iawn o gymorth ôl-mabwysiadu, yn arbennig 'Baromedr' Mabwysiadu a gynhaliwyd gan Adoption UK ar draws y DU, yn cynnwys 226 o rieni mabwysiadol i Gymru, wedi awgrymu optimistiaeth ochelgar am brofiadau positif teuluoedd o ddatblygiadau (mewn rhai ffurf) o gymorth mabwysiadu yng Nghymru (Adoption UK, 2020). Er enghraifft, mynegodd rhieni mabwysiadol yng Nghymru, oedd yn rhan o arolwg Baromedr yn 2020, fwy o foddhad yn gyffredinol gyda'u profiad mabwysiadu o'i gymharu â'r rhai a gymerodd ran yn 2019 ac o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU ar draws y ddwy flynedd. Fodd bynnag, roedd rhieni plant hŷn yn llai positif am ddyfodol eu plant yn 2020 o'i gymharu ag yn 2019 a doedd cyfran o rieni ddim yn hyderus am y modd y byddai cyflyrau sylfaenol y gallai fod plant mewn perygl cynyddol o'i ddioddef yn enwedig Anhwylder ar y Sbectrwm Alcohol Ffetws yn cael eu diagnosio neu eu cynorthwyo (ar draws y DU yn ogystal ag yng Nghymru yn benodol).

Fodd bynnag, ceisiodd adroddiad Baromedr ystyried pob agwedd o fabwysiadu o brofiadau darpar fabwysiadwyr drwyddo i gymorth mabwysiadu. Felly, comisiynwyd y gwerthusiad hwn gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru) i gynnal gwerthusiad annibynnol oedd yn ffocysu'n fwy penodol ar y graddau y mae nodau Fframwaith Cymorth Mabwysiadu wedi cael eu cyflawni ar gyfer teuluoedd ôl-leoli. Mae adrannau canlynol yr adroddiad yn ystyried:

- Y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal y gwerthusiad
- Y canfyddiadau a drefnwyd fesul thema gan gyfeirio at y cwestiynau allweddol ar gyfer y gwerthusiad (a'r rheiny eu hunain yn seiliedig ar Theori Newid a gyd-luniwyd gyda'r Grŵp Cyfeirio Cenedlaethol ar gyfer y gwerthusiad)
- Casgliadau'r astudiaeth.

[11] Ceir rhagor o wybodaeth ar hyn ar y wefan hon: https://www.adoptionuk.org/tessa

# 2 Methodoleg y Gwerthusiad

Mae'r astudiaeth cymysg ei dull hon yn tynnu ar ddata o ystod o weithgareddau gwerthuso yn cynnwys adolygiad ymchwil cyflym, arolwg ar-lein o rieni sy'n mabwysiadu, arolwg ar-lein o weithwyr proffesiynol yn gweithio gyda theuluoedd sy'n mabwysiadu, cyfweliadau gydag arweinydd sector a rhagor, fel yr amlinellir isod.

'Clywyd' gan dros 450 o unigolion yn ymwneud â chymorth mabwysiadu yng Nghymru, yn cynnwys 333 o rieni sy'n mabwysiadu.

Caniatawyd cymeradwyaeth pwyllgor moeseg i gynnal yr astudiaeth gan Bwyllgor Moeseg Oxford Brookes ym mis Gorffennaf 2020. Yn ogystal â dadansoddi gwybodaeth gefndirol a rheoli a gynhyrchwyd gan Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn ystod y ffrâm amser perthnasol, mae gwerthuswyr wedi cynnal y gweithgareddau gwerthuso canlynol yn ystod Mehefin i fis Tachwedd 2020:

## 2.1 Adolygiad ymchwil cyflym i fod yn sail i'r gwerthusiad ac i ddarparu cyd-destun ar gyfer y canfyddiadau

Mae elfennau'r adolygiad yn cael eu hymgorffori i nifer o adrannau'r adroddiad er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer y canfyddiadau o'r gwerthusiad hwn.

## 2.2 Cyd-gynhyrchiad gyda Grŵp Cyfeirio Cenedlaethol o Theori Newid

Cyd-gynhyrchwyd Theori Newid (ToC), yn amlinellu rhesymeg a nodau byr-dymor / tymor hirach Fframwaith Cymorth Mabwysiadu Cymru gyda grŵp llywio o gynrychiolwyr NAS (canolog a rhanbarthol), Comisiynydd Plant Cymru, y Sector Gwirfoddol (Adoption UK Cymru), y GIG, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac academydd blaengar yn y maes hwn, Yr Athro Katherine Shelton o Brifysgol Caerdydd. Ceir copi o'r Theori Newid yn Atodiad 1.

Y cwestiynau allweddol sy'n deillio o'r Theori Newid ydy:

1. I ba raddau mae teuluoedd nawr yn credu ei bod yn IAWN i ofyn am help, gwybod ble i fynd a gofyn am help pan fyddan nhw ei angen yn ymarferol?
2. I ba raddau mae'r ASF wedi arwain at fynediad mwy cyson ar gyfer plant a theuluoedd mabwysiadol i'r help priodol ar yr adeg briodol? Mae hyn yn cynnwys mynediad ar gyfer pob teulu sy'n mabwysiadu i gymorth cyffredinol ei lefel megis cyngor, cyfeirio a hyfforddiant. Bydd hefyd yn cynnwys mynediad i deuluoedd sydd angen cymorth mwy arbenigol ei natur ac wedi'i dargedu'n fwy penodol
3. I ba raddau mae teuluoedd sydd yn mabwysiadu wedi bod yn cyrchu (rhagor) o gymorth yn cynnwys yn ystod cyfnod pandemig Covid-19? Sut mae'r gwasanaethau wedi newid yn ystod y cyfnod hwn?
4. I ba raddau mae teuluoedd mabwysiadol yn fodlon gyda'r cymorth sydd yn cael ei gynnig a chael y cymorth hwnnw yn ddefnyddiol?
5. I ba raddau mae ysgolion ac asiantaethau allweddol yn ymwybodol o anghenion plant a theuluoedd sy'n mabwysiadu?
6. I ba raddau mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn gwasanaethau cymorth mabwysiadu ers 2018 wedi arwain at welliannau yng ngwasanaethau cymorth neu ar gyfer teuluoedd?

7. I ba raddau y mae marchnad gydnerth yn bodoli ar gyfer cymorth mabwysiadu yng Nghymru? I ba raddau mae teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn hyderus am ddyfodol cymorth mabwysiadu?
8. I ba raddau mae gwasanaethau yn seiliedig ar lais teuluoedd sy'n mabwysiadu?
9. Beth fu effaith gyffredinol y Fframwaith Cymorth Mabwysiadu yn cynnwys ymwybyddiaeth o anghenion teuluoedd sy'n mabwysiadu a'r angen am fynediad cyson i'r help priodol ar yr adeg briodol?

Mae'r cwestiynau hyn yn ffurfio strwythur ar gyfer adran ganfyddiadau'r adroddiad.

### 2.3 Arolwg dwyieithog ar-lein o dros 300 o rieni sy'n mabwysiadu

Yn Hydref 2020, dosbarthwyd gwybodaeth am[12] ac yna, ar ôl seibiant o 48 awr, ddolen gyswllt i Arolwg Mabwysiadu Cenedlaethol i tua[13] 1,500 o rieni mabwysiadol yng Nghymru drwy e-bost o ffynhonnell rhanbarthol neu sector gwirfoddol, ffynhonnell y gellid ymddiried ynddi (rhestrau postio Asiantaeth Mabwysiadu Rhanbarthol a'r Sector Gwirfoddol).

Hyrwyddodd y gyfres e-byst gysyniad gwybodus cyfran resymol (tua 21%) o'r holl rieni ar y rhestrau postio hyn i gymryd rhan mewn arolwg ar-lein am eu profiadau diweddar o gymorth mabwysiadu ar draws Cymru. Roedd yr arolwg 'ar agor' o 12 Hydref 2020, pwynt cychwyn dosbarthu'r wybodaeth tan 28 Tachwedd 2020 pan gaewyd yr arolwg i dderbyn ymatebion.

Ymatebodd cyfanswm o 312 o gyfranogwyr (cyflwynodd 189 o rieni arolygon cyflawn a chyflwynodd 123 arolygon heb eu cwblhau'n llawn sydd hefyd wedi cael eu cynnwys yn y canlyniadau, fel bo'n briodol). Mae'r lefel hon o ymateb yn arbennig o ddymunol o gofio bod Cymru mewn cyfnod 'clo' oherwydd Covid-19 yn ystod cyfnod yr arolwg, yn cynnwys adegau pan oedd y plant adref o'r ysgol.

Cafwyd ymatebion gan bob un o'r 22 ardal awdurdod lleol. Dydy hi ddim yn bosibl darparu cyfrannau clir o ymatebion fesul rhanbarth oherwydd dewisodd nifer fawr o ymatebwyr (120) beidio â chynnig y wybodaeth hon.

O'r rhieni hynny a ymatebodd, nododd dros hanner (59%) eu bod yn magu un plentyn mabwysiedig a nododd traean (34%) eu bod yn magu dau blentyn mabwysiedig. Cyfran fechan o gyfranogwyr (7%) nododd eu bod yn magu tri neu fwy o blant mabwysiedig.

Gofynnwyd i gyfranogwyr gyda mwy nag un plentyn mabwysiedig i ymateb i'r cwestiynau penodol i blentyn yn yr arolwg gan gyfeirio at eu plentyn mabwysiedig hynaf, Bydd y plant y ffocyswyd arnyn nhw yn yr arolwg yn amrywio o ran oed ond roedd y mwyafrif o dan 10 oed fel y gwelir yn y tabl isod:

[12] Ar ffurf Taflen Wybodaeth a Hysbysiad Preifatrwydd dwyieithog yn amlinellu gwybodaeth am y gwerthusiad a'r arolwg a hawliau cyfranogwyr yn cynnwys sôn am gyfrinachedd a natur gwirfoddol cyfranogi, hefyd am y modd y bydd eu data yn cael ei storio a'i gadw'n ddiogel.
[13] Mae'n anodd i fod yn glir am nifer y bobol y mae'r arolwg wedi cyrraedd oherwydd cafodd ei ddosbarthu drwy 'restrau postio' ar gael ar gyfer pob rhanbarth ynghyd â rhai o'r sector gwirfoddol (St Davids ac Adoption UK Cymru). Mae'r rhestrau yn debygol o fod yn gorgyffwrdd ac efallai'n cynnwys cyferiadau e-bost heb fod yn berthnasol bellach, er enghraifft oherwydd bod plant wedi gadael cartref neu bod teuluoedd wedi symud.

**Tabl 2: Oedran y plentyn ffocws fesul cyfran o ymatebion rhieni yn yr arolwg gwerthusiad rhieni ASF**

| Ystod Oed | Cyfran |
|---|---|
| 0-4 blwydd | 31.5% |
| 5-10 blwydd oed | 40.5% |
| 11-14 blwydd oed | 19% |
| 15 -18 blwydd oed | 6% |
| 19 + blwydd oed[14]ryw | 3% |

Nodwyd bod 49.4% o'r plant mabwysiedig hyn y ffocyswyd arnyn nhw yn wryw a bod 49.7% yn fenyw.

Nodwyd bod mwyafrif helaeth o'r plant mabwysiedig y ffocyswyd arnyn nhw yn Brydeinig Gwyn (92.3%), a dim ond un plentyn a fabwysiadwyd o dramor. Ymhlith cefndiroedd ethnig eraill roedd: Teithiwr Gwyddelig; Gwyn a Du Caribïaidd; Gwyn a Du Affricanaidd; Gwyn ac Asiaidd; Tsieineaidd; ac Gwyn Ewropeaidd

Roedd y mwyafrif o blant mabwysiedig (67.6%) yn byw gyda'r rhiant (rhieni) mabwysiadol ar ôl i Orchymyn Mabwysiadu gael ei gyflwyno ac roedd traean (32.4%) yn byw gyda nhw cyn i Orchymyn gael ei gyflwyno. Roedd hanner (50%) plant y cyfranogwyr wedi bod yn byw gyda nhw am hyd at 5 blynedd. Cyfartaledd y cyfnod (cymedr) y bu plant yn byw gyda'u rhieni mabwysiadol oedd 5.7 mlynedd a'r cyfnod modd (y mwyaf cyffredin) oedd 5-6 mlynedd.

## 2.4 Arolwg ar-lein dwyieithog o weithwyr proffesiynol yn gweithio gyda theuluoedd mabwysiadol.

Gwahoddwyd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant mabwysiedig a'u teuluoedd yng Nghymru i gymryd rhan mewn arolwg o'u profiadau o gymorth mabwysiadu ac o'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu. Dosbarthwyd ceisiadau i gymryd rhan[15] drwy gysylltiadau allweddol o fewn Asiantaethau Mabwysiadu Rhanbarthol.

- Ymatebodd 78 o weithwyr proffesiynol i'r arolwg
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn dod o Asiantau Mabwysiadu Rhanbarthol (47%) neu Adran Gwasanaethau Plant Awdurdod Lleol (21%) ond hefyd cafwyd cynrychiolaeth gymharol gref o'r sector gwirfoddol (18%) a'r sector preifat sy'n ymwneud â darparu cymorth mabwysiadu (8%) yn cynnwys sefydliadau ac unig fasnachwyr.

[14] Bron ymhob achos, roedd hefyd plant mabwysiedig iau y teulu yr oedd rhieni yn gallu ateb cwestiynau ehangach am gymorth mabwysiadu amdanyn nhw
[15] Ymgorffori gwybodaeth ddwyieithog am y gwerthusiad, yr arolwg a hawliau cyfranogwyr yn cynnwys cyfrinachedd a natur wirfoddol cymryd rhan.

**Tabl 3: Ymatebwyr i arolwg gweithwyr proffesiynol mabwysiadu fesul math o asiantaeth (rhif a % o'r holl)**

| Math o Asiantaeth | Nifer yr Ymatebwyr | % Yr Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Asiantaeth Mabwysiadu Ranbarthol | 37 | 47% |
| Gwasanaethau Plant Awdurdod Lleol | 16 | 20% |
| Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol (VAA) | 7 | 9% |
| Darparydd Sector Gwirfoddol o Gymorth Mabwysiadu | 7 | 9% |
| Darparydd Sector Preifat (yn cynnwys unig fasnachwyr) | 6 | 8% |
| Sefydliad Cenedlaethol yn ymwneud â mabwysiadu | 2 | 3% |
| Arall (yn cynnwys darparwyr iechyd ac addysg) | 3 | 4% |
| **Cyfanswm** | **78** | **100%** |

Mae rolau gweithwyr proffesiynol gan fwyaf yn cynnwys gweithiwr cymdeithasol cymorth mabwysiadu neu reolwr tîm, ond hefyd rhai o aelodau panel mabwysiadu; therapyddion; seicolegwyr neu rolau cymorth eraill.

Roedd y gweithwyr proffesiynol hyn yn gweithio'n bennaf o fewn rhanbarth, ond weithiau ar draws mwy nag un rhanbarth neu hyd yn oed yn genedlaethol. Cafwyd cynrychiolaeth o bob rhanbarth ar draws Cymru.

### 2.5 Cyfweliadau un-i-un gyda rhieni mabwysiadol a phobl ifanc

Cafodd cyfanswm o 20 o rhieni mabwysiadol ac 1 person ifanc oedd wedi cael ei f/mabwysiadu eu recriwtio i gymryd rhan mewn cyfweliad un-i-un ar gyfer yr astudiaeth hon.

Ar ddiwedd yr arolwg ar-lein, gofynnwyd i rieni a oedd ganddyn nhw a/neu eu plentyn (plant) mabwysiedig ddiddordeb mewn cymryd than mewn cyfweliadau mwy manwl. Anfonwyd gwybodaeth bellach at bawb a fynegodd ddiddordeb a beth oedd hyn yn ei olygu a sut byddai eu data yn cael ei ddefnyddio a'i gadw'n ddiogel (taflen wybodaeth a hysbysiad preifatrwydd yn Saesneg ac yn y Gymraeg). O'r rhai a fynegodd ddiddordeb ar y cychwyn, cytunodd 19 o rieni i gymryd rhan ac, mewn un achos, cytunodd eu plentyn hŷn hefyd i gymryd rhan. Recriwtiwyd un rhiant pellach i gymryd rhan mewn cyfweliad un-i-un ar ôl gwrthod cymryd rhan yn yr arolwg. Cynigiwyd cyfle i'r holl gyfwelai i gael eu cyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Cynhaliwyd y cyfweliadau yn bennaf ar blatfform ar-lein, 'Zoom', ond hefyd mewn rhai achosion recordiwyd dros y ffôn. Cawson nhw eu recordio yn bennaf ar adnodd recordio Zoom, gyda'r recordiad wedi'i lanlwytho'n ddiogel ac wedi'i drawsgrifio'n rhannol gan ddefnyddio technoleg 'Panopto'. Gwrandawyd ar y recordiad yn bellach ac addaswyd y trawsgrifiadau o ganlyniad i hynny.

Gyda'i gilydd, mae'r cyfweliadau hyn yn cynrychioli teuluoedd mabwysiadol ar draws yr holl ranbarthau a bron pob awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd rhai o'r rhieni yn rhieni sengl tra bod gan eraill ŵr neu wraig. Roedd nifer o rieni wedi mabwysiadu plentyn ar ôl ei f/maethu i gychwyn. Roedd y plant, yn fechgyn a merched, rhwng 2 ac 18 oed ac wedi byw gyda'r rhiant (rhieni) rhwng 1 a 15 o flynyddoedd.

### 2.6 Cyfweliadau un-i-un gydag arweinwyr sector

Ar ô derbyn gwybodaeth am yr hyn mae cymryd rhan yn ei olygu, rhoddodd cyfanswm o 21 o arweinwyr sector eu caniatâd gwybodus i gymryd rhan mewn cyfweliad un-i-un am eu profiad o gymorth mabwysiadu a'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu, drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Ymhlith y rhai a gymerodd rhan roedd:

- 6 o'r Trydydd Sector.
- 6 gyda rôl arweinyddiaeth genedlaethol.
- 5 gyda rôl arweinyddiaeth ranbarthol.
- 4 gyda rôl arweinyddiaeth lleol (awdurdod lleol)

Yn ogystal â cynnal y cyfweliadau hyn, mynychodd ymchwilwyr IPC 'The Big Conversation' hefyd a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2020 (digwyddiad a drefnwyd gan NAS ac AUK Cymru i drafod y canfyddiadau'r arolwg Baromedr o deuluoedd sy'n mabwysiadu) i glywed yr hyn roedd gan arweinwyr, gweithwyr proffesiynol a rhieni mabwysiadol i ddweud mewn grwpiau cymysg thematig wrth ymateb i arolwg Baromedr.

### 2.7 Cyfyngiadau'r astudiaeth

Roedd yr astudiaeth yn gallu cyflawni neu ragori ar yr holl dargedau cyfranogi a osodwyd ar ei chyfer ac mae'n arbennig o ddymunol i nifer gymharol fawr o rieni gymryd rhan yn yr arolwg ar-lein. Fodd bynnag, dydy hi ddim yn bosibl i ddatgan bod canfyddiadau o'r holl elfen feintiol allweddol ohoni (arolwg rhieni ar-lein) yn cynrychioli holl rieni mabwysiadol yng Nghymru. Mae hyn oherwydd y canlynol yn bennaf:

- Ni chwblhaodd yr holl rieni bob agwedd o'r arolwg, yn enwedig yr elfennau nad oedd yn 'gofyn' am ymateb i barhau gydag e. Mae hyn yn golygu na roddodd yr holl rieni wybodaeth a fyddai'n galluogi tîm y gwerthusiad farnu a oedd nodweddion sampl a nodweddion holl blant mabwysiedig yng Nghymru yn cydweddu.
- Ni ellir bod yn hollol sicr am niferoedd plant mabwysiedig / teuluoedd sy'n mabwysiadu yng Nghymru na'u priodoleddau (er enghraifft, oed y plentyn, a oes unrhyw frawd neu chwaer mabwysiedig, ethnigrwydd). Y rheswm dros hyn ydy nad ydy pob teulu sy'n mabwysiadu yn dymuno aros mewn cysylltiad gyda'r asiantaethau statudol a allai gasglu'r math hwn o ddata a/neu weithiau wedi ail-leoli i rannau eraill o Gymru, y DU neu thu hwnt[16].

Cyfyngiad arall ydy, fel astudiaeth 'ciplun', ni fu'n bosibl i werthuso effaith y gwasanaethau cymorth dros amser.

[16] Tybir bod y niferoedd tua 3,000 o blant ar draws Cymru

# 3 Canfyddiadau'r Gwerthusiad

Mae'r canfyddiadau cyfun o'r holl weithgareddau gwerthuso yn cael eu trefnu'n systematig yn ôl cwestiynau allweddol y gwerthusiad a amlinellir yn yr adran fethodoleg.

Ar ddechrau pob adran, fel bo'n briodol, ceir cyfeiriad hefyd at yr hyn sydd eisoes yn hysbys o sail tystiolaeth y DU sydd eisoes yn bodoli neu gyd-destun Cymru. Mae'r adrannau canfyddiadau fel a ganlyn:

| Rhif Adran | Teitl Adran |
|---|---|
| 3.1. | Beth mae'r astudiaeth hon yn ei ddweud wrthon ni am anghenion plant mabwysiedig a theuluoedd sy'n mabwysiadu? |
| 3.2. | I ba raddau mae teuluoedd sy'n mabwysiadu yn teimlo ei bod yn iawn i ofyn am help? |
| 3.3. | I ba raddau mae teuluoedd sy'n mabwysiadu yn gwybod ble i fynd am help? |
| 3.4. | I ba raddau mae teuluoedd sy'n mabwysiadu wedi bod yn fodlon gyda'r cymorth sydd ar gael ac i ba raddau maen nhw'n cael y cymorth yn ddefnyddiol? |
| 3.5. | I ba raddau mae gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn cael eu cydlynu'n dda? |
| 3.6. | I ba raddau mae ysgolion a cholegau yn ymwybodol o anghenion penodol plant mabwysiedig? |
| 3.7. | I ba raddau y tybir bod gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn ddigonol ar draws Cymru? |
| 3.8. | I ba raddau mae trefniadau llywodraethu ar gyfer cymorth mabwysiadu yn addas i'r diben? |
| 3.9. | I ba raddau mae rhieni a rhanddeiliaid ehangach yn hyderus am ddyfodol gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru? |

## 3.1 Beth mae'r astudiaeth hon yn ei ddweud wrthon ni am anghenion plant mabwysiedig a theuluoedd sy'n mabwysiadu?

Mae'r sail tystiolaeth sydd eisoes yn bodoli yn awgrymu y dylid rhagweld ystod o anghenion ychwanegol ar gyfer plant mabwysiedig a theuluoedd sy'n mabwysiadu, yn enwedig ond nid yn unig wrth i'r daith fabwysiadu fynd yn ei blaen tu hwnt i 'gyfnod mis mêl' lleoliad cynnar. Ymhlith canfyddiadau allweddol y sail tystiolaeth mae'r canlynol:

- Bod mwyafrif y mabwysiadau ar gyfer plant a fu'n derbyn gofal yn flaenorol (Ystadegau Cymru), yn bennaf, ond nid bob amser yn blant 0-4 oed (Llywodraeth Cymru, 2019).
- Mae plant sy'n derbyn gofal yn sylweddol fwy tebygol i fod wedi cael eu cam-drin o fewn eu teulu biolegol o'i gymharu â phlant eraill yn y boblogaeth gyffredinol (Meakings et al., 2018; NSPCC 2019) ac amcangyfrifir bod bron i hanner y plant a fabwysiadwyd yn ddiweddar yng Nghymru wedi profi 4 neu fwy o brofiadau

andwyol yn ystod eu plentyndod (ACEs) cyn cael eu rhoi ar restr fabwysiadu (Anthony et al, 2019). Mae hyn yn eu gosod yn y grŵp uchaf ei risg o ddioddef anawsterau yn nes ymlaen yn eu bywydau.

- Cafodd astudiaeth tracio carfan mabwysiadu Cymru fod y plant hyn sydd wedi cael eu mabwysiadu yn ddiweddar fod yr ACEau cyfun yn cynyddu'r tebygrwydd o 'fewnoli' (emosiynol) ac 'allanoli' (ymddygiadol) anawsterau ar gyfer plant 3 oed i mewn i'w lleoliad mabwysiadu, er i'r anawsterau hyn gael eu lliniaru i ryw raddau gan garedigrwydd a chynhesrwydd rhieni mabwysiadol (Anthony et al, 2019).

Mae Selwyn (2017) wedi categoreiddio effeithiau andwyol posibl o ACEau ar ddatblygiad plant sy'n cael eu mabwysiadu i bedwar prif faes:

- *Cymwyseddau mewnol* sy'n cynnwys synnwyr plentyn amdano/amdani ei hunan a'i hunan-ddatblygiad.
- *Cymwyseddau rhyngbersonol* yn cynnwys capasiti'r plentyn i ffurfio ac ymglymu mewn perthynas iach
- *Cymwyseddau rheoleiddiol* yn cynnwys capasiti'r plentyn i reoleiddio a safoni profiadau emosiynol a ffisiolegol.
- *Cymwyseddau niwro-wybyddol* sy'n cynnwys galluoedd y plentyn i reoli a ffocysu ei sylw, gallu ffrwyno ymddygiadau byrbwyll a gweithredu gyda bwriad.

Mae'r ffactorau eraill sy'n debygol o effeithio ar gyfran o blant mabwysiedig yn cynnwys ymlyniadau y tarfwyd arnyn nhw gyda gofalwyr sylfaenol yn cynnwys rhieni biolegol yn ogystal â rhieni maeth yn ystod y blynyddoedd cynnar (Bowlby, 1982; Selwyn et al., 2006; Ward et al., 2012), y fam yn camddefnyddio cyffuriau neu alcohol yn ystod ei beichiogrwydd[17], ac anhwylderau genetig megis Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth[18] (Selwyn et al., 2015; Selwyn 2017; Green, 2016).

Mae hefyd dystiolaeth sylweddol (er enghraifft gan Cairns, 2008) y gallai gofalu am blant sydd wedi cael eu trawmateiddio (drwy gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu unrhyw ACE arall) gael effaith drawmatig ganlyniadol ar rieni sy'n mabwysiadu, o bosibl yn effeithio ar y broses bondio a'u hiechyd meddwl eu hun (Wilburg, 2014).

### 3.1.1 Cryfderau ac anawsterau plant mabwysiedig yn yr astudiaeth hon o'i gymharu â phoblogaeth cyfan o blant

Er y bu lliaws o astudiaethau yn ystyried mynychder (cynyddol) anawsterau iechyd meddwl ymhlith plant sy'n derbyn gofal (er enghraifft: Ford et al., 2007; Pecora et al., 2009; Tarren-Sweeney, 2008; Bazalgette et al., 2015), ychydig sydd yna o ran plant mabwysiedig. Fodd bynnag, nododd Paine et al. (2000) ac eraill 'lefelau uchel' o anawsterau emosiynol ac ymddygiadol a lefelau uwch o gynnydd sy'n gysylltiedig â mabwysiadau plant hŷn ym mhoblogaethau plant sydd wedi cael eu mabwysiadu yn ddiweddar yng Nghymru)[19].

[17] Ystyriwyd gan ymchwilwyr bod y rhain yn effeithio ar gymaint â 60-70% o blant mabwysiedig
[18] Ystyriwyd gan ymchwilwyr bod y rhain yn effeithio ar gymaint â 10% o blant mabwysiedig
[19] Rydyn ni'n disgwyl cyhoeddiad astudiaeth plant mabwysiedig a phlant â gorchymyn gwarcheidwadaeth arbennig ar fin cyrchu cymorth therapiwtig arbenigol yn Lloegr (Burch et al, 2021). Fodd bynnag, mae hyn yn cynrychioli carfan arbennig o blant gydag anghenion arbenigol neu anghenion a dargedir.

Mae arolwg rhieni ar gyfer yr astudiaeth hon yn cynnwys adroddiadau o gryfderau ac anawsterau eu plentyn (neu os oedd ganddyn nhw fwy nag un plentyn, yr hynaf) gan gyfeirio at fesur safonedig a ddefnyddiwyd yn gyffredin ‘Holiadur Cryfderau ac Anawsterau’ (SDQ) (Goodman, 2001). Ceir fersiynau gwahanol o’r SDQ o ran oed plentyn (2-4 oed ac 4-17 oed). Mae’n ddefnyddiol i gymharu sgoriau sampl ASF y gwerthusiad hwn â normau Prydain (ar gyfer plant o’r un oed) sydd ar gael ar hyn o bryd o ran y canlynol:

- Plant 2-4 oed (Sim et al, dros 2013). Mae’r sampl cymharol hwn yn cynnwys data am tua 10,000 plant yr Alban tua 30 mis oed.
- Plant 5-15 oed (Melzer et al, 2000). Mae’r sampl cynrychioladol Prydeinig hwn yn cynnwys data am dros 10,000 o blant 5-15 oed.

Mae rhan gyntaf y mesur safonedig yn cynnwys 25 eitem sydd wedi’u rhannu’n 5 is-raddfa a phob un yn cynnwys 5 eitem. Mae’r is-raddfeydd yn asesu: symptomau emosiynol, problemau ymddygiad, gorfywiogrwydd/methu â chanolbwyntio, problemau perthynas â chymheiriaid ac arferion rhag-gymdeithasol. Caiff eitemau eu graddio o 0 i 2, fel bod is-sgoriau fesul is-raddfa yn ymestyn o 0 i 10. Seilir amcan y sgôr ar 4 is-raddfa ag eithrio’r raddfa rhag-gymdeithasol. Mae cyfanswm sgoriau yn amrywio rhwng 0 a 40, lle mae’r sgoriau uwch yn nodi mwy o anhawster i’r plentyn. Hefyd, defnyddiwyd atodiad effaith SDQ ar gyfer yr astudiaeth hon. Mae hyn yn cynnwys 5 cwestiwn am effaith anawsterau’r plentyn ar wahanol barthau eu bywyd, parhad yr anawsterau, a baich cyffredinol y mae’r anawsterau hyn yn ei olygu i eraill.

Mae **Sgoriau plant yn sampl gwerthusiad ASF 2-4 oed** yn awgrymu bod ganddyn nhw fwy sylweddol o anawsterau o’i gymharu â normau Prydain yn ôl mesur yr SDQ. Roedd y sgôr unigol cymedr (cyfartaledd) a chyfanswm sgoriau anhawster yn sylweddol uwch na rhai plant mewn sampl normadol ar wahân i’r cyfartaledd sgôr ‘rhag-gymdeithasol’ oedd yn is (yn nodi lefelau cryfderau is yn y maes hwn). Roedd y gwahaniaeth yn sylweddol iawn yn ystadegol. Mae maint effeithiau yn fychan (llai) ar gyfer Problemau Emosiynol, Problemau Cymheiriaid a Phroblemau ‘Rhag-Gymdeithasol’. Ar gyfer Gorfywiogrwydd, roedden nhw’n ganolig eu maint ac yn uchel eu maint o ran Problemau Ymddygiad a Chyfanswm Anawsterau, a hefyd Effaith.

Mae’r tabl isod yn crynhoi’r sgoriau cyfartaledd (cymedr) a’u rhychwant (gwyriad safonol) ar gyfer graddfeydd SDQ carfan arolwg ASF o blant oed 2-4 o'i gymharu â normau Prydain.

**Tabl 4: Sgoriau Holiadur Cryfderau ac Anawsterau ar gyfer plant 2-4 oed a gwyriadau safonol fesul math o raddfa ar gyfer y plant yn y arolwg o'i gymharu â normau Prydain**

| Graddfa SDQ 2-4 oed | Gwyriadau cymedr a safonedig Arolwg Mabwysiadu Cymru ar gyfer plant 0--4 (n=74) | Sgoriau gwyriadau cymedr a safonedig sampl normadol, Prydain (SD) ar gyfer plant oed 2-4 (Sim et al, 2013) |
|---|---|---|
| | Sgoriau cymedr (SD) | Sgoriau cymedr (SD) |
| Problemau Emosiynol (5 eitem) | 1.6 (2.0)*** | 1.1 (1.3) |
| Problemau Ymddygiad (5 eitem) | 4.8 (1.3)*** | 2.0 (1.8) |
| Gorfywiogrwydd (5 i eitem) | 4.5 (2.6)*** | 2.9 (2.3) |
| Problemau Cymheiriaid (5 eitem) | 1.8 (1.8)** | 1.3 (1.4) |
| Rhag-gymdeithasol (5 eitem) | 7.3 (1.9)*** | 8.1 (1.8) |
| **Cyfanswm yr Anawsterau (5 eitem)[1]** | **12.7 (5.3)*** ** | **7.3 (5.0)** |
| Sgôr effaith[2, 3,] | 1.2 (1.6)*** | 0.3 (1.2)[4] |

[1]Cynhyrchir hyn drwy gyfansymio sgoriau yr holl raddfeydd ac eithrio'r raddfa rhag-gymdeithasol. Mae'r sgoriau canlyniadol yn amrywio o 0 i 40, ac yn cael eu hystyried yn rhai nad oes gwybodaeth amdanyn nhw os bydd un o'r 4 sgoriau cydrannol ar goll.
[2]Gellir cyfansymio'r eitemau ar bryder a nam i gynhyrchu sgôr Effaith sy'n amrywio o 0 i 10 ar gyfer adroddiad rhieni. Dydy ymatebion i gwestiynau ar barhad a baich ar eraill ddim yn cael eu cynnwys yn y sgôr effaith.
[3] Sgoriau Effaith arolwg NAS Cymru n=27
[4] Normau cymharol yn seiliedig ar sampl Glasgow (2.1.2 uchod)
** p<.01
*** p<.001

Mae **Sgoriau plant oed 5-15 oed yn y sampl gwerthusiad ASF** hefyd yn awgrymu poblogaeth o blant mabwysiedig gyda mwy o anawsterau o'i gymharu â normau Prydain ar gyfer yr 'holl blant a phobl ifanc o'r un oed. Roedd gwahaniaethau ystadegol sylweddol iawn o ran graddfa sgoriau cymedr SDQ rhwng y rhai a ddarparwyd gan yr arolwg hwn ac arolwg normadol Prydain yn cynnwys cyfanswm sylweddol uwch o anawsterau a sgoriau effaith. Roedd maint yr effeithiau ar gyfer y graddfeydd SDQ hyn i gyd yn fawr (yn fwy nag un gwyriad safonedig o gymedr y sampl normadol Prydeinig). Roedd maint ar gyfer 'effaith' yn eithriadol o fawr (tri gwyriad safonedig o gymedr y sampl normadol Prydeinig).

Ystyrir y sgoriau hyn yn fwy manwl yn y tabl isod:

**Tabl 5: Sgoriau Holiadur Cryfderau ac Anawsterau ar gyfer plant oed 5-15 a gwyriadau safonedig fesul math o raddfa ar gyfer y plant yn yr arolwg o'i gymharu â normau Prydain**

| Graddfa SDQ 4-17 | Arolwg Mabwysiadu Cymru ar gyfer plant oed 5-15 (n=134) | Sgoriau cymedr Prydain (SD) ar gyfer plant oed 5-15 (Meltzer, 2000) (n=10,298) |
|---|---|---|
| | Cymedr (SD) | Cymedr (SD) |
| Problemau Emosiynol (5 eitem) | 4.2 (2.9)*** | 1.9 (2.0) |
| Problemau Ymddygiad (5 eitem) | 4.3 (2.5)*** | 1.6 (1.7) |
| Gorfywiogrwydd (5 i eitem) | 6.8 (2.7)** | 3.5 (2.6) |
| Problemau Cymheiriaid (5 eitem) | 3.5 (2.7)*** | 1.5 (1.7) |
| Rhag-gymdeithasol (5 eitem) | 6.8 (2.3)*** | 8.6 (1.6) |
| **Cyfanswm yr Anawsterau (5 eitem)[1]** | **18.6 (8.6)*** ** | **8.4 (5.8)** |
| Sgoriau effaith[2] | 3.7 (3.2)*** | 0.4 (1.1) |

[1]Cynhyrchir hyn drwy gyfansymio sgoriau yr holl raddfeydd ac eithrio'r raddfa rhag-gymdeithasol. Mae'r sgoriau canlyniadol yn amrywio o 0 i 40, ac yn cael eu hystyried yn rhai nad oes gwybodaeth amdanyn nhw os bydd un o'r 4 sgôr ar goll.
[2]Gellir cyfansymio'r eitemau ar bryder cyffredinol a nam i gynhyrchu sgôr Effaith sy'n amrywio o 0 i 10 ar gyfer adroddiad rhieni. Dydy ymatebion i gwestiynau ar barhad a baich i eraill ddim yn cael eu cynnwys yn y sgôr effaith
** p<.01
*** p<.001

Ar ben hynny, mae sgôr cymedr plant oed 5-15 yn uwch na rhai mewn sampl diweddar o blant sy'n derbyn gofal (yn Lloegr: n. 41,140 lle roedd y sgôr cymedr yn 14.2) (DfE, 2019). Wrth gwrs, does gan bob plentyn mabwysiedig ddim anawsterau sylweddol. Ymhlith y teuluoedd hynny a gymerodd ran mewn cyfweliad manwl ar gyfer y gwerthusiad hwn (n=21), disgrifiwyd rhai plant fel rhai heb ddim neu nemor ddim anghenion ychwanegol. Roedd y rhain bob amser yn blant iau, yn blant cyn oed ysgol yn bennaf. Disgrifiodd rhieni neu blant a gyfwelwyd sut roedd anghenion ychwanegol yn aml yn dod i'r amlwg ar gyfnodau pontio allweddol, er enghraifft cychwyn yn yr ysgol neu ar drothwy glaslencyndod. Roedd yr anghenion ychwanegol hyn yn amlygu eu hunain mewn gwahanol ffyrdd, o setlo yn yr ysgol, cwsg, neu bryder, i anawsterau synhwyraidd a/neu reoli emosiynau mwy eithafol neu ymatebion i bethau sy'n digwydd yn yr ysgol, weithiau gartref.

> *"Roeddwn i ym mlwyddyn naw, yn 14 oed pan aeth fy ymddygiad o ddrwg i waeth. Gwaethygodd yn sylweddol pan oeddwn i'n 16 oed, yn ymgodymu â hunan-niweidio, iselder a dicter ac ymosod ar ffrindiau... fy ymddygiad gartre, sut*

> *roeddwn i'n trin fy rhieni, sut roeddwn i mewn addysg. Roeddwn i fel person hollol wahanol"* (Plentyn Mabwysiedig )
> *"Roedd yn ymdopi'n dda iawn yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU) cynradd a gyflawnodd safonau rhagoriaeth ym mhopeth yn arolwg diwethaf Estyn ac roedd yn cyflawni'n dda yn academaidd yn ogystal ag yn gymdeithasol ac emosiynol. Fodd bynnag, ers cychwyn ei leoliad newydd ym Mlwyddyn 7, mae wedi ei wahardd nifer o weithiau a phrin mae'n ymddangos ei fod yn cwblhau llawer o waith er i fod yn abl yn academaidd"* (Rhiant Mabwysiadol)

Roedd y rhieni hyn a gyfwelwyd yn wybodus ac roedden nhw'n gallu disgrifio sut roedd anghenion ychwanegol eu plentyn wedi cael eu hachosi gan naill ai eu profiadau yn ystod eu plentyndod cynnar, yn enwedig profi trawma neu broblemau ymglymu neu gan ffactorau mwy organig. Soniodd rhai am ba mor anodd fuodd hi (ac yn dal i fod) i ddatrys rhai o achosion allweddol cryfderau neu anawsterau eu plentyn.

> *"Ac mae ein plant yn wir gymhleth. Ac ie, gallen nhw fod yn awtistig neu ag ADHA ond mewn gwirionedd mae pob math o bethau eraill mwy na thebyg y mae rhaid eu dadansoddi ... gyda haenau lluosog"* (Rhiant Mabwysiadol)

### 3.1.2 Diagnosau a chyflyrau plentyn i

Mae plant mabwysiedig o'r system gofal yn debygol o gario risgiau i ddatblygiad normal yn deillio o nid yn unig brofiadau andwyol bywyd cynnar ond hefyd o brofiadau cyn-enedigaeth a gwendidau genetig (Selwyn, 2017). Mae astudiaethau cynharach wedi awgrymu cyfraddau uwch o 'gyflyrau y gellir eu diagnosio' o fewn poblogaethau o blant mabwysiedig (Selwyn et al, 2015; Selwyn, 2017; Green, 2016; Burch et al, 2021 ar fin ymddangos), yn arbennig y canlynol:

- Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD);
- Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD); ac
- Anhwylder ar y Sbectrwm Alcohol Ffetws (FASD).

Mae astudiaethau cynharach hefyd yn awgrymu bod rhieni mabwysiadol yn aml yn teimlo bod Anhwylder ar y Sbectrwm Alcohol Ffetws (FASD) yn cael ei ddiystyru a /neu'n cael ei ddiagnosio yn anghywir (Adoption UK 2018; BMA 2017; Brown et al., 2018; King et al., 2017).Yng Nghymru, ail-daniwyd diddordeb i nodi datrysiadau i'r broblem hon yn ystod 2020-21, i ystyried gwell llwybrau i asesiad / diagnosis niwro-ddatblygiadol a darpariaeth gwasanaeth cymorth. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ni wyddys a ydy'r ymdrechion hyn wedi dwyn ffrwyth.

Gofynnodd yr arolwg ar-lein i rieni ddatgan a oedd gan eu plentyn ddiagnosis cadarn o gyflyrau penodol. Dim ond cyfran gymharol fechan o rieni a ystyriai bod gan eu hunig blentyn neu eu plentyn hŷn ddiagnosis fel hyn.

Fodd bynnag, roedd cyfran fwy o rieni gyda phlentyn 11 oed neu drosodd yn ystyried bod gan eu plentyn ddiagnosis o Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) neu Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD).

Doedd hyn ddim yn wir yn achos Anhwylder ar y Sbectrwm Alcohol Ffetws (FASD) lle roedd y cyfrannau yn llawer is mewn perthynas â'r sampl gyfan a'r sampl gyda phlant 11 oed a hŷn. Yn y tabl isod, gwelir canrannau'r ymatebwyr sy'n sôn am wahanol ddiagnosau ar gyfer eu plant:

**Tabl 6: Rhieni'r adroddiad a riportiodd ddiagnosis ar gyfer (unig blentyn neu blentyn hynaf) plant o bob oed a phlant 11+ oed**

| Cyflwr | % o'r holl blant gyda diagnosis | % o blant oed 11+ gyda diagnosis |
|---|---|---|
| Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) | 5.8% | 14.8% |
| Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD) | 6.1% | 11.4% |
| Anhwylder ar y Sbectrwm Alcohol Ffetws (FASD) | 1.3% | 1.1% |

Sylwer: Ymatebodd 312 o rieni naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol i gwestiwn am y diagnosau hyn

Mae'r cyfraddau hyn yn uwch nag ym mhoblogaeth gyffredinol plant ag ASD ac ADHD. Er enghraifft, mae Canllawiau cyfredol NICE yn awgrymu mai mynychder cyfraddau ADHD ydy 1-2% ac Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig ar 'o leiaf 1%' o fewn poblogaethau plentyndod (Canllawiau NICE, 2018 a ddiweddarwyd yn 2019 a Chanllawiau NICE, 2011 a ddiweddarwyd yn 2017). Ni chyhoeddwyd Safon Ansawdd NICE ar FASD hyd yn hyn. Fodd bynnag, cafodd astudiaeth ddiweddar uchel ei graddfa o blant (McQuire et al, 2018) fod o leiaf 6% wedi'u sgrinio'n bositif ar gyfer FAS(D)[20] a hynny'n awgrymu bod y raddfa ar gyfer plant mabwysiedig yn yr astudiaeth hon yn isel.

Yn yr astudiaeth hon, roedd un o bob wyth rhiant ychwanegol (13.1%) yn ansicr a oedd gan eu plentyn un o'r cyflyrau a/neu'n gweithredu i archwilio diagnosis.

Dewisodd llawer o rieni a gymerodd ran yn yr arolwg ddweud rhagor am ddiagnosau eraill ar gyfer eu plentyn a/neu ddiagnosau nad oedd wedi'u gwneud yn ffurfiol ar y pryd ond yn ddiagnosau a amheuwyd neu'n cael eu harchwilio'n weithredol. Y diagnosau ffurfiol 'eraill' a nodwyd gan rieni oedd anhwylderau ymglymu i neu anhwylderau prosesu synhwyraidd / clywedol. Soniodd rhai hefyd am anhwylder herio gwrthryfelgar, oedi mewn datblygiad byd-eang, anhwylderau niwro-ddatblygiadol eraill neu anableddau dysgu, dyslecsia neu gyflyrau iechyd corfforol.

Roedd gan rai o'r rheini hynny oedd yn amau neu'n ceisio yn weithredol i gael diagnosis farn gadarnach am yr hyn allai fod, yn bennaf y rhai oedd yn archwilio diagnosis FASD. Roedd nifer o'r rhieni hyn yn meddwl bod eu plentyn wedi cael ei g/chyfeirio am ddiagnosis ond yn aros i glywed amdano. Roedd eraill yn nes ymlaen ar y llwybr diagnosis, eraill yn sôn am fod ar gam 'profi genetig'. Disgrifiodd un rhiant sut roedd eu plentyn wedi gwrthod profion o'r fath ac felly, doedd hi ddim yn bosibl i barhau â'r diagnosis. Roedd rhieni eraill yn credu bod cyfeiriadau ar gyfer cyflyrau ADHD, ASD neu FASD wedi cael eu gohirio yn ystod pandemig Covid-19.

[20] Er bod yr ymchwilwyr yn yr astudiaeth hon yn pwysleisio nad ydy sgrinio ar gyfer mynychder gyfwerth â diagnosis ffurfiol.

Mynegodd nifer o rieni eraill oedd yn credu eu bod ar y llwybr cyfeirio (er enghraifft o dîm CAMHS i dîm niwro-ddatblygiadol) fod ganddyn nhw feddwl agored am achosion ymddygiad ac anghenion eu plentyn a allai gynnwys ystod o ffactorau:

> *"Yn cael ei asesu. O bosibl FASD, ASD, PDA, SPD."* (Rhiant Mabwysiadol)

Roedd rhai o'r rhieni naill ai'n pwyso i gael y cyfryw gyfeirio neu'n teimlo bod llwybrau cyfeirio fel hyn ar gau iddyn nhw:

> *"Wedi bod yn gwthio am dros 3 blynedd am un."* (Rhiant Mabwysiadol)

> *"Mae pob asesiad yn cael ei wrthod oherwydd bod gweithwyr proffesiynol yn datgan bod ganddo anhwylder ymlyniad ac felly ni fydd yn cael ei asesu. Mae angen asesiad arno."* (Rhiant Mabwysiadol)

> *"Yn arddangos holl nodweddion anhwylder ymlyniad ac oedi datblygiadol ond dim diagnosis ffurfiol sy'n broblem wrth geisio cael y cymorth priodol."* (Rhiant Mabwysiadol)

> *"O ran FAS, pob lwc i gael hwnnw wedi'i ddiagnosio."* (Rhiant Mabwysiadol)

Disgrifiodd rhieni eraill broblemau iechyd meddwl sylweddol a/neu broblemau rheoli emosiynau eu plentyn, weithiau'n gysylltiedig â thrawma cyn-geni a phrofiadau andwyol plentyndod. Roedd y rhain yn dueddol o fod yn rhieni plant hŷn a phobl ifanc.

> *"Pryder mawr, iselder (ar feddyginiaeth), wedi hunan-niweidio yn y gorffennol."* (Rhiant Mabwysiadol

> *"Mae'n gweld drychiolaethau yn gyson, gweld pobl yn ymweld ac yn dweud wrthi am hunan-niweidio, i ddifa'i hun ac ymosod ar y teulu. Heb ei diagnosio eto gan fod CAMHS yn meddwl ei bod yn rhy gynnar eto." (*Rhiant Mabwysiadol)

> *"Pryder a gor-wyliadwrus oherwydd trawma."* (Rhiant Mabwysiadol)

> *"Rhai problemau emosiynol. Ceisio help seicolegydd addysg ysgol. Yn gwylltio'n gyflym iawn."* (Rhiant Mabwysiadol)

Yn gysylltiedig â'r adran ar 'gryfderau ac anawsterau' (uchod), pwysleisiodd rhai o'r rhieni pa mor anodd oedd hi, yn ymarferol i blant mabwysiedig yn ogystal â phlant eraill sydd wedi derbyn gofal gael y diagnosis 'priodol' neu i nodi ffactorau sy'n achosi eu hanawsterau oherwydd natur gymhleth eu profiadau yn ogystal â ffactorau biolegol:

> *"Does gan blant mabwysiedig ddim anhwylderau neis, taclus y gellir eu nodi yn hawdd. Mae'n amhosibl i sicrhau unrhyw gymorth go wir. Mae pawb sy'n gweithio gyda nhw yn gweld y problemau ond ni all neb fodloni'r holl feini prawf, felly maen nhw'n cael eu gadael ar ôl."* (Rhiant Mabwysiadol)

### 3.1.3 Anghenion dysgu ychwanegol plant (ADY)

Mae ymchwil sydd eisoes yn bodoli yn awgrymu bod plant mabwysiedig ar risg uwch (yn bennaf, plant a fu'n derbyn gofal yn y gorffennol) o gael anabledd neu anhawster dysgu yn ogystal ag anghenion emosiynol neu ymddygiadol sy'n effeithio ar eu haddysg. Er enghraifft, gallai profiadau trawma yn eu bywyd cynnar ei gwneud hi'n anodd a llawn straen i ffitio i mewn i amgylchedd dysgu ffurfiol a hynny'n peri ymateb nodweddiadol sef 'ymladd neu ffoi' yn yr ysgol. Mae rhieni mabwysiadol a phlant mabwysiedig yn aml yn disgrifio mai eu '*pryder sengl mwyaf*' ydy profiadau yn yr ysgol.

(Adoption UK; heb ddyddiad cyhoeddi[21]; Llywodraeth Cymru 2016; Burch et al (2021 – ar fin digwydd).

Dywedodd bron i draean (29%) o rieni fod eu plentyn wedi cael ei nodi gan yr ysgol o fod ag anghenion addysgol arbennig neu ychwanegol. Roedd 5% o rieni yn ansicr am hyn. O'r plant ag anghenion ychwanegol dynodedig disgrifiwyd bod gan y mwyafrif (74%) gynllun datblygu ond doedd gan un plentyn o bob pump (19%) ddim cynllun fel hyn eto[22]. Roedd gan y rhan fwyaf o'r rhai â chynllun Gynllun Datblygu Unigol (CDU/IDP) neu Ddatganiad o Anghenion Addysgu Arbennig (69%) a'r gweddill (31%) yn credu mai math arall o gynllun ysgol oedd hwn.

Hefyd, gwahoddwyd rhieni i ddweud rhagor am anghenion addysgu eu plentyn. Disgrifiodd llawer o'r rhai a wnaeth hynny, amrediad o anghenion cymdeithasol neu emosiynol yn bennaf, yn hytrach nag anghenion a /neu ofynion dysgu yn unig, o 'ELSA' neu 'grwpiau meithrin a ffynnu' i reolaeth fwy arbenigol o ymddygiad a chymorth.

> *"Plentyn disglair ond yn cael trafferth i ffocysu. Angen cymorth 1:1 gyda chyfeillgarwch."* (Rhiant Mabwysiadol
>
> *"Yn cael trafferth i reoli ei hunan ac angen help i wneud hyn."* (Rhiant Mabwysiadol)
>
> *"Mae… yn blentyn deallus ond mae'n cael trafferth i ffocysu…ac oherwydd ei bod hi'n casáu methiant, byddai'n well ganddi beidio â thrio y rhan fwyaf o'r amser na thrio a methu. Mae'n ymdrech drwy'r amser i'w hannog i wneud ei gwaith cartref a byr iawn ydy cyfnod ei ffocysu. Ac eto, mae pawb sy'n dod i gysylltiad â hi yn dweud pa mor graff a miniog ei meddwl ydy hi, felly mae gagendor mawr rhwng ei deallusrwydd amlwg a'i llwyddiant academaidd."* (Rhiant Mabwysiadol)

Disgrifiodd rhai yn fwy manwl sut roedd eu plentyn yn derbyn cymorth un i un yn yr ysgol gan gynorthwyydd addysgu) neu'n mynychu canolfan neu ysgol arbenigol i gynorthwyo eu hanghenion emosiynol neu ymddygiadol, er enghraifft, Uned Gyfeirio Plant neu Ysgol Arbennig.

[21] Ibid
[22] Doedd eraill ddim yn siŵr nac yn meddwl bod cynllun ar y gweill

> *"Angen cymorth llawn amser 1 i 1 mewn addysg a gofal. Prif anableddau o gwmpas ymddygiad cymdeithasol ac emosiynol a'r anghenion cymhleth iawn eu natur cysylltiedig â FASD."* (Rhiant Mabwysiadol)

Disgrifiodd eraill rhagweld cymorth cynlluniedig o'r fath.

> *"O ran cyflawniad academaidd ac ymddygiad, mae'n iawn yn yr ysgol, felly does dim cynllun ffurfiol eto, er bod llawer o weithwyr proffesiynol yn argymell un."* (Rhiant Mabwysiadol)

Fodd bynnag, disgrifiodd llawer o rieni eraill eu teimlad nad oedd eu plentyn yn derbyn neu wedi derbyn y cymorth roedd ei angen yn yr ysgol. Mewn rhai achosion, disgrifiodd rhieni y teimlad o orfod 'brwydro' am y cyfryw help, yn arbennig ond heb fod yn gyfyngedig i gyd-destun (pontio i) i addysg uwchradd:

> *"..yn meddu ar Gynllun Addysg Unigol (CAU) pan oedd yn yr ysgol gynradd ond cychwynnodd yn yr ysgol uwchradd ym mis Medi a does dim cynllun yn bodoli eto hyd y gwn i ….nododd yr ysgol y byddai nifer o bethau yn cael eu sefydlu... ond does dim byd wedi digwydd eto."* (Rhiant Mabwysiadol)

> *"Roedd yr ysol yn ymwybodol o'i chyflwr ond yn teimlo nad oes angen cymorth ychwanegol. Dw i wedi gwneud ymholiadau am hyn gan mod i'n pryderu amdani'n mynd i'r Ysgol Gyfun ym mis Medi 2021 ond dwi heb gael trafodaeth ar hyn eto."* (Rhiant Mabwysiadol)

> *"Mae 'da ni broblemau mawr i sicrhau cymorth seicolegol oherwydd diffyg gwasanaethau a'r ffaith nad yw'n 'broblem' yn yr ysgol oherwydd ei bod fel arfer yn dawel ac yn ei chragen."* (Rhiant Mabwysiadol)

> *"Mae'n eitha anodd i wynebu arbenigwyr addysgol sydd ddim yn gwybod dim am fabwysiadu sy'n credu bod angen i bob plentyn gychwyn gyda' 'llechen lân' a chael eu trin yn debyg."* (Rhiant Mabwysiadol )

> *"Roedd yn gwneud yn dda iawn yn yr ysgol tan ddiwedd blwyddyn 2. Y stori arferol, aeth i mewn i flwyddyn tri. Ac aeth popeth yn ffradach. Roedd e ar ei orau gartref ac yn gwneud yn wirioneddol dda yn yr ysgol ac yn cael ei feithrin yno. Roedd e wir yn cyflawni ac yna aeth i mewn i flwyddyn tri lle nad oedd Cynorthwyydd Cymorth Dysgu (CCD), mae un athro, does gan yr athro ddim syniad am fabwysiadu. Fe gymerodd fisoedd i ni sylweddoli yr hyn oedd yn digwydd yn y dosbarth. Y diwedd oedd iddo gael ei wahardd."* (Rhiant Mabwysiadu)

> *"Mae e ym mlwyddyn 2 ac yn cael trafferth. Mae o leiaf 12 mis tu ôl yn ei ddysgu. Dw i wedi bod yn trio, yn ofer, i gael help iddo fe ers 2 flynedd ond heb lwyddo hyd yn hyn."* (Rhiant Mabwysiadu)

Mewn achosion eraill, disgrifiodd rhieni oedd wedi gwneud penderfyniad neu benderfyniadau i ddod o hyd i help ychwanegol neu'r hyn yr ystyriwyd i fod yn well amgylchedd ar gyfer eu plentyn mewn ffyrdd eraill, yn cynnwys newid ysgol, addysgu gartref, talu am ysgol annibynnol neu dalu am gymorth annibynnol eu hunain.

> *"CDU (Cynllun Datblygu Unigol) yn flaenorol ond nawr mewn ysgol annibynnol felly mae ganddo gymorth ond nid fel CDU."* (Rhiant Mabwysiadol)

> *"Yn meddu ar Gynllun Datblygu Unigol a dw i wedi talu am diwtora llesiant / tiwtora Elsa."* (Rhiant Mabwysiadol)

> *"Dydy fy mab ddim wedi bod yn yr ysgol am y 2 flynedd ddiwethaf oherwydd pryder cymdeithasol eithafol. Mae'n derbyn ychydig o diwtora gan y gwasanaeth tiwtora gartref a'r hyn y gallwn ei wneud i'w addysgu gartref."* (Rhiant Mabwysiadol)

> *"Bu rhaid i ni newid ysgol ac mae'r ysgol newydd yn seiliedig ar feithrin, dw i wedi siarad am y problemau sydd gan fy merch ac maen nhw'n darparu sesiynau ychwanegol i'w helpu i ymdopi gyda phroblemau emosiynau a phryder."* (Rhiant Mabwysiadol)

Mae sylwadau'r 'blwch testun' gan rieni plant hŷn a phobl ifanc yn awgrymu bod rhieni, er gwaethaf y sialensiau a'r anawsterau, yn parhau yn gefnogol ac uchelgeisiol, yn cynnwys cael eu plant i fynd i goleg a phrifysgol.

> *"..nawr yn y brifysgol. Mae ganddo gynllun dysgu a sgiliau a chynnig o gymorth ychwanegol ... mentora wythnosol."* (Rhiant Mabwysiadol)

### 3.1.4 I ba raddau mae plant yn ffynnu (yn yr ysgol, gartref)

Ystyriai cyfran uchel (85%) o rieni a gwblhaodd yr arolwg ar-lein fod eu plentyn yn ffynnu yn eitha da gartref. Mae hyn yn cymharu gyda chyfran lawer is (69%) o rieni oedd yn ystyried bod eu plentyn yn ffynnu'n dda iawn yn yr ysgol. Roedd 12% o rieni yn ystyried nad oedd eu plentyn yn ffynnu 'o gwbl' yn yr ysgol.

Ymhlith y ffactorau a ystyriwyd gan rieni a gwblhaodd yr arolwg ar-lein, i fod yn bwysig wrth helpu eu plentyn i ffynnu gartref roedd y canlynol:

- Cyfathrebu da rhwng holl aelodau'r teulu (yn cynnwys rhwng rhieni), gwrando ar y plentyn.
- Treulio amser gyda'i gilydd fel teulu, cael hwyl a weithiau rhoi sylw 1:1 i bob plentyn.
- Cysondeb mewn arferion
- Defnyddio 'PACE' a strategaethau eraill ar gyfer magu plant
- Mynediad i ddeunyddiau hyfforddi am fabwysiadu a dealltwriaeth dda o anghenion (tebygol) plentyn.
- Bod yno, cysondeb a sefydlogrwydd ar gyfer y plentyn, eu helpu i deimlo'n ddiogel.
- Y plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei garu a'i dderbyn.
- Y defnydd o dechnegau hunan-reoli (ar gyfer y plentyn a'r oedolyn!)
- Dyfalbarhad rhieni (hyd yn oed yn wyneb gwrthwynebiad neu ddeuoliaeth plentyn).
- Aelodau'r teulu â rhwydweithiau cymorth allanol.
- Cymorth wedi'i deilwra gan sefydliadau ac unigolion

Ymhlith y ffactorau a ystyriwyd gan rieni i fod yn bwysig wrth helpu eu plentyn i ffynnu yn yr ysgol roedd:

- Argaeledd cymorth bugeiliol / llesiant da
- Y plentyn yn gallu chwarae a rhyngweithio gyda chymheiriaid.
- Pennaeth a staff cefnogol yn cynnwys ymwybyddiaeth gref o 'bethau a allai 'sbarduno' plentyn a datblygu amgylchedd meithringar.
- Cymorth un-i-un pan fo angen.
- Meddu ar gynllun addysg.
- Rhieni cefnogol a chyfathrebu da rhwng yr ysgol a'r cartref
- Dosbarthiadau llai, gwell cymhareb staff-plentyn
- (I rai) bod mewn amgylchedd / ysgol arbennig

### 3.1.5 Llesiant a hunan-effeithlonrwydd (magu plant) rhieni mabwysiadol

Mae ymchwil sydd eisoes yn bodoli yn awgrymu y gallai rhieni mabwysiadol gael eu rolau newydd yn anodd (McKay et al. 2010). Gallai hyn fod ar ben y ffaith eu bod, o bosibl, yn delio ag anffrwythlondeb, marwolaeth eu plentyn biolegol a magu plentyn gydag anawsterau emosiynol a/neu ymddygiadol (Selwyn, 2017). I rai rieni mabwysiadol, gallai hyn arwain at iselder ôl-mabwysiadu a all ddigwydd yn ystod cyfnod cynnar lleoliad neu ar adegau arwyddocaol yn nes ymlaen (Adoption UK, 2013).

Mesurwyd iechyd emosiynol a llesiant rhieni yn yr arolwg drwy ddefnyddio Graddfa Llesiant Meddwl Short Warwick Caeredin (SWEMWBS) (Collins et al, 2012).

Mae SWEMWBS yn cynnwys 7 eitem i'w graddio ar raddfa 5 pwynt Likert. Mae sgorio yn cynnwys cyfansymio sgoriau pob eitem i sgôr swm sy'n amrywio o 7 i 35, ac yna trawsnewid y sgôr grai i sgôr fetrig. Dim ond ar gyfer achosion heb unrhyw werthoedd ar goll y bydd sgoriau swm yn cael eu cyfrifiannu. Yn gyffredinol, mae sgoriau is yn cynrychioli llesiant meddwl is eu lefel. O'i gyferbynnu â'r WEMWBS llawn, mae'r raddfa fyrrach yn cyfeirio at weithredu yn hytrach nag at deimlad.

Cymharwyd sgoriau o sampl y gwerthusiad ASF hwn o 278 o rieni mabwysiadol a gwblhaodd yr elfen hon o'r arolwg â normau Prydain sydd eisoes yn bodoli a riportiwyd mewn astudiaeth yn Lloegr (2011) o sampl cynrychioliadol o dros 7,000 o oedolion (SWEMWBS, 2011).

Cyfanswm sgôr cymedr (cyfartaledd) SWEMWBS ar gyfer rhieni a gofalwyr oedd yn cymryd rhan yn yr arolwg gwaelodlin hwn oedd 22.80 (gyda gwyriad safonedig (SD) o 3.99). Mae hyn yn sylweddol is na normau Prydain sydd eisoes yn bodoli, a hynny'n awgrymu o'u cymharu, lefelau cymharol isel o iechyd emosiynol a llesiant.

**Tabl 7: Sgoriau SWEMWBS rhiant/gofalwr fesul arolwg gwaelodlin ASF cyfredol o'i gymharu â normau poblogaeth ar gyfer Lloegr**

| Grŵp Cymhariaeth | Nifer yn y sampl | Cymedr (cyfartaledd) | Gwyriad Safonedig (SD) |
|---|---|---|---|
| SWEMWBS Normau Poblogaeth mewn Arolwg Iechyd ar gyfer data Lloegr 2011 | 7196 | **23.61** | 3.90 |
| Arolwg Mabwysiadu Cymru | 278 | **22.80** | 3.99 |

Sylwer: Ymatebodd cyfanswm o 278 o rieni i gwestiynau SWEMWBS. Pan wnaethon nhw ymateb, cwblhawyd holiadur SWEMWBS yn llawn.

Mesurwyd hunan-effeithlonrwydd rhieni yn yr arolwg hwn gan ddefnyddio graddfa adroddiad rhieni o'r enw 'Graddfa Byr Hunan-Effeithlonrwydd Rhieniol' (BPSES). Mesur graddfa pum pwynt ydy'r BPSES o hyder rhieni yn eu gallu i fagu eu plentyn (Woolgar et al, 2013). Y lleiafswm sgôr ydy 5 a'r uchafswm ydy 25. O'r 288 o rieni mabwysiadol a gwblhaodd yr arolwg hwn:

- Cytunodd 93% neu gytuno'n gryf eu bod yn gallu gwneud gwahaniaeth pwysig i'w plentyn
- Cytunodd 87% neu gytuno'n gryf eu bod yn gwybod beth i'w wneud gyda'u plentyn.
- Cytunodd 85% neu gytuno'n gryf fod y pethau mae'n nhw'n ei wneud yn gwneud gwahaniaeth i ymddygiad eu plentyn.
- Cytunodd 76% neu gytuno'n gryf eu bod yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud i sicrhau bod eu plentyn yn ymddwyn yn dda.
- Cytunodd 65% neu gytuno'n gryf eu bod yn gallu gwella ymddygiad eu plentyn.

Sgôr cymedr cyfanswm anawsterau BPES oedd 21.00 (SIQR=1.5) ac mae'n awgrymu bod gan y rhieni, ar gyfartaledd hyder cymharol uchel yn eu gallu i fagu eu plentyn eu plentyn (lle mae'r lleiafswm cyfanswm y sgôr ydy 5 a'r uchafswm ydy 25). Dydy normau Prydain na'r DU ddim ar gael eto er mwyn eu cymharu.

### 3.1.6 Barn rhieni am fabwysiadu yn gyffredinol – sut maen nhw'n ymdopi?

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn ystyried eu bod yn ymdopi'n gymharol dda fel teulu, gyda thros dri chwarter (78%) yn dyfarnu o 7 allan o 10. Fodd bynnag, teimlai10% eu bod yn ymdopi'n gymharol wael fel teulu yn dyfarnu 0-4 allan o 10.

Roedd hyn yn amrywio'n sylweddol o ran oed y plentyn dan sylw, gyda theuluoedd o blant mabwysiedig hŷn yn ymddangos eu bod yn ymdopi'n waeth ar gyfartaledd na rhai plant iau. Er enghraifft, dim ond 67% o rieni plentyn 11+oed roddodd sgôr o 7 allan o 10 o'i gymharu â 82% o'r rhai gyda phlentyn iau.

Yn yr un modd, roedd dros dair gwaith cymaint o ymatebwyr gyda phlentyn hŷn yn dweud eu bod yn ymdopi'n gymharol wael fel teulu ( 20% yn rhoi 0-4 allan o 10) o'u cymharu â'r rhai oedd â phlentyn iau (6% yn rhoi 0-4 allan o 10).

Dewisodd llawer o rieni a gwblhaodd yr arolwg i ymhelaethu ar sut roedden nhw'n ymdopi (fel rhiant unigol, fel pâr neu fel teulu). Isod, ceir themâu allweddol o ddadansoddiad o ymatebion eu 'testun rhydd:

- **Roedd rhieni plant mabwysiedig iau o ran oed neu blant wedi'u mabwysiadu yn ddiweddar yn fwy tebygol o ddisgrifio bod 'pethau'n mynd yn dda'** neu deimlo'n optimistig am bethau o'i gymharu â rhieni (rhai) plant hŷn a phobl ifanc. Yn yr un modd, nifer o rieni mabwysiadol oedd wedi mabwysiadu o faethu yn disgrifio sefyllfa deuluol gymharol dda.

  *"Hyd yn hyn, dydyn ni ddim wedi dod ar draws unrhyw broblem heblaw am ymddygiad arferol plentyn bach. Amser a ddengys."* (Rhiant Mabwysiadol

  *"Dw i'n caru fy machgen bach yn fawr iawn. A dwi'n meddwl ei fod yn teimlo'n ddiogel a hapus gyda fi. Mae'n datblygu'n fendigedig. Mae'r sylw byr mae'n ei rhoi i dasgau bach ac anawsterau rhannu yn nodweddiadol o ymddygiad plant bach ei oed. Cawson ni ychydig o broblemau gyda chwsg. Ond mae o dan reolaeth nawr."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Mae ymlyniad wedi datblygu'n hyfryd. Rydyn ni wedi llwyddo i gadw yr un 'routine' â'i gofalwyr. Mae ein merch yn hapus a bob wythnos mae'n datblygu mwy o ymlyniad tuag aton ni."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Rhieni yn gorfod neu yn dymuno gwneud newidiadau neu addasiadau** i fywyd oedolyn neu i'w bywyd teuluol i 'wneud iddo weithio' er enghraifft rhoi gorau i'ch gwaith neu lai o gysylltiad gydag aelodau'r teulu estynedig neu gylchoedd ffrindiau yn ystod cyfnodau cynnar mabwysiadu.

  *"Rydyn ni wedi gwneud newidiadau sylweddol i'n bywyd teuluol i'w wneud yn hydrin. Megis addysgu gartref a phrin byth yn mynd allan gyda'n gilydd ar gyfer gweithgareddau teuluol. Mae hyn wedi'n gwneud yn deulu hapusach ond doedd y pontio ddim yn hawdd."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Mae bywyd o ddydd i ddydd yn anodd iawn. Dw i wedi gorfod rhoi gorau i fy swydd i fod gartref fel mod i'n gallu mynd ag e i'r ysgol a mynd i'w nôl pan fydd yn cael trafferth. Roedd ei amserlen ysgol wedi ei chwtogi ers 3 blynedd. Mae gen i lawer o gyfarfodydd."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Dewison ni ein patrwm byw ar sail anghenion posibl y plentyn cyn ni gael ein paru, megis torri ein costau fel y gallai un ohonon ni roi gorau i'n swydd a bod yn rhiant llawn amser gartref."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Rhieni yn adnabod patrymau ymddygiad neu anawsterau eu plant** yn cynnwys ar adegau pontio pan darfir ar drefn arferol neu ar adegau o ansicrwydd / pan fyddan nhw'n teimlo'n anniogel.

  *"Rydyn ni'n cael amser anodd wrth ddelio gyda'i dicter, mae pethau fel Covid yn digwydd, llawdriniaethau sy'n ei gwneud yn ofnus, felly mae ei hymddygiad yn newid. Yna rydyn ni'n cael hanner tymor gyda'n gilydd ac mae'n teimlo'n ddiogel unwaith eto, ac felly mae'r dicter yn cilio... dyna'r patrwm."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Rhieni yn disgrifio sut mae patrymau yn emosiynau ac ymddygiad eu plentyn yn cysylltu'n agos â sut mae pethau'n mynd yn yr ysgol**.

  *"Pan fydd yn gwneud yn dda yn yr ysgol, rydyn ni'n gallu ei reoli dda iawn gartref ac mae'r holl bethau positif o'r ysgol yn lledu ac yn gorlifo i'r cartref a gwneud pethau'n haws i ni wneud ein rhan yn dda. Yna, rydyn ni'n gweld plentyn gwahanol sy'n dawel, sydd wedi ymlacio, sy'n ofalgar, yn ddoniol ac yn mwynhau bywyd. Pan na fydd ysgol yn mynd yn dda, bydd y pethau negyddol yn lledu i'r cartref ac mae'n mynd yn anoddach i ni wneud ein gwaith wrth iddo fe fynd yn fwy heriol, mwy gwrthwynebus, mwy llywodraethol, llai tawel, mwy anwadal."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Straen anghyfartal ar wahanol riant ar wahanol adegau.**

  *"Mae fy mhartner yn cael trafferth i ymdopi gyda'r ymddygiad a hynny'n rhoi cymaint o straen ar ein perthynas â'r ymddygiad ei hun."* (Rhiant Mabwysiadol

  *"Dw i'n teimlo mod i'n cael fy nefnyddio a chael fy meio gan fy merch am ei hymddygiad gwael. Mae'n ymateb yn well i fy ngwraig ond gall fod yn dal i fod yn ddifrïol."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Pryder neu ofn am y dyfodol, hyd yn oed os ydy pethau'n iawn nawr**

  *"Rydyn ni'n gwneud yn iawn, ond rydyn ni'n bryderus am y dyfodol."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Ar drothwy bod yn oedolyn.. Dyma 'r hyn sy'n fy mhoeni nawr oherwydd dyma'r adeg pan ddylai fynd i mewn i ryw fath o brentisiaeth neu … mae angen iddi gychwyn caffael sgiliau bywyd."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Rhai rhieni yn disgrifio'n fwy manwl sut maen nhw'n ymdopi gydag ymddygiadau eithafol iawn neu drafferthion, rhai heb fod i gyd yn gysylltiedig â phlentyn, yng nghyd-destun cymorth a dim cymorth.**

  *"Rydyn ni'n hesb a lluddedig yn emosiynol oherwydd dirywiad yn ei iechyd meddwl o, mae e'n dewis peidio â gwrando ar yr hyn fyddai'n ei helpu ac wedi mynd yn ystyfnig, yn ymosodol iawn a threisgar. Rydyn ni'n chwilio am help."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Rydyn ni'n teimlo bod rhaid i ni droedio'n ofalus a byth yn gwybod beth fydd yn sbarduno llid ein mab. Mae'n ein bwlio yn aml ac mae hynny'n torri ein calonnau, ond rydyn ni'n ei garu yn fawr iawn ac yn gwneud ein gorau glas i roi'r cychwyn gorau mewn bywyd iddo - h.y. cyrsiau NVR (Ymwrthedd Ddi-drais), chwilio am gymorth, sicrhau ei fod yn dal ati gyda'i chwaraeon y mae'n eu caru ond mae Covid wedi gwneud hyn yn anodd iawn."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Mae ein plentyn hŷn yn cam-drin y tri ohonon ni yn yr un tŷ yn llafar ac yn gorfforol. Mae'n dinistrio'r adeilad a phopeth ynddo. Rydyn ni wedi'n hyfforddi yn NVR, cyflymder ac wedi mynychu cyfarfodydd seicoleg ond mae bywyd yn heriol iawn iddo. Rydw i wedi rhoi'r gorau i'm gwaith oherwydd strés a phryder ac rydyn pryderu am lesiant iechyd meddwl a llesiant corfforol ein mab iau."* (Rhiant Mabwysiadol)

### 3.1.7 Effaith Pandemig Covid-19 ar anghenion y plentyn a'r teulu

Gofynnwyd yn benodol i rieni a gwblhaodd yr arolwg ar-lein yn ogystal â'r rhai a gymerodd ran mewn cyfweliadau mwy manwl am effaith cyfnod Covid-19 ar anghenion eu plentyn a'r teulu.

Nododd bron hanner (47%) y rhieni a gwblhaodd yr arolwg fod anghenion eu teulu neu eu plentyn wedi cynyddu yn ystod cyfnod COVID a dim ond 1 person o bob 7 (16%) oedd yn ystyried bod eu hanghenion yn ystod y cyfnod hwn wedi lleihau. Roedd ychydig yn fwy o rieni plant dros 11 oed (52%) o'r farn bod eu hanghenion wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn, fel y gwelir yn y tabl isod:

**Tabl 8: Cyfran o rieni a ymatebodd yn yr arolwg fesul y graddau y mae anghenion eu plant neu anghenion teuluol wedi cynyddu neu ostwng yn ystod cyfnod Pandemig Covid-19**

| Ymatebion | % o'r holl ymatebwyr | % o ymatebwyr gyda phlant oed 11+ |
|---|---|---|
| Wedi cynyddu'n sylweddol | 18% | 25% |
| Wedi cynyddu ychydig | 29% | 27% |
| Heb gynyddu na gostwng | 34% | 37% |
| Wedi gostwng ychydig | 10% | 7% |
| Wedi gostwng yn sylweddol | 6% | 0% |
| Wedi cynyddu ac yna wedi gostwng | 2% | 0% |
| Wedi gostwng ac wedi cynyddu | 2% | 3% |

Sylwer: Ymatebodd cyfanswm o 272 rieni i'r cwestiwn hwn

Sylwodd gweithwyr proffesiynol mabwysiadu a gwblhaodd yr arolwg ar fwy o alw am gymorth wedi'i dargedu at lefel yr angen o'i gymharu â lefelau cyffredinol neu arbenigol yn ystod cyfnod y pandemig. Roedd y mwyafrif o'r gweithwyr proffesiynol hyn wedi sylwi ar ddeuoliaeth o ran profiadau'r teulu yn ystod y cyfnod hwn, yn cynnwys y rhai y roedd hyn wedi cynnig 'rhyddhad' neu set o gyfleoedd iddyn nhw neu'r rhai yr oedd hyn wedi dwysáu sialensiau neu anawsterau sydd eisoes yn bodoli, neu gynhyrchu rhai newydd:

> *"I rai teuluoedd, mae Covid wedi cynnig y cyfle i greu perthynas gryfach gyda'u plentyn heb bwysau ysgol a rhwydweithiau eraill tu allan i'r teulu. I deuluoedd eraill, yn enwedig mabwysiadwyr sengl neu weithwyr allweddol, bu hyn yn amser anodd, llawn strés."* (Rhiant Mabwysiadol)
>
> *"Roedd rhai plant sy'n cael anawsterau yn yr ysgol yn ymdopi'n well gartref yn ystod y cyfnod clo."* (Rhiant Mabwysiadol)
>
> *"Mae COVID wedi golygu bod y pwysau sydd eisoes yn bodoli ar deuluoedd wedi cynyddu oherwydd yr ynysu a diffyg 'routine'."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

Roedd disgrifiadau rhieni a ymatebodd i'r arolwg ac yn cymryd rhan mewn cyfweliad ar gyfer y gwerthusiad o'r cyfnod hwn yn gwahaniaethu. Roedd rhai yn disgrifio profiad

cymharol bositif yn enwedig yn ystod cyfnod cynnar y pandemig. Roedd sylwadau y rhai â phlant oed ysgol gynradd yn bositif, yn aml yn dweud bod y profiad positif hwn yn gysylltiedig â naill ai symud pwysau ysgol neu i gynorthwyo gwell ‘cwlwm’ teuluol.

> *“Fel teulu, roedd rhaid i ni drefnu bod gyda'n gilydd 24/7 heb ffactorau eraill yn ymyrryd, ffactorau fel ysgol, ymrwymiadau eraill, teulu a ffrindiau. Roedd hyn yn symud y pwysau oddi arnon ni fel teulu mewn nifer o ffyrdd.”* (Rhiant Mabwysiadol)

> *“Dw i’n credu bod fy merch yn teimlo’n fwy diogel yn gwybod ein bod ni i gyd gyda’n gilydd a ddim yn mynd i unlle. Mewn llawer o ffyrdd mae ei phryder wedi lleihau ac mae wedi ymdopi gyda phopeth lawer yn well.”* (Rhiant Mabwysiadol)

> *“Roedd llawer o broblemau fy merch yn deillio o’r ysgol, felly, yn ystod y cyfnod clo, roedd hi, mewn gwirionedd, yn teimlo’n fwy ymlaciol a dan lai o bwysau oherwydd doedd dim ysgol i’w mynychu.” (*Rhiant Mabwysiadol)

> *“Roedd cyfnod COVID yn dda ar gyfer ein plentyn, rhoddodd gyfle iddi hi dyfu ac aeddfedu. Mae’n cael bod gyda phobl eraill, yn enwedig plant o’r un oed â hi yn llethol, felly ni effeithiodd y cyfnod clo arni yn ddrwg o gwbl.”* (Rhiant Mabwysiadol)

> *“Rydyn ni wir wedi elwa o fod yn gallu treulio mwy o amser gyda’n gilydd fel uned deuluol, yn benodol, y cwlwm gyda fy ngŵr a fy mhlentyn sydd wedi gwella oherwydd llai o ofynion ar ein hamser.”* (Rhiant Mabwysiadol)

Ar y llaw arall, disgrifiodd rhieni eraill sut roedd pethau yn fwy anodd iddyn nhw yn ystod cyfnod y pandemig, yn enwedig:

- Rhieni plant cyn oed ysgol sydd angen ‘jyglo’ gweithio gartref a magu plant llawn amser (heb feithrinfa)

  *“Roedd gofal plant yn broblem fawr gan fod rhaid i mi weithio o gartref ... felly mae ceisio gweithio gyda phlentyn 3 oed bywiog gartref yn llawn strés.”* (Rhiant Mabwysiadol)

  *“Mae’r ynysu yr ydych yn ei brofi fel rhiant newydd yn cael ei ddwysáu. Straen ychwanegol dw i’n meddwl.”* (Rhiant Mabwysiadol)

- Rhieni gyda phobl iau yn eu harddegau, yn enwedig y rhai gyda phroblemau ymddygiad neu broblemau iechyd meddwl sydd eisoes yn bodoli.
  *“Gwaethygodd pryder ein mab i lefel wenwynig yn ystod y cyfnod clo cyntaf a bu angen cymorth tu allan i oriau un noson.”* (Rhiant Mabwysiadol)

  *“Dw i'n tynnu gwallt fy mhen. Doedd hi ddim yn mynd i gysgu tan 2, 3 o’r gloch y bore. O fis Mawrth tan fis Medi, doedd dim byd ganddi. Dim rheswm dros godi, methu â mynd allan gyda ffrindiau, dim ysgol i’w mynychu, dim rhyngweithio cymdeithasol."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Penodau o ymddygiad treisgar, sgrechian parhaus yn cynyddu. Ynghyd ag ymlyniad eithafol, cysgu’n wael ayb.”* (Rhiant Mabwysiadol)

*“Plentyn mabwysiedig wedi olrhain a chysylltu â’r rhieni biolegol. Analluі i ddilyn rheolau'r cyfnod clo. Ddim yn gwneud gwaith ysgol.”* (Rhiant Mabwysiadol)

*“Mae cyfyngu ar ei gysylltiad gyda ffrindiau a theulu arall wedi achosi strés mawr iddo, llawr o ddadlau ac mae cyflwr ei iechyd meddwl yn wael”* (Rhiant Mabwysiadol)

*“Gyda gweithio o gartref a’r plant gartref a llai o weithgareddau ar gael, rydyn ni ar ben ein gilydd… rydyn ni’n gorfod delio ag ymddygiad gynyddol heriol ein mab wrth i’r ysgol fynd o’i le.”* (Rhiant Mabwysiadol)

*“Mae’r ddau blentyn wedi mynd yn fwy dig, mwy rhwystredig a dinistriol rhwng Mai a Medi. Dydy fy mhlentyn hŷn ddim wedi gwella’n feddyliol ers hynny.”* (Rhiant Mabwysiadol)

Roedd rhai gweithwyr proffesiynol a gwblhaodd yr arolwg wedi sylwi ar gynnydd yn y galw am ffurfiau arbennig o gymorth a dargedir neu gymorth arbenigol yn gysylltiedig â phryder cynyddol am drais plentyn i riant neu reolaeth o blant hŷn gyda rheolau’r cyfnod clo.

*“Rydw i wedi gweld cynnydd sylweddol yn yr angen am hyfforddiant o bob math ar-lein ond yn enwedig "Ymddygiad Heriol" ac "Ymwrthedd Di-Drais"* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

Soniodd rhieni eraill fwy am **brofiad cymysg neu ddatblygiadol drwy gyfnod y pandemig:**

*“Mae bod gartref wedi rhoi synnwyr dyfnach o ddiogelwch i’n mab. Fodd bynnag, mae wedi colli’r rhyngweithio gyda phlant eraill.”* (Rhiant Mabwysiadol)

*“Roedd fy merch dan lai o straen oherwydd nad oedd yr ysgol ar agor, ond roeddwn i dan fwy o bwysau yn ystod y cyfnod oherwydd mod i’n gweithio mwy o oriau yn y cartref yn ogystal â chyfrifoldeb addysgu gartref.”* (Rhiant Mabwysiadol)

*“Roedd cyfnod cychwynnol y clo yn iawn oherwydd ei fod yn teimlo’n fwy diogel gan ei fod gyd ni gartref yn gyson. Ond newidiodd hyn wrth i‘r cyfnod clo fynd yn ei flaen a lefel ei bryder yn codi wrth iddo bryderu mwy amdano ef a ninnau’n marw o’r firws. Yna, roedd yn pryderu am ddychwelyd i’r ysgol ac amdanon ninnau’n dychwelyd i’r gwaith”* (Rhiant Mabwysiadol)

*“Pan nad oeddwn i'n gweithio, roedd pethau’n wych ond ar ôl dychwelyd i'r gwaith bu’n anodd ceisio cydbwyso popeth heb y cymorth teuluol arferol.”* (Rhiant Mabwysiadol)

Ymhlith y pethau a ddisgrifiwyd yn cynyddu’r pwysau ar deuluoedd ( a allai amrywio yn ystod cyfnod y pandemig) roedd:

- Ynysu, yn enwedig ar gyfer rhieni sengl.
- Plant yn methu chwarae neu’n rhyngweithio gyda phlant eraill.

- Peidio â chael mynediad i wasanaethau cyffredinol, megis cymorth ymwelwyr iechyd neu gymorth a dargedir, megis seicoleg addysgol.
- Addysgu gartref.
- Gostyngiad yn yr incwm teuluol.
- Plant yn methu mynd i weld eu teulu estynedig yn cynnwys aelodau eu teulu biolegol.
- Profedigaethau teuluol neu salwch sylweddol.
- Methu â chael mynediad i chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol a drefnir ar gyfer eu plentyn (plant).

*“Dim chwaraeon, cynnydd yn y pryder, diffyg pryder, addysgu gartref yn methu a hyn i gyd wedi ychwanegu mwy o bwysau a dicter. Mae methu â gweld ffrindiau a theulu wedi gwneud i ni deimlo ei fod yn ymbellhau mwy. Bu Covid yn wir drychinebus ac yntau’n colli blwyddyn 7 i gyd wedi bod yn ofnadwy.”* (Rhiant Mabwysiadol)

*“Mae addysgu gartref wedi bod yn anodd ar adegau a dw i’n credu bod y ffaith bod X wedi colli cysylltiad corfforol â’i ffrindiau wedi effeithio arno. Bu’n fwy anodd i blant nag efallai mae oedolion yn sylweddoli, yn enwedig colli achlysuron fel dathliadau penblwydd/ partïon plant, Calan gaeaf, noson Guto Ffowc ac yn y blaen. Mae eu ‘routine’ yn amlwg wedi cael ei effeithio a bu X ar brydiau yn pryderu am ddiogelwch aelodau eraill o’r teulu hyn ystod pandemig Covid."* (Rhiant Mabwysiadol)

Fodd bynnag, roedd cyfran is o rieni a gwblhaodd yr arolwg yn credu iddyn nhw fod angen cymorth yn ystod Pandemig Covid-19 o’i gymharu â’r cymorth cyffredinol yn ystod y 12 mis diwethaf (i Hydref / Tachwedd 2020), yn enwedig o ran ffurfiau cyffredinol o gymorth. Roedd y gostyngiad yn llai o ran cymorth a dargedir a chymorth arbenigol fel y gwelir yn y tabl isod:

**Tabl 9: Cyfran o rieni yn disgrifio iddyn nhw fod angen cymorth cyffredinol, cymorth wedi’i dargedu neu gymorth arbenigol yn ystod y 12 mis diwethaf ac yn ystod cyfnod Pandemig Covid-19 yn benodol**

| Math o gymorth a ddisgrifiodd rhieni fod angen arnyn nhw yn ystod y 12 mis diwethaf | % oedd angen y math hwn o gymorth yn gyffredinol yn ystod y cyfnod hwnnw | % oedd angen y math hwn o gymorth yn ystod Covid |
|---|---|---|
| Cymorth cyffredinol | 39% | 28% |
| Cymorth a dargedir | 40% | 34% |
| Cymorth arbenigol | 25% | 22% |

Sylwer: Ymatebodd cyfanswm o 272 o rieni i’r cwestiynau hyn

Mae rhai o arweinwyr sector a gweithwyr proffesiynol mabwysiadu sy’n ymwneud â’r gwerthusiad wedi sylwi, wrth i gyfnod Covid-19 fynd yn ei blaen, bod mwy o rieni a theuluoedd wedi ‘blino’ ar y trefniadau ac angen rhagor o gymorth. Ar nodyn mwy positif, maen nhw hefyd wedi sylwi ar gynnydd yn y ceisiadau gan ddarpar fabwysiadwyr wrth i’r Pandemig fynd rhagddo.

### 3.2 I ba raddau mae teuluoedd sy'n mabwysiadu yn teimlo ei bod yn IAWN i ofyn am help?

Mae ymchwil sydd eisoes yn bodoli yn awgrymu bod y ffactorau allweddol sy'n gysylltiedig ag ymglymiad mwy effeithiol teuluoedd mabwysiadol a'u plant mabwysiedig gydag ystod o gymorth yn cynnwys y canlynol:

- Ymatebion amserol gwasanaethau i gyfnodau cynnar ôl-mabwysiadu (adeg pan fydd mabwysiadu yn fwy tebygol o fethu) ac ar hyd cylch bywyd y teulu, yn enwedig ar gyfnodau pontio allweddol
- Ymglymiad gweithredol a 'normaleiddio' cymorth yn cynnwys gwneud i rieni a theuluoedd mabwysiedig deimlo ei fod yn 'IAWN i ofyn am help' pan fyddan nhw ei angen.
- Cymorth yn seiliedig ar berthynas, cymorth trugarog a chymorth arbenigwyr medrus .
- Yr holl wasanaethau y mae plant a theuluoedd yn debygol o'u cyrchu (er enghraifft ysgolion a gwasanaethau iechyd sylfaenol) i fod yn 'ymwybodol o fabwysiadu'.

Atkinson a Gonet, 2007; Gibbs et al. 2002; Selwyn et al. 2015 & 2017, Meakings et al, 2018; McKay & Ross, 2011; Livingstone-Smith, 2010; King et al, 2017).

O ran yr astudiaeth hon, roedd mwyafrif helaeth (84%) o rieni mabwysiadol a gwblhaodd yr arolwg ar-lein yn ystyried ei bod yn IAWN neu'n gwbl IAWN i ofyn am help. Cyfran fechan yn unig (4%) a nododd nad oedd yn IAWN neu ddim yn gwbl IAWN i wneud hynny.

**Tabl 10: Ymatebion i arolwg rhieni fesul y graddau y teimlir ar hyn bryd ei fod yn iawn i ofyn am help**

| Ymateb | Cyfran o rieni yn ymateb yn bositif i'r gosodiad hwn |
|---|---|
| Mae'n gwbl IAWN i ofyn am help | 60% |
| Mae'n IAWN i ofyn | 24% |
| Dydw i ddim yn siŵr a ydy hi'n IAWN i ofyn | 12% |
| Dydw i ddim wir yn meddwl ei bod y IAWN i ofyn | 2% |
| Yn bendant dydwi ddim yn credu bod hi'n IAWN i ofyn | 2% |

Sylwer: Teimlai cyfanswm o 262 o rieni bod ganddyn nhw farn am y cwestiwn hwn ac ymateb iddo

Roedd gweithwyr proffesiynol mabwysiadu a gwblhaodd arolwg ar gyfer y gwerthusiad hwn yn llai optimistaidd am rieni a theuluoedd a deimlai ei bod yn IAWN nawr i ofyn am help. Cyfran lai (69%) oedd yn barnu bod rhieni yn teimlo ei bod yn IAWN neu'n gwbl IAWN i ofyn am help. Dim ond 16% oedd yn credu bod rhieni yn teimlo ei bod yn gwbl IAWN i ofyn am help. Fodd bynnag, roedd cyfran helaeth iawn (85% o gyfanswm o 262 o rieni oedd â barn) yn ystyried bod mwy o rieni mabwysiedig yn gallu gofyn am help nawr o'i gymharu â 3 blynedd yn ôl, a hyn yn awgrymu darlun mwy cadarnhaol, darlun hefyd a goleddir gan arweinwyr sector sy'n cymryd rhan mewn cyfweliad ar gyfer y

gwerthusiad hwn, arweinwyr a ystyriai bod hyn yn un o 'brif ddatblygiadau' ym maes mabwysiadu yn ystod y blynyddoedd diweddar, gyda rhai yn nodi bod polisi 'drws agored' ar waith ers nifer o flynyddoedd yn y sector gwirfoddol.

> *"Mae hyn wedi newid yn sylweddol dros yr amser hwnnw (ers i Fframwaith Cymorth Mabwysiadu gael ei gyflwyno)…mae wedi newid yn ddramatig."* (Arweinydd Sector)

> *"Bu rhaid i ni wneud llawer iawn o waith i newid hinsawdd gwasanaethau, i atal y brif farn fod popeth wedi'i gwblhau ar ôl i Orchymyn Mabwysiadau gael ei wneud."* (Arweinydd Sector)

> *"Rydw i wedi gweithio yn y maes hwn er peth amser ac mae'r gwahaniaeth wedi ychwanegu at ein dealltwriaeth. Mae wedi symud ymlaen. Yn y gorffennol roedd teuluoedd mabwysiedig yn gyndyn a phetrusgar i ddod nôl – ai bai nhw ydy e? Roedd cywilydd arnyn nhw ac roedden nhw'n teimlo'n chwithig – er y dylen nhw fynd ati ac gwneud yn iawn. Y rheswm dros hyn oedd oherwydd yr ystyrir bod mabwysiadu yn ei hanfod yn 'ddiweddglo hapus'."* (Arweinydd Sector)

> *"Rydyn ni wedi bod yn ceisio cyfleu'r neges bod derbyn cymorth mabwysiadu yn rhywbeth normal … bod ystod o gymorth ar gael a bydd angen cymorth ar y rhan fwyaf o deuluoedd ar ryw adeg. Rydyn ni am gyrraedd pobl cyn ei bod yn argyfwng arnyn nhw." (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)*

Nododd gweithwyr proffesiynol ac arweinwyr sector y pethau canlynol drwy ddweud yn eu tystiolaeth (am welliannau yn y maes hwn):

- Rhagor o rieni / teuluoedd mabwysiedig yn gyffredinol yn gofyn am gymorth.
- Rhagor o rieni mabwysiedig yn gofyn am gymorth ar gyfnod cynharach.
- Rhagor o ymholiadau am fabwysiadu lle mae darpar fabwysiadwyr yn holi am gymorth (yn fwy ymwybodol o'i argaeledd cyn-mabwysiadu)

> *"Mae gan fabwysiadwyr a gymeradwywyd yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf fwy o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael ac maen nhw'n cael eu hannog i geisio cael cymorth."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu l)

> *"...Mae mwy o deuluoedd yn dod ymlaen i ofyn am help yn ystod dyddiau cynnar anawsterau, pan fyddai, yn y gorffennol, fwy o deuluoedd mewn argyfwng yn gofyn am help*." (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

### 3.2.1 Galluogwyr allweddol

Riportiodd gweithwyr proffesiynol ac arweinwyr sector bod galluogwyr allweddol teuluoedd yn teimlo ei bod iawn i ofyn am help yn cynnwys y canlynol:

- **Cydnabyddiaeth well o'r angen am gymorth mabwysiadu a mwy o empathi sefydliadau gyda mabwysiadwyr, yn cynnwys mannau cychwyn croesawus**.

  *"Dw i'n meddwl bod asiantaethau yn cydnabod yn well na ellir disgwyl i rieni ymdopi ar eu pen eu hunain os bydd gan eu plentyn hanes o drawma cymhleth sy'n gofyn*

*am gymorth arbenigol parhaus. Felly, mae ymateb asiantaethau mabwysiadu i deuluoedd yn fwy empathetig nawr."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

- Yn gysylltiedig â'r uchod, **mabwysiadwyr, yn fwy diweddar, yn derbyn sicrwydd cynnar a negeseuon glir ei bod yn iawn i ofyn am help**, y dylid ei ddisgwyl mewn nifer o achosion.

  *"Yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf gwelwyd teuluoedd sy'n mabwysiadu yn cael eu hannog i ofyn am help a hyn yn arwydd o gryfder yn hytrach na gwendid. Maen nhw'n cael eu hannog o'r diwrnod cyntaf hyfforddiant paratoi i ystyried y gwasanaeth yn gymorth drwy eu taith mabwysiadu."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

  *"Mae rhieni yn dal i obeithio y bydd yn iawn iddyn nhw ond ei bod yn fwy realistig nag oedden nhw y byddai angen cymorth arnyn nhw. Mae negeseuon yn dechrau cyrraedd pobl, er ei bod yn gynhenid anodd i ofyn, i ddweud 'Dydw i ddim yn ymdopi' gan ein bod hefyd yn rhoi'r neges i rieni mabwysiadol y 'byddwch chi'n rhieni da'."* (Arweinydd Sector)

- **Wedi sefydlu drws ffrynt arbenigol mwy amlwg (ac wedi'i hysbysebu) /** man cychwyn yn y rhan fwyaf o'r rhanbarthau – pobl yn gwybod lle i fynd am help yn y lle cyntaf.

  *"Dw i'n credu gyda thîm newydd PAS, bydd pethau'n gwella'n arw, o'r man cyswllt cyntaf, gallwn ddweud wrth deuluoedd y byddwn yno drwy gydol eu taith nid yn unig tan gwneud y gorchymyn mabwysiadu."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

  *"Fe wnaeth e ddileu'r stigma i rieni – peidio â gorfod dychwelyd at y gwasanaethau cymdeithasol. Roedden nhw'n meddwl mai methiant ar eu rhan oedd gofyn am help."* (Arweinydd Sector )

- **Cael cymorth go wir i gynnig i deuluoedd, er enghraifft cymorth hyfforddiant a chymorth seicoleg.**

  *"Yn y gorffennol, doedd gynnon ni ddim llawer i'w gynnig, ond nawr ceir ystod o bobl a therapyddion."* (Arweinydd Sector)

- **Cynigion o help cynnar sydd newydd eu datblygu, megis TESSA neu Mabwysiadu Gyda'n Gilydd.**

  *"Mae 'na fwy o gydnabyddiaeth bod cymorth mabwysiadu yn rhywbeth normal a does dim rhaid i deuluoedd fod mewn argyfwng cyn gofyn am help, er bod hynny yn aml ar yr adeg y maen nhw'n cysylltu â ni. Mae prosiect TESSA wedi'n helpu i amlygu'r angen am ymyriad cynnar."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

- **Negeseuon rhanbarthol a chenedlaethol mwy positif a rhagweithiol** am y darpar angen am gymorth (er enghraifft, drwy'r podlediadau* sydd newydd eu cyhoeddi) a hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael a chael ffurfiau cymorth mwy ataliol sydd wedi'u diffinio'n gliriach.

  *"Erbyn hyn, ystyrir bod cymorth mabwysiadu yn hawl. Mae NAS wedi dod â'r mater hwn i'r amlwg ac thynnu sylw ato.*" (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

  *"Targedwyd ymgyrchoedd cenedlaethol ar fabwysiadu yn fwy penodol at yr angen am gymorth mabwysiadu, felly dwi'n teimlo bod mabwysiadwyr hyd yn oed ar y cam o wneud ymholiadau yn cael gwybod am yr angen am gymorth mabwysiadu a sut i'w gyrchu."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

- **Y cyfryngau cymdeithasol ac argymhellion gan fabwysiadwyr**–ystyrir bod pobl sydd wedi cael profiad positif yn annog eraill i chwilio am help.

*"Dros y blynyddoedd diweddar, mae mwy o gyfryngau cymdeithasol, mwy o gyhoeddusrwydd ar gyfer cefnogi rhieni mabwysiadol. Mae grwpiau cymorth gweithredol ar-lein ar gael i rieni."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

Soniodd rhai rhieni a gymerodd ran mewn cyfweliad manwl hefyd sut y gall **asiantaethau mabwysiadu yn aros mewn cysylltiad a rhagweithio i gynnig cymorth** yn cynnwys drwy gylchlythyrau neu'r cyfryngau cymdeithasol, fod o gymorth (i alluogi rhieni deimlo ei bod hi'n iawn i ofyn am help), hefyd yn gysylltiedig â ryw fath o gymorth cymheiriaid.

*"Mae sefydlu'r cysylltiad hwnnw gyda rhieni o'r cychwyn cyntaf yn wirioneddol bwysig. Dw i'n meddwl y byddai cael cymorth cymheiriaid gan fabwysiadwyr eraill o'r cychwyn wneud gwahaniaeth. Mor bwysig i ymglymu pobl."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Dylid clustnodi rhywun ar eich cyfer... a dylen nhw aros gyda chi fel eu bod yn gwybod eich hanes. Gallech eu ffonio a dweud. Un pwynt cyswllt."* (Rhiant Mabwysiadol

Nodwyd gan rieni, gweithwyr proffesiynol mabwysiadu ac arweinwyr sector y rhwystrau rhag i rieni a theuluoedd deimlo ei bod yn iawn i ofyn am help a'r rhwystrau hynny yn cynnwys:

- **Synnwyr o stigma neu gywilydd neu fethiant** – nodwyd bod hyn yn dal yn llesteirio rhai mabwysiadwyr i ddod i ofyn am help.

  *"Roeddwn i'n pryderu am gyfaddef fy mod yn methu. Roeddwn yn teimlo wrth ofyn am help mod i'n methu magu'r plentyn. Gwirion, o edrych yn ôl ond ron i'n gyndyn i ofyn am help."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Fy marn i ydy bod llawer o fabwysiadwyr ar y cychwyn yn trio ymdopi ac wrth i'r amser fynd yn ei flaen, mae'n mynd yn fwy anodd iddyn nhw chwilio am gymorth oherwydd annifyrrwch, cywilydd, neu nad ydyn nhw am fethu, nes i'r sefyllfa waethygu a'i bod yn rhy hwyr a'r ymyriadau sydd eu hangen yn rhai uchel."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)
- **Pryderon** (weithiau'n seiliedig ar ymdrechion blaenorol i gael help, ymdrechion na wrandawyd arnyn nhw yn ddigonol) y bernir nad ydy mabwysiadwyr yn gallu ymdopi / pryderon am ddyfarniadau negyddol yn fwy cyffredinol.

  *"Mae wedi bod gyda ni am 10 mlynedd, ond roedden ni'n meddwl y bydden nhw'n credu ein bod yn rhieni gwael ac efallai mynd â hi oddi arnon ni. Roedd yn dal yn wirioneddol frawychus i godi'r ffôn."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Weithiau mae'n fwy anodd pan fyddwch yn teimlo nad oedd neb yn gwrando arnoch chi. Mae 'na adegau pan rydych yn teimlo does neb yn gwrando arna i.*" (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Ydyn nhw'n mynd i feddwl nad ydw i'n fam dda oherwydd mod i'n cael trafferth a phopeth?"* (Rhiant Mabwysiadol)
- **Rhieni yn awyddus i 'blesio'r'** asiantaeth leoli.

  *"Yn fy mhrofiad i, mae rhieni mabwysiadol yn dymuno plesio'r asiantaeth leoli a dydyn nhw ddim yn dymuno tynnu sylw at bryderon rhag ofn y bernir eu bod yn fethiant. Dydy mabwysiadwyr ddim yn teimlo y gallan nhw ddweud, pan fydd problemau yn rhai difrifol, y byddai'n well ganddyn nhw petaen nhw heb fabwysiadu o gwbl. Mae cywilydd a thrallod yn gwanychu pobl."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

- **Teulu estynedig a ffrindiau yn cynnig negeseuon diwerth am fagu plant**.
  *"Bydd ffrindiau a theulu da eu bwriadau yn dweud "trïwch X " "gwnewch Y", ond dydy'r bobl hyn ddim yn deall trawma datblygiadol a'r modd y mae'r hyn sy'n gweithio i blant eraill yn gwneud pethau'n waeth i blentyn mabwysiedig."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)
- **Pobl di-brofiad yn delio ag ymholiadau cychwynnol yn y drws ffrynt.**
- **Rhwystrau rhag sicrhau cyllid** (gan awdurdodau lleol) am gymorth mwy arbenigol neu becynnau aml-asiantaethol le tybir bod eu hangen.
- **Rhieni mabwysiadol heb wybod bod cymorth ar gael** (yn enwedig rhieni plant mabwysiedig hŷn).
  "*Rydw i'n meddwl bod pethau'n newid yn eitha cyflym ond mae carfan sylweddol o rieni gyda phlant hŷn sydd ddim yn sylweddoli bod cymorth ar gael a ddim ar hyn o bryd yn gofyn am help neu ddim yn gwybod i bwy i ofyn am help."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)
  *"Mae'n dal yn anhygoel o anodd i rieni plant hŷn (12 - 25 oed a thu hwnt) i ofyn am gymorth er BOD yna gymorth ar gael drwy Adoption UK. Mae llawer yn haws i rieni plant iau oherwydd bod TESSA ar gael a'r rhaglen Mabwysiadu Gyda'n Gilydd."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu
- **Dydy'r potensial y gall fod angen am gymorth mabwysiadu yn y dyfodol ddim wedi'i nodi'n ddigonol mewn cynlluniau cymorth mabwysiadu.**
- **Diffyg eglurder am y 'llwybr' gorau i mewn i gymorth mabwysiadu**, sy'n golygu y bydd rhai rhieni yn defnyddio'r dull o fynd at ddrws ffrynt awdurdod lleol yn hytrach na mynd yn uniongyrchol at y gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol neu gael eich 'pasio rownd' o wasanaeth i wasanaeth, er enghraifft CAMHS, addysg a gofal cymdeithasol.
  *"Hoffwn i weld dull dim drws anghywir o fynd ati yn hytrach na phobl yn aros ac aros yn y ciw anghywir. Er enghraifft, bydd CAMHS yn aml yn dweud mai'r salwch meddwl anghywir ydy e a pheidio ag ymglymu."* (Arweinydd Sector)

Nododd rhieni, gweithwyr proffesiynol ac arweinwyr sector a gyfwelwyd y gallai'r anghysondeb rhwng anghenion neu ddisgwyliadau a'r hyn y gallai gwasanaethau ei gynnig fod mewn ffaith yn rhwystr posibl i rieni ddod ymlaen i ofyn am gymorth ond pwysleisiodd y rhieni hynny'n fwy pendant. Yn yr achosion hyn, yn aml iawn collwyd ymddiriedaeth neu ffydd yn gyffredinol yng gallu pob darparwr(wyr) i gynnig help.

*"Parhaodd ein hachos ar agor am y 12 mis safonol ar ôl y Gorchymyn Mabwysiadu, yna ei gau. Ar ôl hynny, nid oedd gennym bellach unrhyw fynediad i gymorth heblaw mynd yn ôl drwy sianelau arferol awdurdod lleol fel gydag unrhyw blentyn arall. Y syniad ydy, unwaith yr ydych wedi mabwysiadu, mae popeth yn mynd i fod yn berffaith."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Rydw i'n meddwl mod i'n gwybod ble i gael cymorth. Rydw i wedi dilyn y llwybrau cywir. Peth arall ydy a ydw i wedi ei gael yn iawn."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Roedden nhw'n hyfryd, yn wych. Y teimlad ein bod yn mynd i gael help. Ac yna, pethau'n mynd i'r gwellt ac yn yfflon oherwydd daethon nhw nôl aton ni a dweud 'does neb ar gael gynnon ni a dydy'ch plentyn chi ddim yn flaenoriaeth'. Yr hyn gawson ni gan bawb, roedd fel eich bod chi â phroblemau ond nid yn hunanladdol. Rydw i'n deall bod*

*rhaid blaenoriaethau adnoddau ond os na ddefnyddiwch chi adnoddau ar y lefel hon, cewch broblemau yn nes ymlaen."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Oherwydd, yn hanesyddol, mae wedi bod mor wael. Mae pobl ym digalonni. Ac os ewch i fforymau rhieni a phethau mae pawb yn ei wneud, fe glywch straeon erchyll. Dydy pobl ddim yn mynd i'r cyfryw fforymau i ddweud pa mor wych y bu pawb. Mae angen cyhoeddusrwydd i ddweud, ie rydyn ni'n gwybod nad ydyn ni'n berffaith ond rydyn ni yma a dyma'r pethau y gallwn ei wneud a'u cynorthwyo.*" (Rhiant Mabwysiadol)

*"Galla i fynd i CAMHS neu at y meddyg ond does dim cymorth penodol ar gyfer mabwysiadu. Rhaid i chi gysylltu â gwasanaethau cymdeithasol a gofyn iddyn nhw agor achos. Ond yn y pen draw does dim help. Dyna pam mae TESSA wedi bod mor bwysig mewn rhai ardaloedd (yng Nghymru). Maen nhw'n ei sefydlu yn ein hardal ni nawr."* (Rhiant Mabwysiadol)

### 3.3 I ba raddau mae rhieni a theuluoedd mabwysiadol yn gwybod i ble i droi am help?

Dywedodd y mwyafrif o rieni a gwblhaodd yr arolwg bod ganddyn nhw rhyw syniad o leiaf am ble i fynd am help gyda phobl lefel o angen o'r cyffredinol (81%), i help a dargedir (74%), i help arbenigol (79%)[23]. Mae'r canfyddiadau hyn yn triongli'n dda gydag astudiaeth ychydig yn gynharach (Adoption UK Barometer, 2020) a gafodd fod 71% o rieni mabwysiadol yn gwybod sut i gael help.

Roedd rhwng 41% a 46% yn yr arolwg yn fwy hyderus am wybod ble i fynd gan nodi 'Roedden yn gwybod ble i fynd' am gymorth ar bob lefel o angen a welir yn y tabl isod:

**Tabl 11: Cyfran o ymatebwyr arolwg rhieni yn gwybod ble i fynd fesul lefel yr angen**

| Ymateb | Lefel gyffredinol | Lefel a dargedir | Lefel arbenigol |
|---|---|---|---|
| Roeddwn yn gwybod ble i fynd * | 46% | 41% | 45% |
| Roedd gen i syniad ble i fynd** | 35% | 33% | 34% |
| Doedd gen i ddim syniad ble i fynd*** | 19% | 26% | 21% |

* Roedd cyfanswm o 264 rieni yn ystyried bod y cwestiwn hwn yn berthnasol iddyn nhw ac wedi ei ateb
** Roedd cyfanswm o 155 rieni yn ystyried bod y cwestiwn hwn yn berthnasol iddyn nhw ac wedi ei ateb
*** Roedd cyfanswm o 145 rieni yn ystyried bod y cwestiwn hwn yn berthnasol iddyn nhw ac wedi ei ateb

Mae'n ddiddorol cymharu'r canfyddiadau hyn â rhai arolwg gweithwyr proffesiynol o ran yn ddiddorol lle:

- Roedd cyfran debyg (71%) o ymatebwyr yn ystyried ei bod yn 'eitha' clir i glir 'iawn' lle gall rhieni fynd i gael help gydag anghenion cyffredinol eu teulu.
- Ond cyfrannau llai yn ystyried ei bod yn 'eitha' clir i glir 'iawn' lle gall rhieni fynd am help gydag anghenion a dargedir yn fwy (47%) neu anghenion arbenigol (21%).

[23] Rhoddwyd enghreifftiau yn yr arolwg hwn i helpu rhieni i fwrw amcan pa rai oedd yn gyffredinol, wedi'u targedu neu'n rhai arbenigol.

### 3.3.1 Gwybod ble i fynd am help gydag anghenion cyffredinol

Ar gyfer help gydag anghenion cyffredinol, dywedodd tua thraean o rieni a gwblhaodd yr arolwg eu bod wedi mynd at weithiwr cymorth ôl-mabwysiadu eu plentyn (31%), ac un o bob pump yn dweud eu bod wedi mynd at ysgol eu plentyn (21%). Roedd 16% wedi cyrchu gwasanaethau Adoption UK am help a nododd 9% eu bod wedi mynd at eu meddyg teulu. Roedd 8% wedi mynd ar y cychwyn at yr Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol oedd wedi trefnu'r mabwysiadu. Roedd 3% wedi cyrchu gwybodaeth o wefan cenedlaethol NAS.

Mewn cyferbyniad, roedd cyfran uwch o weithwyr proffesiynol a gwblhaodd yr arolwg yn ystyried bod teuluoedd yn mynd 'yn bennaf' at eu gweithiwr cymorth ôl-mabwysiadu am help gyda'u hanghenion cyffredinol (mynegodd 66% o ymatebwyr o'r farn yn yr achos hwn). Fodd bynnag, maen nhw hefyd yn cydnabod y modd y mae teuluoedd fel arfer yn troi at: ysgolion, meddygon teulu, Adoption UK, a gwefannau cenedlaethol, neu ranbarthol NAS am gymorth. Ymhlith mannau / ffynonellau eraill o gymorth y soniodd rhieni y bydden nhw'n troi atyn nhw am gymorth ar gyfer anghenion cyffredinol mae'r canlynol:

- Rhieni mabwysiadol eraill.
- Gwasanaethau cymdeithasol / yr awdurdod lleol (yn enwedig os nad oedd tîm cymorth ôl-mabwysiadu rhanbarthol ar gael).
- Fforymau magu plant ar Facebook (therapiwtig).
- Chwiliadau ar y Rhyngrwyd.
- Timau cymorth mewn ysgolion.
- Ymwelwyr Iechyd.
- Sefydliadau gwirfoddol.
- Darparwyr preifat o gymorth therapiwtig.
- Cyn-rieni maeth eu plentyn.
- Aelodau teuluol a ffrindiau (yn enwedig y rhai yn meddu ar gymwysterau proffesiynol).
- Rhaglenni hyfforddi ar-lein sy'n dod o ffynhonnell breifat.

Roedd rhieni a gymerodd ran mewn cyfweliad ac a oedd wedi mabwysiadu yn ddiweddar yn disgrifio bod yn fwy hyderus o ran gwybod ble i fynd am help, yn cynnwys gwasanaethau prif ffrwd (gwasanaethau cyffredinol) yn ogystal â gwasanaethau penodol i fabwysiadu.

*"Gwn fod help i'w gael allan fanna os bydda i byth ei angen."* (Rhiant Mabwysiadol)

*Rydw i'n deall bod help ar gael ar unrhyw adeg, ar gyfer fy holl deulu ar ôl mabwysiadu"* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Ni chewch eich barnu os byddwch yn gofyn am help. Weithiau dim ond angen sgwrs gyda rhywun sy'n deall yr hyn y mae eich teulu yn mynd drwyddo sydd ei angen."* (Rhiant Mabwysiadol)

Darparodd y rhieni hyn ragor o wybodaeth am yr hyn a fyddai o gymorth yn hyn o beth:

*"Dw i'n credu mai'r hyn sy'n ei gwneud yn haws ydy cael cysylltiad neu berthynas barhaus. Syniad o berthyn, bod yn rhan o gymuned. Mae'n bwysig eich bod yn teimlo'n rhan o rhywbeth fel y gallwch ymestyn allan pan fydd angen arnoch chi."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Rydw i'n meddwl bod cael perthynas agored gyda phobl o'r cychwyn – mae gweithwyr proffesiynol wedi dweud erioed na ddylech chi ofni codi'r ffôn os oes angen. Mae'n bwysig eu bod (nhw) yn deall y problemau y gall cefndir trawmatig achosi a pha anawsterau y gallech ddod ar eu traws."* (Rhiant Mabwysiadol)

Mae hyn yn cyferbynnu â'r hyn a ddywedir gan rieni eraill sy'n cymryd rhan mewn cyfweliad manwl ar gyfer y gwerthusiad hwn, ac a fabwysiadodd beth amser yn ôl ac a feddyliodd 'bryd hynny' nad oedd llawer o gymorth rhagweithiol yn cael ei gynnig ar ôl y broses fabwysiadu ffurfiol:

*"Unwaith bod y plant yn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol, camodd y gweithwyr cymdeithasol yn ôl. Roedden ni'n mynd o gwmpas heb wybod beth i'w wneud."* (Rhiant Mabwysiadol

*"Byddai wedi bod yn ddefnyddiol i siarad â rhywun am fabwysiadu … i gael cymuned o gymorth... rhywun i gysylltu â chi unwaith bob 6 mis dweder dim ond i ddweud 'Gwrandewch, yn aml mae pethau fel hyn … efallai eich bod yn cael trafferth gyda hyn a hyn'. Byddai'n ddefnyddiol iawn i gael cymorth parhaus heb fod yn ymwthgar. Dw i'n meddwl bod pethau lawer gwell erbyn hyn."* (Rhiant Mabwysiadol)

Roedd llawer o rieni oedd wedi mabwysiadau'n fwy diweddar yn ystyried bod rhywun wedi gweithredu i gysylltu â nhw ynglŷn ag argaeledd cymorth ôl-mabwysiadu (tu hwnt i'r flwyddyn gyntaf) er enghraifft y tîm cymorth ôl-mabwysiadu yn anfon e-bost neu gylchlythyr neu drwy glywed am y cymorth mewn trafodaethau (yn cynnwys ar-lein) gyda chymheiriaid a gweminarau neu weithdai. Roedd rhai hefyd wedi cael cynnig cymorth ychwanegol megis lwfans ariannol (i ddigolledu colli enillion yn ystod y blynyddoedd cyn oed ysgol), therapi lleferydd ac iaith, cymorth i sefydlu a chynnal cyswllt gyda'r teulu biolegol. Yn gyffredinol, roedd y rhieni hyn yn fwy hyderus eu bod yn gwybod ble i fynd am help a'u bod yn ymddiried yn y ffynhonnell gymorth:

*"Maen nhw wedi ymatal rhag barnu, dim ond yn awyddus i gynorthwyo… yn deall. Dw i'n meddwl y bydd hynny yn ei gwneud yn haws i ofyn am help. Maen nhw'n agored iawn, yn feidrol iawn. Mae'n hawdd siarad â nhw."* (Rhiant Mabwysiadol)

### 3.3.2 Gwybod ble i fynd am help gydag anghenion a dargedir

Dywedodd dros chwarter o rieni a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod, pan oedd angen cymorth wedi'i dargedu'n fwy penodol arnyn nhw, wedi mynd at weithiwr cymorth mabwysiadu (27%), a thuag un o bob pump wedi mynd at ysgol y plentyn (21%). Roedd 11% wedi mynd at eu meddyg teulu am gymorth, 8% wedi mynd at wasanaeth cymorth hysbys iddyn nhw a 6% wedi mynd o leiaf i ddechrau at yr Asiantaeth Mabwysiadau Gwirfoddol a drefnodd y mabwysiadu. Mewn cyferbyniad, roedd cyfran uwch (73%) o weithwyr proffesiynol a gymerodd ran yn yr arolwg yn ystyried bod teuluoedd mabwysiadol ar y cychwyn yn mynd yn bennaf at eu gweithiwr cymorth ôl-mabwysiadu am help gydag anghenion a dargedir (hefyd yn uniongyrchol at wasanaeth sydd eisoes yn hysbys iddyn nhw) ac, i raddau llai, at ysgolion neu feddyg teulu. Ymhlith ffynonellau

cymorth amgen eraill ar gyfer anghenion a dargedir y soniodd rhieni amdanyn nhw mae’r canlynol:

- Gweithwyr cymdeithasol plant a theuluoedd.
- Cymdeithas genedlaethol magu plant yn therapiwtig.
- Adoption UK.
- Darparwyr therapi.
- Sefydliadau gwirfoddol.
- Llinell gymorth ffôn magu plant.

Dywedodd rhai o’r rieni a gymerodd ran mewn cyfweliad ar gyfer y gwerthusiad hwn eu bod yn ymwybodol bod cyfleoedd newydd ar gyfer cymorth mabwysiadu wedi dod i’r amlwg yn ddiweddar:

*“Fy nealltwriaeth i oedd y bu’n anodd iawn i gael gafael ar gymorth mabwysiadu, rhestrau aros hir ac na fyddai’n werth gofyn. Felly, rydw i wedi ei ohirio ers dipyn o amser. Roeddwn i’n ymwybodol bod mwy o gyllid ar gael ac felly meddyliais beth am drio a gweld beth ddigwydd. Ac yna ces fy synnu o’r ochr orau gan yr ymateb a gawson ni (gan TESSA)".* (Rhiant Mabwysiadol)

Roedd gan rai o’r rhieni eraill a gyfwelwyd synnwyr gweddilliol nad oedd unrhyw wasanaethau wedi’u teilwra ar gael i gynorthwyo eu plentyn neu eu teulu (ar ôl chwilio a heb ddod o hyd i’r rhain yn y gorffennol) neu bod rhaid iddyn nhw ddal i ‘frwydro am wasanaethau’. Yn yr un modd, nododd rhai rhieni oedd yn cwblhau’r arolwg nad oedd yn ymddangos bod cymorth arbenigol wedi’i dargedu ar gael yn eu hardal leol.

*“Roedd y gweithiwr cymorth ôl mabwysiadu i ffwrdd ar ôl 6 mis. Mae mabwysiadu am oes. Does gan feddyg teulu mo’r amser na’r cymwysterau proffesiynol i asesu heb sôn am helpu. Dydy TESSA ddim hyd yn oed ar gael yma. Does dim gwasanaethau cymorth eraill yma heblaw eich bod yn agor achos gyda’r gwasanaethau cymdeithasol.”* (Rhiant Mabwysiadol)

### 3.3.3 Gwybod ble i fynd am help gyda chymorth arbenigol ar gyfer anghenion

O ran cymorth ar gyfer anghenion arbenigol, dywedodd 21% o’r rhieni oedd yn credu eu bod ei angen iddyn nhw fynd am help at eu gweithiwr cymorth ôl-mabwysiadu, roedd 17% wedi mynd at ysgol eu plentyn; roedd 11% wedi mynd at eu meddyg teulu, 8% wedi mynd at wasanaeth cymorth oedd eisoes yn hysbys iddyn nhw a 5% wedi mynd at yr Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol a drefnodd y mabwysiadu. Mae hyn eto yn cymharu â chyfran uwch o weithwyr proffesiynol (63%) a gwblhaodd yr arolwg oedd yn meddwl bod teuluoedd yn mynd yn y lle cyntaf am help gydag anghenion arbenigol at eu gweithiwr cymdeithasol ôl-mabwysiadu. Dywedodd gweithwyr proffesiynol a rhieni a ymatebodd i’r arolygon hefyd sut roedden nhw (rhieni) yn aml yn mynd yn uniongyrchol at wasanaethau (therapiwtig) oedd eisoes yn hysbys iddyn nhw, i CAMHS neu i ysgolion/meddygon teulu.

Cyfeirir at argaeledd gwasanaeth yn nes ymlaen yn y gwerthusiad hwn, ond mae’n werth sôn yma bod llawer o rieni mabwysiadol oedd â rhywbeth i’w dweud am wybod ble i fynd am help ar gyfer anghenion arbenigol, wedi sôn am ddiffyg ffydd yn ei argaeledd neu ddiffyg dealltwriaeth o 'warchodwyr y pyrth', yn enwedig CAMHS ond hefyd gwasanaethau mabwysiadu penodol awdurdod lleol / rhanbarthol. Sonion nhw

hefyd am gael profiad o fynd ‘rownd mewn cylchoedd’ o un asiantaeth i’r llall i ddod o hyd i help.

*“Felly, es i at y meddyg yn gyntaf (gan ddilyn cyngor yr ysgol) ac oddi yno cyfeiriwyd ni at CAMHS a ddywedodd nad oedd ein problemau yn ddigon difrifol, felly atgyfeiriwyd ni i dimau teuluol. Cysylltodd y timau ni â gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu lleol oedd y bryd hynny ar absenoldeb oherwydd strés. Yn y pen draw dywedwyd bod angen help arnon ni ond ei fod wedi’i ohirio tra bod trafodaeth ynglŷn â phwy ddylai ariannu’r help a gynigir gan awdurdod lleol neu’r asiantaeth mabwysiadu.”* (Rhiant Mabwysiadol)

*“..er gwybod yr hyn sydd angen i chi wybod, fodd bynnag, does dim budd i hyn os nad ydy’r gwasanaethau angenrheidiol naill ar gael neu ddim yn bodoli neu os ydy’r swyddogion diogelu ymchwil yn ddigon ymwybodol i allu cynorthwyo atgyfeiriadau.”* (Rhiant Mabwysiadol)

*“Nid bod dim syniad gyda ni ble i fynd. Dylech gynnwys yr opsiwn nad oes NUNLLE i fynd. Mae gan CAMHS restr aros o 9 mis am apwyntiad cyn-asesu ar gyfer ASD. A dydy hyn ddim hyd yn oed yn asesiad ar gyfer ASD.”* (Rhiant Mabwysiadol)

*“Rydyn ni wedi teimlo nad oes/oedd un o’r uchod ar gael.”* (Rhiant Mabwysiadol)

*“Mewn egwyddor, mae’n iawn gofyn am help ond mae chwilio am le i fynd a cheisio mynediad i wasanaethau yn hunllef … Mae mynediad i gymorth yn yr ysgol a chymorth arbenigol drwy CAMHS yn anodd iawn ac felly, rydych chi fel rhieni ar eich pen eich hunain a dydy fy mhlentyn ddim yn derbyn yr help sydd ei angen arni hi.”* (Rhiant Mabwysiadol)

Roedd y profiad o deimlo eich bod yn cael eich barnu neu deimlo cywilydd am ofyn am help yn y gorffennol neu nemor ddim help yn digwydd neu’r teimlad bod gwasanaethau yn atgyfeirio’r teulu yn gyson o un lle i’r llall, i gyd yn cyfrannu at rwystredigaeth gyffredinol y rhieni hyn, hyd yn oed at deimlad o anobaith.

*“Yn hanesyddol, mae ceisiadau rhesymol am help gan wasanaethau wedi arwain at brofiadau echrydus i’n teulu. Mae hyn yn ein gwneud yn eithriadol o gyndyn i chwilio am help oherwydd rydyn ni’n rhagweld poen o ganlyniad.”* (Rhiant Mabwysiadol)

*“Yn teimlo cywilydd mawr a methiant. Roedd angen cwnsela er mwyn gofyn am gymorth a derbyn bod angen tîm i gadw ein plentyn mewn lleoliad.”* (Rhiant Mabwysiadol)

#### 3.3.4 Beth sy’n cynorthwyo teuluoedd i wybod ble i fynd am help ar yr adeg priodol?

Ystyriai gweithwyr proffesiynol a gwblhaodd arolwg fod galluogwyr allweddol teuluoedd sy’n gwybod ble i fynd am gymorth ar yr adeg briodol yn cynnwys y canlynol:

- Teuluoedd â mynediad uniongyrchol i wasanaeth rhanbarthol (arbenigol) neu wasanaeth Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol ac yn gallu cyrchu ystod llawnach o adnoddau drwy’r ‘drws ffrynt’ hwn yn hytrach na gorfod mynd yn ôl i bob awdurdod lleol i ofyn am ryw ffurf o gymorth.

- Teuluoedd yn newydd i leoliadau ac yn nes i'r gwasanaeth mabwysiadu a hwylusodd y lleoliad.
- Teuluoedd â hunaniaeth mabwysiadu mwy positif a bod yn fwy agored i gymorth – yn ei ystyried fel rhan naturiol o'r broses fabwysiadu, proses barhaus. Gellir hyrwyddo hyn yn ystod yr hyfforddiant cynnar.
- Cyllid ar gyfer cymorth mabwysiadu y cytunwyd arno cyn i'r lleoliad gael ei wneud.
- Cymorth go wir ar gael, er enghraifft o fewn timau rhanbarthol neu drwy gynlluniau'r sector gwirfoddol megis 'TESSA ' neu 'Mabwysiadu gyda'n Gilydd'.
- Teuluoedd yn cael eu hannog i gael 'check ins' cyson neu adolygu pethau gyda'u gwasanaeth mabwysiadu.
- Adoption UK a thimoedd rhanbarthol yn cydweithio er mwyn nodi'r adnoddau priodol i ddiwallu eu hanghenion.

## 3.4 I ba raddau mae teuluoedd mabwysiadol wedi bod yn fodlon gyda'r cymorth sydd ar gael a pha mor ddefnyddiol ydyn nhw?

### 3.4.1 Cymorth Cyffredinol yn cynnwys Cymorth Mabwysiadu 'Cyfnod Cynnar'

Mae astudiaethau ymchwil sydd eisoes yn bodoli yn awgrymu bod dulliau o fynd ati a'r cymorth yr ystyrir eu bod yn defnyddiol yn gyffredinol (gyda'r holl neu bron y cyfan o deuluoedd sy'n mabwysiadu) yn cynnwys y canlynol:

- Hyfforddiant cyn ac ar ôl mabwysiadu ar faterion sy'n debygol o fod o bwys.
- Dulliau systemau cyfan o fynd ati yn seiliedig ar lesiant, dull 'dim drws anghywir' o fynd ati ar draws asiantaethau y gallai plant a theuluoedd gysylltu â nhw.
- Gwasanaethau gwybodaeth a chyngor, er enghraifft o ran sut i reoli a chynorthwyo cyswllt effeithiol gydag aelodau'r teulu biolegol dros amser.
- Cymorth cymheiriaid.
- Cofnod o brofiadau stori bywyd (therapiwtig) uchel ei ansawdd.
- Asesiadau medrus yn cynnwys ar gyfnod cynnar y mabwysiadu er mwyn rhagweld problemau y gallai'r plentyn a'r teulu eu hwynebu.

Selwyn 2017; Hamblin 2018; Meakings et al. 2018; King et al. 2017; Lushley et al.; 2018 Benfield 2017; Bange et al. 2014; Llywodraeth Cymru 2016; Adoption UK 2017; Yellow Kite 2020; TouchBase 2020; Rose & Philpot 2005; Watson et al., 2015; Fargas-Malet & McSherry, 2020

#### 3.4.1.1. Beth mae'r data rheoli yn ei ddweud wrthon ni?

Mae dadansoddiad eilaidd o wybodaeth reoli yn awgrymu bod nifer o fentrau wedi cael eu cynnal yn ystod y 2-3 blynedd diwethaf i wella ansawdd ac effaith cymorth (cyffredinol) ar gyfer holl deuluoedd sy'n mabwysiadu yn cynnwys yn fwy diweddar (yn 2020), ddatblygiad deunyddiau a gyhoeddwyd yn genedlaethol i gynorthwyo i gofnodi profiad bywyd uchel ei ansawdd ar gyfer gweithwyr proffesiynol a rhieni a chreu rolau newydd o fewn timau mabwysiadu rhanbarthol yn benodol i gynorthwyo'r gwaith o gofnodi profiadau profiadau bywyd.

- Amcangyfrifir bod 59% o'r plant mabwysiedig sydd angen cofnod o brofiadau eu bywyd wedi gallu ei gyrchu mewn modd mwy amserol yn ystod 2019-2020 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Mae 'cynigion' newydd megis 'TESSA' a 'Mabwysiadu gyda'n Gilydd' wedi'u hanelu at gynorthwyo teuluoedd sy'n dechrau profi effeithiau trawma plentyndod.
- Datblygwyd deunyddiau ychwanegol a chyrsiau ôl-mabwysiadu gan NAS yn gweithio gydag Adoption UK ac AfA Cymru er mwyn cynorthwyo rhieni mabwysiadol i fagu plant yn therapiwtig yn ogystal â gyda materion penodol megis cyswllt gydag aelodau'r teulu biolegol.
- Cafodd cymorth cymheiriaid ar gyfer pobl ifanc mabwysiedig 'hwb' drwy ddatblygiad Rhaglen 'Connected' gydag Adoption UK, er y bu'n anodd yn ymarferol i ddod â phobl ifanc at ei gilydd yn y modd y bydden nhw'n ei ddymuno ac i greu'r effaith fwyaf oherwydd Pandemig Covid-19.
- Cyd-gynhyrchwyd taflenni at ddefnydd gweithwyr proffesiynol iechyd i'w helpu i ddeall mabwysiadu yn well.
- Cynhyrchwyd podlediadau (o rieni mabwysiadol yn siarad am eu profiadau) i alluogi darpar fabwysiadwyr i gael gwell syniad o'r hyn mae mabwysiadu yn ei olygu ac i hyrwyddo mabwysiadu.

#### 3.4.1.2. Beth mae'r arolwg rhieni yn ei ddweud wrthon ni?

Ystyriai rhieni a ymatebodd i'r arolwg ar-lein bod nifer o ffurfiau o gymorth mabwysiadu yn bwysig iddyn nhw yn ystod cyfnodau cynnar eu taith mabwysiadu, yn arbennig ei gweithiwr cymdeithasol ôl-mabwysiadu a grwpiau cymorth cymheiriaid. Fodd bynnag, ystyriwyd bod ystod o gymorth cyffredinol arall yn gymharol bwysig, fel y gwelir yn y tabl isod:

**Tabl 12: Cyfran y rhieni yn ymateb i'r arolwg a ystyriai bod gwahanol ffurfiau o gymorth yn bwysig iddyn nhw yn ystod cyfnodau cynnar y mabwysiadu**

| Math o gymorth | % o rieni a ystyriai y math hwn o gymorth yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn yn ystod cyfnodau cynnar mabwysiadu |
|---|---|
| Gwaith cymdeithasol ôl-mabwysiadu | 81% |
| Grŵp cymorth cymheiriaid | 75% |
| Gwybodaeth yn seiliedig ar y we | 71% |
| Hyfforddiant ôl-mabwysiadu | 70% |
| Deunyddiau taith bywyd | 69% |
| Cylchlythyr gwybodaeth | 56% |

Sylwer: Nifer o rieni yn ymateb i'r cwestiwn hwn = 231

Fe wnaeth cymorth gweithiwr cymdeithasol ôl-mabwysiadu sgorio'n uchel yn enwedig yn y categori 'defnyddiol iawn' yng nghyfnodau cynnar mabwysiadu. Mae mwyafrif o ymatebion eraill yn niwtral h.y. 'y naill na'r llall' yn hytrach nag yn negyddol h.y. di-fudd neu'n di-fudd iawn.

Ymhlith ffurfiau eraill o gymorth y crybwyllwyd a'i werthfawrogi gan rieni a gweithwyr proffesiynol yn ystod cyfnod cynnar mabwysiadu roedd y canlynol:

- Grwpiau cyfryngau cymdeithasol ar fagu plant therapiwtig / hyfforddiant a deunyddiau a gynigir gan Gymdeithas Cenedlaethol Rhianta Therapiwtig.
- Cymorth gan weithwyr cymdeithasol llawrydd i gynnal gwaith cyswllt â rhieni biolegol.
- Cymorth i gysylltu / blwch llythyrau.
- Aelodaeth o Adoption UK.
- Hyfforddiant a dderbyniwyd fel gofalwyr maeth cyn dod yn rhieni mabwysiadol.
- Deunyddiau therapiwtig ar gyfer magu plant.
- Trefniadau mentora.
- Sesiynau hyfforddi ar-lein (yn cynnwys Adoption UK) a gweminarau ar feysydd o ddiddordeb.
- Grŵp Facebook ‘Adoption Family Matters’ a hyfforddiant ar-lein.
- Grwpiau WhatsApp (yn cynnwys grwpiau cymysg o ofalwyr maeth a mabwysiadwyr) a sefydlwyd gan Adoption UK.

#### 3.4.1.3. Beth ddwedodd rhieni wrthon ni mewn cyfweliad?

Mae syniadau mwy manwl rhieni a gymerodd ran mewn cyfweliad yn awgrymu bod cymorth cymheiriaid yn cael ei werthfawrogi nid yn unig yn ei ffurf fwy trefnus:

*“Chi’n gwybod, profiadau go wir y mae’r ddau ohonoch chi wedi’u cael ond mewn gwahanol ffyrdd. Roedd hynny yn tawelu fy meddwl... llawer o bobl sy’n gwybod sut yr ydych yn teimlo neu’n gwybod beth sy’n mynd ymlaen.”* (Rhiant Mabwysiadol)

ond hefyd mewn grwpiau llai mwy anffurfiol o rieni efallai wedi cwrdd i gychwyn mewn grŵp mwy ond sydd wedi cael cynhaliaeth wrth ddod at ei gilydd mewn grŵp cyfeillion:

*“Dw i wedi cael fy ngwahodd i ymuno â grwpiau cymheiriaid ac i fod yn onest, dwi'n eu cael yn anodd. Fe wnes i gwrdd ag ychydig o rieni mabwysiadol yn annibynnol... ac mae gynnon ni ein grŵp bach o gymheiriaid ein hunain. Mae fy merched yn wych ac yn y grŵp cymheiriaid, clywais am yr holl straeon caled gan eraill a … ches hi’n anodd i ddod ag unrhyw beth positif i’r grŵp. Os bydd popeth yn iawn, efallai na fydd rhaid i mi fynd?”* (Rhiant Mabwysiadol)

*“Mae ein ffrindiau’n fabwysiadwyr... ein math ni ein hunain o gymorth anffurfiol, mi gredaf.”* (Rhiant Mabwysiadol)

Mae’r cyfweliadau a gynhaliwyd gyda rhieni ar gyfer y gwerthusiad hwn yn awgrymu ei bod yn bwysig cynnal mathau amrywiol o gymorth ar gyfer rhieni mabwysiadol yn ystod cyfnodau cynnar mabwysiadu gan na fydd pawb am neu’n hoffi dysgu o’r ffurfiau mwy ffurfiol hyn o gymorth. Er enghraifft, awgrymodd rhai y buasai’n well ganddyn nhw ddysgu hunan-gyfeiriedig.

### 3.4.2 Safbwyntiau rhieni a gweithwyr proffesiynol ar ansawdd y cymorth cyffredinol yn ehangach

*“Ar lefel gyffredinol, mae 'na gymorth i’w gael. Mae mwyafrif o Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol a rhanbarthol wedi cael hynny’n gywir ... gwybodaeth, cylchlythyrau, hyfforddiant a grwpiau cymorth cymheiriaid. Credaf bod y rhanbarthau*

*wedi ei gael yn iawn ac maen nhw'n gweithio gyda AUK lle ceir bwlch."* (Arweinwyr Sector)

Roedd dipyn o amrywiaeth yn safbwyntiau rhieni am ansawdd neu ffurfiau'r cymorth cyffredinol roedden nhw wedi'u profi, yn ôl yr hyn a nodir yn yr arolwg ar-lein.

Mae'r tabl isod yn rhestru gwahanol ffurf o gymorth a awgrymwyd i ymatebwyr yr arolwg ar-lein arolwg ar-lein a sut y caiff pob un eu graddio o 'da iawn' i 'gwael'.

**Tabl 13: Mathau o gymorth cyffredinol drwy raddio gan rieni sy'n ymateb i'r arolwg o 'da iawn' i 'gwael'**

| Math o gymorth cyffredinol | Nifer oedd wedi ymateb | Da iawn | Eitha da | Teg | Gwael |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth grŵp cymheiriaid | 236 | 43% | 33% | 14% | 5% |
| Hyfforddiant ôl-mabwysiadu | 88 | 40% | 34% | 17% | 3% |
| Gweithiwr Cymdeithasol Ôl-Mabwysiadu | 118 | 50% | 22% | 15% | 5% |
| Digwyddiad(au) Teuluol | 58 | 28% | 40% | 17% | 3% |
| Cyngor a Gwybodaeth ar y Wefan | 105 | 21% | 41% | 30% | 5% |
| Cylchlythyr(au) | 108 | 16% | 42% | 32% | 6% |
| Cofnodion Profiad Bywyd | 88 | 16% | 28% | 30% | 10% |

Y mathau o gymorth sydd uchaf eu graddfa oedd cymorth grŵp cymheiriaid, hyfforddiant ôl-mabwysiadu a gweithiwr cymdeithasol ôl-mabwysiadu. Mae'r canfyddiadau hyn yn cydweddu â rhai i gwestiwn tebyg a ofynnwyd i weithwyr proffesiynol mabwysiadu ac arweinwyr sector a ystyriai mai'r ffurfiau o gymorth cyffredinol y gwerthfawrogwyd fwyaf yn gyffredinol oedd y gweithiwr cymdeithasol ôl-mabwysiadu ac yna cymorth cymheiriaid a hyfforddiant.

*"Mae cyswllt cyson gyda gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu a gweithiwr cymdeithasol y plentyn wedi rhoi hyder i ni yn y modd yr ydyn ni'n ymdopi. Mae cyswllt gyda'r grŵp cymheiriaid wedi gwneud i ni deimlo nad ydyn ni 'ar ein pen ein hunain'. Mae digwyddiadau hyfforddi wedi gwneud i ni feddwl am sut yr ydyn ni'n ymdopi."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Mynediad i wybodaeth a grwpiau cymheiriaid. Yn teimlo bod teuluoedd eraill yn mynd drwy'r un peth â ni. Llawer o help ymarferol."* (Rhiant Mabwysiadol)

Hefyd, gofynnwyd i rieni a gwblhaodd yr arolwg ar-lein i ddisgrifio'r cymorth cyffredinol roedden nhw wedi'i dderbyn gan gyfeirio at ystod o nodweddion gafodd well effaith.

- Roedd 66% yn credu ei fod yn gadarnhaol wybodus (am anghenion arbennig teuluoedd mabwysiadol).
- Roedd 66% yn credu ei fod yn tawelu'r meddwl.
- Roedd 66% yn credu ei fod yn gadarnhaol ddefnyddiol.

- Roedd 59% yn credu bod mynediad yn gadarnhaol amserol.
- Roedd 50% yn credu ei fod yn gadarnhaol addas ar gyfer anghenion y teulu.
- Roedd 49% yn credu ei fod yn gadarnhaol ddigonol ar gyfer anghenion y teulu.

Disgrifiodd y rhieni a gymerodd ran mewn cyfweliad mwy manwl ar gyfer y gwerthusiad yr ansawdd a phrofiadau cymharol dda o gymorth cyffredinol neu ffurfiau cynnar o gymorth mabwysiadu, yn cynnwys cymhariaeth weithiau â blynyddoedd cynharach (lle mabwysiadwyd beth amser yn ôl). Roedden nhw'n gwerthfawrogi'r cysylltiad agos yn arbennig gyda gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu a chyfeirio at ffynonellau, cyngor, hyfforddiant neu weminarau.

*"Cael gweld gweithiwr cymdeithasol, roedd hyn o gymorth mawr… baich wedi codi oddi ar ein hysgwyddau. Mae fel petai'n dweud bod y problemau hyn yn gyffredin iawn. Trïwch hwn, trïwch wneud hyn ac roedd fel cadw dyddiadur o bob digwyddiad."* (Rhiant Mabwysiadol)

*Ron i'n teimlo y gallwn gael gafael ynddi unrhyw bryd ac roedd hyn yn wych…. roedd yn dipyn o sialens... y tri, pedwar mis cyntaf.. doedd e ddim yn cysgu. Aethon ni i un o'r cyfarfodydd 'checio i mewn' ni ac roedd pawb yn gallu gweld mod i'n dioddef. Talon nhw am ymgynghorydd cwsg. . tawelu fy meddwl. Mân bethau oedd o gymorth fel diffodd unrhyw olau uwch ei ben, a phylu pob golau yn y tŷ."* (Rhiant Mabwysiadol)

Disgrifiodd llawer y ffurfiau o gymorth a dargedir, yn cynnwys cyfarfodydd aml-ddisgyblaethol i ystyried anghenion eu plentyn a/neu TESSA, gan bwysleisio ei werth fel mesur ataliol yn ystod cyfnodau cynnar mabwysiadu:

*"Mae wedi ein haddysgu ni. Wedi cynnig cyrsiau defnyddiol. Rydyn ni wedi derbyn cymorth gwerthfawr gan ein partner rhiant (TESSA)."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Y cyfarfodydd … Ces y rhain yn anhygoel o gefnogol oherwydd byddai rhai o'r cwestiynau hyn wedi cael eu gofyn a chael eiriolwr hefyd. A byddai hynny, chi'n gwybod, y gweithgareddau, yn dod â nhw at ei gilydd….. Roedd pawb yn gallu cynnig syniadau o'r hyn oedd ei angen. Cafwyd rhai trafodaethau defnyddiol iawn am y modd y rheolwyd ymddygiad a'r pethau a weithiodd iddo yn flaenorol."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Roedd gynnon ni dîm cyn-mabwysiadu yn y cyfarfod plant, lle byddai pob agwedd o'u bywydau yn cael eu dadelfennu gan seicolegydd, gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth a meddygon, i'n helpu ni i ddeall sut a pham mae ein plant yn cael eu heffeithio gan brofiadau cynnar eu bywyd, a chiwiau posibl a datrysiadau. Roedd y cyfarfod mor ddefnyddiol ac yn deillio o'r cyfarfod hwnnw y byddwn yn ddi-os yn cyfeirio ato am flynyddoedd i ddod."* (*Rhiant Mabwysiadol*)

*"Cafodd ein mab therapi chwarae gan weithiwr o'r tîm mabwysiadu rhanbarthol. Ddechreuodd ei dderbyn cyn iddo gael ei faethu ac yna, stopiodd pan roedden nhw'n teimlo nad oedd ei angen arno bellach gan ei fod wedi ymlynu'n llwyr. Roedd yn arbennig o ddefnyddiol i gryfhau'r ymlyniad rhwng fy ngŵr a fy mab oherwydd roedd absenoldeb tadolaeth fy ngŵr yn fyrrach. Roedd y cwrs dau ddiwrnod ar fagu plant yn therapiwtig a drefnwyd gan y rhanbarth a gomisiynwyd gan Gymdeithas Genedlaethol Rhianta Therapiwtig i'w gyflenwi. Roedd e mor dda. Roedden ni wedi trafod hyn yn ystod yr hyfforddiant mabwysiadau cychwynnol cyn cael plentyn ond roedd yn wych i'w roi ar waith nawr bod gennym ni blentyn. Rydw i ar weminar nos yfory ac mae hynny'n*

*trafod y cyswllt gyda'r teulu biolegol. Aethon ni drwy gyfnod pan oedd ei ymddygiad ar chwâl. Roedden ni'n meddwl a oedd hyn yn mynd i barhau. Ond mae pethau'n well. Rydyn ni'n gwybod beth sy'n sbarduno hyn, megis y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig a chyn dod i gysylltiad â'u hanner brodyr a chwiorydd. Mae hi (y therapydd) yn dal ar ben arall y ffôn."* (Rhiant Mabwysiadol )

Hefyd, disgrifiodd rhai o'r rhieni a gyfwelwyd sut roedd cyn ofalwr maeth eu plentyn wedi bod yn ffynhonnell cymorth, yn enwedig yn ystod cyfnodau cynnar mabwysiadu ond weithiau drwy gydol y mabwysiadu:

*"Roedd hi (y gofalwr maeth) yn wych. Roedd hi ar gael drwy'r amser. Rydw i'n lwcus bod gynnon ni berthynas dda gyda hi o hyd. Rydych chi'n gallu troi at aelodau'ch teulu a throi at ffrindiau ond dwi'n meddwl bod y gweithwyr cymdeithasol a'r rhieni maeth yn nabod y broses, maen nhw'n nabod y plentyn."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Y peth gorau (yn ystod y cyfnodau cynnar) oedd y berthynas dda gyda'r gofalwr maeth. Fe wnaethon nhw adael i mi aros gyda nhw yn eu cartref oherwydd mod i am i'r merched ymgyfarwyddo â deffro wrth iddyn nhw ddeffro yn ystod y nos cyn iddyn nhw adael eu hamgylchedd cyfarwydd. Ron i'n gwybod (hefyd) bod gen i'r gweithiwr cymdeithasol yn y cefndir petai angen." (*Rhiant Mabwysiadol)

Roedd rhai o'r rhieni a gyfwelwyd yn ymwybodol bod mwy o gymorth ar gael nawr i'r holl deuluoedd sy'n mabwysiadu, yn ystod cyfnodau cynnar y mabwysiadu gan feddwl, o edrych yn ôl, y gallen nhw fod wedi elwa o hyn:

*"Roeddech chi'n cael eich gadael ar eich pen eich hun i ymdopi â phethau ... ac mae hynny'n iawn oherwydd dyna'r hyn roedd angen i ni ei wneud a'r hyn roedden ni'n dymuno ei wneud. Ron i'n meddwl eu bod wedi ymglymu a heb broblemau. Cymerodd mwy na thebyg, bum neu chwe mlynedd a lleoliadau ysgol yn methu, cyn i ni mewn gwirionedd gael y cymorth roedd ei angen arno. Roedd y gweithiwr cymdeithasol oedd gynnon ni ers blynyddoedd yn hyfryd ond ar y pryd, wnaeth hi ddim dweud 'gadewch i ni edrych ar hyn'. Roedd e fel petai'n dweud 'mae'n dal i setlo i mewn'. Roedden nhw am helpu ond mewn gwirionedd, doedd ganddyn nhw mo'r wybodaeth na'r dealltwriaeth (yna)."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Nawr, mae pethau wedi newid cryn dipyn ers hynny (14 mlynedd yn ôl). Chawson ni ddim cymorth fel y cyfryw; cawson ni ymweliadau gan yr ochr ôl-mabwysiadu. Ond nid cymorth oedd hynny: nid sut roeddech chi'n ymdopi, ond yn hytrach gwneud yn siŵr ein bod i gyd yn ffitio i mewn gyda'n gilydd."* (Rhiant Mabwysiadol)

Un neges glir o'r arolwg rhieni ar-lein a'r cyfweliadau manwl gyda rhieni oedd y gall fod yn anodd i'r rhai sy'n gweithio llawn amser neu sy'n rhieni sengl i gyrchu hyfforddiant neu 'ddiwrnodau teuluol' a amserlennir ac sy'n hygyrch ar adeg benodol yn unig ac mae hyn yn cyfyngu'n sylweddol ar bethau.

*"Yn anffodus, fel rhiant sengl, dydw i ddim wedi gallu cyrchu cyrsiau/fideos ayb. ar-lein oherwydd eu bod yn cael eu cynnal adeg amser gwely fy mhlentyn bach a dim ond y fi sydd ar gael i'w roi yn y gwely. Byddai recordio'r hyfforddiant/sgyrsiau a'i gynnal ar adeg mwy cyfleus o gymorth mawr"* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Anfonwyd rhai o'r gweminarau ata i … pynciau yr oedden nhw'n delio â nhw megis sut i drafod eich profiadau bywyd... ond, yn anffodus, dydw i ddim wedi gallu ymuno ag unrhyw un ohonyn nhw oherwydd maen nhw'n fyw am chwech o'r gloch sy'n addas ar gyfer pobl ar ôl gwaith ond dyna'r adeg paratoi ar gyfer mynd i'r gwely. Felly byddai'n wych petai'n gallu cael ei recordio ymlaen llaw."* (Rhiant Mabwysiadol)

**O ran effaith y cymorth mabwysiadu cyffredinol**, mynegodd tua dau draean (67%) o'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg farn bod cymorth cyffredinol wedi gwella eu dealltwriaeth o anghenion eu plentyn. Dywedodd cyfran debyg ei fod wedi helpu i wella eu dealltwriaeth o'r rheswm pam mae eu plentyn yn ymddwyn fel y mae (64%) ac wedi helpu gyda'u hyder i fagu plant (62%).

Fodd bynnag, mae ymatebion rhieni yn yr arolwg yn awgrymu bod terfynau i gymorth cyffredinol, yn enwedig yn y tymor canolig i'r tymor hirach, sef mai dim ond hanner y rhieni (50%) oedd yn ystyried ei fod wedi helpu i wella'r cwlwm rhwng y plentyn a'r rhiant a meddyliai 55% ei fod wedi helpu gyda bywyd teuluol a pherthynas.

### 3.4.3 Safbwyntiau ar ansawdd cymorth mabwysiadu a dargedir neu gymorth mabwysiadu arbenigol

Mae ymchwil sydd eisoes yn bodoli wedi ystyried i ryw raddau yr ansawdd ac effeithiolrwydd cymorth mabwysiadu a dargedir neu gymorth mabwysiadu arbenigol. Bu'r hyn sydd wedi cael ei ystyried yn y llenyddiaeth hyd yn hyn yn therapiwtig gan fwyaf neu'n addysgol neu therapiwtig eu natur – ar gyfer y rhiant (rhieni) – yn cynnwys y canlynol yn fwyaf cyffredin:

- Hyfforddiant rhiant therapiwtig.
- Ymyriadau seico-therapi yn cynnwys therapïau ymddygiad gwybyddol (CBT neu DBT) yn cynnwys y rhai a addaswyd yn benodol ar gyfer plant mabwysiedig: Di-sensiteiddio ac Ailbrosesu Symudiad Llygaid (EMDR);Therapi Prosesu Integreiddio Synhwyraidd.
- Therapïau teuluol megis Seicotherapi Datblygiadol Dwbl neu Ganllawiau Rhyngweithio ar Fideo (VIG)
- Therapïau creadigol megis chwarae neu therapi mabaidd
- Dulliau o fynd ati i ddelio â sialensiau penodol i ymddygiad megis rhaglenni NVR ('Ymwrthedd Di-drais') ar gyfer rhieni i'w helpu i reoli trais plentyn ar rieni.
- Seibiannau byr therapiwtig.
- Gwaith therapiwtig ar gofnodi profiadau bywyd

Fodd bynnag, mae sail tystiolaeth y DU am 'yr hyn sy'n gweithio' o ran cymorth a dargedir neu cymorth arbenigol yn dal yn ei fabandod (Stock et al., 2016; Selwyn, 2017).

#### 3.4.3.1. Beth ydyn ni'n ei wybod o'r data rheoli?

Y negeseuon allweddol o ddadansoddiad eilaidd gan werthuswyr data rheoli NAS perthnasol ar gyfer 2019-2020 ydy:

- Cymorth a dargedir yn cyrraedd mwy o blant a theuluoedd (wedi codi 72%, o 170 o deuluoedd yn 2018-2019 i 237 yn 2019-2020).

- Mae rhaglen newydd TESSA wedi gweithio gyda thua 42 o deuluoedd yn ystod 2019-2020, a thybir bod llawer mwy wedi eu tynnu i l i'r rhaglen hon yn ystod cyfnod cyntaf 2020-2021.

#### 3.4.3.2. Safbwyntiau rhieni

Roedd rhieni a gwblhaodd yr arolwg ar-lein a oedd wedi cyrchu ffurfiau penodol o gymorth mabwysiadu a dargedir neu gymorth arbenigol yn fwy canmoliaethus am ansawdd o'i gymharu ag eraill.

TESSA a werthfawrogwyd fwyaf (roedd 81% yn ystyried y cymorth hwn yn dda neu'n dda iawn) a therapi ar gyfer plentyn a rhiant gyda'i gilydd (roedd 70% yn meddwl bod hyn yn dda neu'n dda iawn).

Roedd cyfrannau arbennig o uchel yn meddwl bod CAMHS neu CAMHS arbenigol yn cynnig cymorth gwael ei ansawdd ond nododd rhai rhieni y gallai therapi plentyn yn unig a chymorth yn yr ysgol hefyd fod o ansawdd gwael.

**Tabl 14: Mathau o gymorth a dargedir neu gymorth arbenigol fesul ymatebwyr i arolwg rhieni wedi'u graddio o dda iawn' i 'gwael iawn'**

| Math o gymorth a dargedir neu gymorth arbenigol | Nifer oedd â mynediad | Da iawn | Eitha da | Teg | Gwael | Gwael iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TESSA | 22 | 45% | 36% | 14% | 0% | 5% |
| Hyfforddiant ôl mabwysiadu | 57 | 47% | 32% | 14% | 2% | 5% |
| Therapi (plentyn a rhiant ) | 46 | 35% | 35% | 19% | 2% | 9% |
| Therapi ar gyfer y plentyn | 44 | 39% | 25% | 11% | 7% | 18% |
| Gwasanaeth asesu | 46 | 26% | 35% | 28% | 2% | 1% |
| Cymorth yn yr ysgol | 61 | 18% | 20% | 28% | 13% | 21% |
| CAMHS | 29 | 13% | 21% | 13% | 13% | 40% |
| CAMHS Arbenigol | 26 | 15% | 15% | 15% | 5% | 50% |

Mynegodd gweithwyr proffesiynol mabwysiadu a gwblhaodd arolwg ar gyfer y gwerthusiad farn ychydig yn wahanol am ffurfiau o gymorth a dargedir neu gymorth arbenigol oedd, yn eu tyb nhw, y mwyaf gwerthfawr iddyn nhw. Mae'r ymatebion yn wahanol yn enwedig o ran y gwerth a roddir ar TESSA a hyfforddiant ôl mabwysiadu fel y gwelir yn y tabl isod:

**Tabl 15: Mathau o gymorth a dargedir neu gymorth arbenigol a ystyriwyd fwyaf gwerthfawr o safbwynt gweithwyr proffesiynol mabwysiadu yn ymateb i'r arolwg**

| Math o gymorth | % o weithwyr proffesiynol sy'n cwblhau arolwg oedd yn ystyried hyn ymhlith y mwyaf gwerthfawr |
|---|---|
| Cymorth therapiwtig ar gyfer y plentyn a'r rhiant | 71% |
| Cymorth therapiwtig ar gyfer y plentyn yn unig | 63% |
| Cymorth yn seiliedig ar yr ysgol | 60% |
| Gwaith therapiwtig ar gofnodi profiadau bywyd | 60% |
| TESSA | 47% |
| Hyfforddiant ôl mabwysiadu | 43% |
| CAMHS | 36% |
| Lwfans ariannol | 25% |

Ymhlith ffurfiau eraill o gymorth a dargedir neu gymorth arbenigol y cyfeiriodd gweithwyr proffesiynol atyn nhw fel rhai gwerthfawr roedd: cwnsela ar berthynas (ar gyfer rhieni), help i reoli ymddygiadau plentyn, a chymorth cymheiriaid (gan fabwysiadwyr profiadol).

Ar ôl ei gyrchu, disgrifiodd dau draean o'r rhieni a gwblhaodd arolwg wasanaethau a dargedir neu wasanaethau arbenigol yn rhai gwybodus iawn am anghenion arbennig teuluoedd mabwysiadol (67%) ac yn rhai sy'n tawelu meddwl (69%). Yn union fel gyda chymorth cyffredinol dywedodd mwyafrif o rieni fod gwasanaethau cymorth a dargedir a chymorth arbenigol yn cael eu cynnig gyda thosturi (83%). Fodd bynnag, dim ond hanner y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg (54%) oedd yn ystyried bod y 'swm priodol' o wasanaeth wedi cael ei ddarparu.

Disgrifiodd un rhiant a gymerodd ran mewn cyfweliad manwl ar gyfer yr astudiaeth hon deimlo'n gryf eu bod wedi cael eu 'cynnal a'u helpu' fel teulu gan y gweithwyr cymdeithasol a'r therapyddion yn y tîm aml-ddisgyblaethol, a hefyd cymorth ehangach parhaus mwy cyffredinol eu natur

*"Mae e yna os ydych chi ei eisiau fe. Mae hi wedi bod yn rhyfeddol, y person dwi'n bwrw fy mol iddi ac mae'n trefnu popeth i mi. Mae'n gwybod sut dylai popeth weithio ac mae wedi gweithio'n agos iawn gyda'r ysgol. Ces fy nerbyn ar gynllun TESSA hefyd.. ryw flwyddyn yn ôl. Partner Rhiant.. rydyn ni'n cysylltu ar FaceTime bob ryw bythefnos a threfnu digwyddiadau cymdeithasol ac ymgynghoriad seicoleg clinigol teirawr fel rhan o'r tîm hwn a hefyd cewch gynnig cwrs sy'n delio â thrawma datblygiadol. Hefyd Adoption UK, mae ganddyn nhw gymuned fawr iawn a gallwch ei gyrchu ar gyfer yr hyn rydych ei eisiau. Allai wir weld dim o'i le arno. Roedd yr ymgynghoriad seicolegol yn dda iawn, iawn."* (Rhiant Mabwysiadol)

Roedd teulu arall wedi cael gwasanaeth gweithiwr cymdeithasol i gynorthwyo tholl aelodau'r teulu yn cynnwys y plentyn ac a drefnodd cymorth seicolegydd (a ddisgrifiwyd gan rieni fel rhaglen grŵp dan arweiniad seicolegydd). Roedd y rhiant yn

gwerthfawrogi'r holl help (gweithiwr cymdeithasol, grŵp dan arweiniad seicolegydd, cyswllt gydag ysgolion) ond pwysleisiwyd sut y byddai'r cymorth yn well petai'n cael ei gynnig yn gynharach.

*"Gall fod yn anodd iawn, iawn i ysgolion ddeall pobl ifanc mabwysiedig a'r trawma a phethau fel hynny. Rydych yn cael galwadau ffôn yn dweud wrthoch chi eu bod wedi bod yn ddrwg. Rydych chi'n eu hamddiffyn yn barhaus. Roedd cael rhywun yno a all ddod gyda chi i gyfarfodydd yn wirioneddol ddefnyddiol. Fe ymunon ni â grŵp PACE. Mae'n gysylltiedig â materion seicoleg, cwrs chwe wythnos. Cwrs buddiol iawn. Helpodd i egluro pethau nad oedden ni wedi sylweddoli o'r blaen. Trueni na fydden ni wedi ei gael ynghynt, wir i chi. Byddai wedi gwneud cymaint o wahaniaeth. Ond y peth gorau a ddeilliodd o hyn oedd ein bod wedi cychwyn siarad â rhieni eraill ar y cwrs, yn ystod amser egwyl; a thros goffi. Ar ôl hynny, sefydlon ni Grŵp WhatsApp. Bydden ni'n cadw mewn cysylltiad, yn llythrennol drwy'r amser. Os byddai rhywun yn cael wythnos wael, byddai pawb yn cefnogi a chynorthwyo ei gilydd. Mae'r strategaethau a'r holl bethau hyn wedi bod yn fuddiol iawn. Mae'r cymorth wedi bod yn amhrisiadwy."* (Rhiant Mabwysiadol).

Ar gyfer rhiant arall a gyfwelwyd roedd cael adroddiad seicolegol a TESSA a gyflenwyd ar-lein o fudd nid yn unig yn uniongyrchol ar gyfer y teulu ond hefyd i'r plentyn yn yr ysgol, drwy rannu'r adroddiad gydag addysgwyr iddyn nhw ddeall a darparu. Roedd cael seicolegydd i siarad ag e, yn cynnwys tawelu meddwl y rhiant hwn hefyd o help.

*"Edrychwch, dewch o 'na, a gwnewch rywbeth. Cael ei asesu gan seicolegydd addysgol.. does dim slot! Bu'r ymatebolrwydd a'r parodrwydd i wneud asesiad ac i ystyried pa broblemau oedd yn bodoli yn fuddiol a chydnabyddiaeth bod rhai o'r pethau hyn tu hwnt i rychwant normal addysg a'r GIG sy'n fuddiol. Siarad i ail-werthuso'r hyn ydy ein targedau magu plant ac yn trafod hyn gyda'n gilydd… trafod ein dull o fagu plant efallai a'n cynorthwyodd."* (Rhiant Mabwysiadol)

Pwysleisiodd rhai rhieni bwysigrwydd cysondeb gweithwyr, ar gyfer rhieni a phlant neu bobl ifanc a hefyd empathi gweithiwr, i ddatblygu ymddiriedaeth a hyder yn yr un sy'n rhoi cyngor a chymorth.

*"Y peth pwysicaf ydy parhad a dilyniant…. meddu ar y cwlwm hwnnw o ymddiriedaeth gyda rhywun y teimlwch y gallwch ofyn am help.* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Cymerodd amser hir i sefydlu perthynas. Yna, cafodd ein gweithwraig gymdeithasol ddyrchafiad ac felly cawson ni un newydd. Fe gymerodd hi amser i sefydlu perthynas dda gyda'r ail weithwraig. Dyma ni'n mynd eto …Bydd hon yn mynd. Mae pawb yn gadael. Dyna olwg llawer o blant mabwysiedig ar y byd. Gadawodd y bobl yn fy mywyd felly mae pawb arall yn mynd i adael."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Dw i wedi bod yn meddwl llawer am bwysigrwydd empathi. Nid gwybodaeth yn unig mohono. Mae sefydliad... wedi datblygu rhith gynhyrchion, rhaglenni penodol ar gyfer gweithwyr a darpar rieni mabwysiadol er mwyn helpu gweithwyr cymdeithasol a rheini i ddeall y gwir brofiad o drawma o'u cyfnod ar aelwyd gamdriniol."* (Rhiant Mabwysiadol)

Gwerthfawrogwyd ffurfiau eraill o gymorth, er enghraifft cymorth ariannol:

> *"Roedd dau blentyn o fewn pedwar mis yn wallgof. Rwy'n credu ei fod wedi cymryd y pwysau i ffwrdd ac fe adawodd i mi dreulio'r amser ychwanegol hwnnw i ffwrdd o'r gwaith gyda nhw. Roedd yn un peth nad oedd yn rhaid i ni boeni amdano. Roeddwn i'n gallu canolbwyntio arnyn nhw yn unig."* (Rhiant Mabwysiadol)

Neu gymorth ar gyfer cyswllt wyneb yn wyneb am y tro cyntaf â rhiant biolegol gan gynnwys cymorth i'r rhiant biolegol a'r plentyn:

> *"Roedd gen i gynllun o sut roeddwn i eisiau iddo fod a chyflawnwyd popeth o fy nghynllun ac... roeddwn i'n hapus gyda'r ffordd yr oedd yn troi allan - cefais gymorth hyd yn oed wedyn. Anfonodd fy ngweithiwr cymdeithasol neges i mi a dweud 'Rwy'n falch gyda'r ffordd y gwnaethoch drin heddiw.. rydych chi wedi tyfu i fyny ac wedi ymddwyn yn gyfrifol am y peth. Gwnaeth hynny i mi deimlo'n dda mewn gwirionedd. Cefais y cymorth yn parhau yn ystod y dydd (hefyd). O fy safbwynt i, cefais y cymorth yr oeddwn ei angen gan fy ngweithiwr cymdeithasol a fy rhieni."* (Plentyn wedi ei Fabwysiadu)

### 3.4.3.3. Ansawdd cymorth TESSA

Yn aml, canmolodd rhieni y rhaglen TESSA wrth ymatebi i'r arolwg a rhieni a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn:

> *"Ymrestron ni ar TESSA. Roedd y sesiwn gyda'r seicolegydd yn wych ac mewn byd delfrydol dwi'n meddwl y byddai hyn ar agor i'r holl fabwysiadwyr drwy'r amser."* (Rhiant Mabwysiadol)

Mae sylwadau blwch testun y rhieni yn egluro mwy am y rheswm ac ym mha amgylchiadau y cawson nhw TESSA yn ddefnyddiol:

> *"Bu'n rhyfeddol cael rhywun a all wrando ar ein profiadau o ddydd i ddydd fel teulu, ac yn gallu gofyn cwestiynau da pam bod yr ymddygiadau hyn yn dod i'r amlwg a beth allai fod yn mynd ymlaen o dan yr wyneb. Galluogodd hyn i ni fod yn fwy therapiwtig wrth fagu plant ac i nodi o ble gallai problemau darddu."* (Rhiant Mabwysiadol)

> *"Fe wnaeth TESSA fy helpu i dderbyn llawer o bethau - megis y ffaith nad oes ateb parod. Gwnaeth i fi deimlo'n gryfach ac i allu ymdopi i fagu'r plant ac i ddal i fynd. Ac roedd yr holl staff yn gefnogol iawn. Roedden nhw'n deall, er mwyn helpu'r plentyn, bod angen help ar y rhieni hefyd! Allwn ni ddim cadw i fynd gydag ymddygiadau eithafol heb i ni ein hunain gael help a'r unig ffordd i helpu'n plant ydy os ydyn ni'n ddigon cryf yn emosiynol. Ac efallai yn fwy pwysig na dim, fe wnaeth TESSA nid yn unig gynnig strategaethau ar gyfer magu ein plant (sef yr oll a gynigwyd i ni yn flaenorol). TESSA oedd y cymorth gorau a gawson ni hyd yn hyn."* (Rhiant Mabwysiadol)

> *"Roedd TESSA yn ymddangos eu bod yn malio ac ystyried yr hyn a ddwedon ni a thrwy ein cynorthwyo roedden ni'n gryfach ar gyfer ein plant. Cael Partner Rhiant oedd yn rhan o wasanaeth TESSA oedd yr agwedd fwyaf defnyddiol i ni."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Mae cymorth TESSA drwy Adoption UK yn wych yn enwedig y partner rhiant."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Mae cymorth TESSA a'n partner rhieni wedi bod yn rhagorol. Maen nhw wedi cynnig cymorth mwy penodol mewn modd anfarnol, gofalgar."* (Rhiant Mabwysiadol)

#### 3.4.3.4. Ansawdd y cymorth wedi ei dargedu neu'r cymorth arbenigol therapiwtig

Mewn ymatebion yn y blwch testun ac yng nghyd-destun y cyfweliadau ansoddol, bu'r rhieni yn bennaf yn disgrifio, mewn geiriau cadarnhaol iawn, ansawdd ac effaith mathau eraill o gymorth therapiwtig oedden nhw wedi ei gael:

*"Yn ystod cyfnod y Covid cafwyd cymorth un-i-un gan therapydd chwarae a gweithiwr ôl-fabwysiadu – fe'n helpodd i ymdopi. Mae ei ymddygiad wedi gwella. Mae'r digwyddiadau'n nawr yn llai aml. Pan mae'n ffrwydro mae'n haws ei dawelu / haws defnyddio PACE i helpu gyda'r sefyllfa."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Mae newydd gael cyfnod pontio esmwyth i'r Ysgol Uwchradd lle mae'n ymddangos ei fod wedi setlo'n dda iawn."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Doedd ein plentyn ddim yn ymglymu ond bu'r therapydd yn help i ni."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Fe wnaeth y system ein siomi o ran faint o amser a gymerodd i fy mab gael help, ond wnaeth yr unigolion ddim ein siomi. Mae'r cymorth hwn wedi dod yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae ein sefyllfa wedi newid yn sylweddol oherwydd y Covid gyda fy ngŵr bellach gartref ac yn gallu cynnig cymorth i mi gyda phopeth. Mae fy mab wedi mynd o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd felly bu ffactorau eraill yn bwydo i'n sefyllfa hefyd. Fodd bynnag, mae ein bywydau wedi gwella'n aruthrol. Rwy'n gallu cysgu'r nos ac mae fy iechyd meddwl a chorfforol bellach yn gwella. Fe roddodd y therapi obaith i mi y gallai pethau wella, felly fe helpodd hynny fi i ddal ati nes iddyn nhw wella." (Rhiant Mabwysiadol)*

*"Mae'r cymorth rheolaidd rydyn ni wedi'i gael ar ffurf therapi DDP wedi bod yn amhrisiadwy ar gyfer ein cadw ar y trywydd iawn gyda'n gwaith o fagu plant er gwaethaf llawer o heriau."* (Rhiant Mabwysiadol)

Fodd bynnag, roedd y sylwadau am y math hwn o gymorth mabwysiadu'n awgrymu nad ydy hyn, i bob teulu, wedi cael ei werthfawrogi neu nad oedd o help:

*"Gwael, oherwydd nad oedd fy merch yn teimlo ei fod wedi helpu heblaw caniatáu iddi 'agor ei chalon' amdanon ni - sy'n ddefnyddiol rwy'n siŵr, ond nid yr hyn yr oedd hi'n dymuno iddo fod. Gofynnodd yn benodol am gymorth therapiwtig a oedd yn seiliedig ar ymlyniad a thrawma ac a allai ei helpu i ddelio â rhai o'r materion y mae hi'n gwybod sy'n effeithio ar ei hemosiynau. Wrth siarad am ei phrofiad dywedodd nad dyna oedd hi'n ei obeithio."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Therapi chwarae, cyfan gwbl ddi-werth."* (Rhiant Mabwysiadol)

Mae'r sylwadau blwch testun o'r arolwg rhieni hefyd yn egluro mwy am yr hyn sy'n cael ei werthfawrogi a 'beth sy'n gweithio' o safbwynt teulu o ran cymorth therapiwtig wedi'i thargedu'n fwy. Roedd sylwadau cadarnhaol yn gysylltiedig â chymorth therapiwtig wedi'i theilwra'n dda, sef yn aml yr hyn oedd yn cynnwys y plant ac (mewn rhyw ffordd) y rhieni e.e. therapi chwarae ffilial yn hytrach na gyda'r plentyn yn unig.

> *"Cawsom sesiynau gyda therapydd ar ôl iddi weithio gyda'n merch; roedden ni'n gallu gofyn cwestiynau a thrafod strategaethau i helpu ein merch."* (Rhiant Mabwysiadol)

Teimlwyd bod cymorth therapiwtig a gafwyd o bell gyda phlant yn ystod Pandemig COVID-19 yn arbennig o fregus, yn bennaf pan ddechreuodd yn ystod y cyfnod hwn (gan fod hyn yn ei gwneud hi'n rhy anodd i blant sefydlu cysylltiad da ac ymddiriedaeth).

> *"Roedden ni'n cysgodi fy mab ac roedd angen i'w Therapydd hunan-ynysu. Symudodd ei sesiynau i fod ar Zoom am sawl wythnos ond weithiodd y rhain ddim yn dda oherwydd mynediad gwael i'r rhyngrwyd ac fe ddechreuon nhw fod yn ofid iddo fe."* (Rhiant Mabwysiadol)

> *"Yna fe wnaethon ni symud y sesiynau i'n gardd ni a oedd yn llawer gwell."* (Rhiant Mabwysiadol)

### 3.4.3.5. Gwerth ac effaith y lwfansau ariannol

Mae sylwadau'r blwch testun yn yr arolwg rhieni yn awgrymu ymhellach nad ydy lwfansau ariannol ar gael yn rhwydd bob amser ond, lle maen nhw'n cael eu defnyddio mewn ffordd wedi'i thargedu, fe'u gwerthfawrogwyd yn fawr a chredir eu bod yn cael effaith ar hyfywedd lleoliadau a gostyngiadau mewn strés i'r rhieni.

> *"Mae lwfans mabwysiadu wedi caniatáu imi aros adref a meithrin perthynas a gweithio trwy bryderon wrth iddyn nhw godi. Trwy fy adnoddau fy hun fel cyn-athro, mae wedi caniatáu imi weithio trwy drefn rheoli tymer gydag un plentyn a chefnogi, addysgu a meithrin 6 o blant trwy gydol y cyfnod clo mewn amgylchedd ysgol gartref. Mae hyn wedi bod yn hanfodol i gynnal sefydlogrwydd a diogelwch ar adeg o bryder mawr a newid i bob plentyn."* (Rhiant Mabwysiadol)

> *"Gofynnais am gymorth ariannol a'i gael yn gyflym iawn ac fe helpodd hynny i leddfu'r pwysau oedd arna i."* (Rhiant Mabwysiadol)

### 3.4.3.6. Effaith y pecynnau wedi eu targedu/pecynnau arbenigol

Mae ymatebion yr arolwg rhieni i gwestiynau am effaith cymorth wedi'i dargedu neu arbenigol yn awgrymu darlun amrywiol iawn.

Pan oedd teuluoedd wedi gallu ei gyrchu, nododd rhieni a gwblhaodd yr arolwg fod y gwasanaeth oedd wedi'i dargedu neu'n un arbenigol wedi cael effaith fwy cadarnhaol ar y rhiant (67%) na'r plentyn (52%). Ystyriwyd bod y gwasanaethau'n 'ddefnyddiol ar y cyfan' i'r ymatebydd a'i deulu yn y rhan fwyaf o achosion (76%), ond roedd cyfran ychydig yn is o'r farn ei fod yn 'addas iawn ar gyfer eu hanghenion' (59%).

Ar gyfer rhieni a gyrchodd wasanaethau arbenigol wedi'u targedu, dywedodd 60% ei fod wedi gwella eu dealltwriaeth o anghenion eu plentyn a dywedodd 62% ei fod wedi eu helpu i ddeall pam mae eu plentyn yn ymddwyn yn y ffordd y mae'n ei wneud. Adroddwyd bod y gwasanaethau wedi cael effaith amrywiol ar wella hyder ymatebwyr mewn magu plant, gydag un rhan o bump yn dweud eu bod wedi cael eu cynorthwyo 'yn fawr iawn' ac un o bob pump arall yn dweud nad oedd hyn wedi helpu 'dim o gwbl' (20% yr un).

Mae'r sylwadau yn y blwch testun gan rieni fu'n ateb yr holiadur ar gyfer y gwerthusiad yn awgrymu bod rhai rhieni mabwysiadol wedi elwa o gael mynediad at becynnau o gymorth wedi'i dargedu, yn hytrach nag un math ohono yn unig, yn enwedig lle mae yna elfen therapiwtig:

> *"Mae wedi rhoi mwy o ddealltwriaeth i mi o drawma datblygiadol a sut i rianta a mynd i'r afael ag amrywiol anghenion. Yn gallu trosglwyddo'r wybodaeth a'r cyngor hwn i ffrindiau teulu a'r ysgol. Llawer o gymorth gan SEWAS yn unigol a sicrwydd o gysylltu â mabwysiadwyr eraill trwy gyrsiau."* (Rhiant Mabwysiadol)
>
> *"Rwyf wedi cael ymgynghoriad TESSA ac wedi siarad â'n gweithiwr cymdeithasol sawl gwaith. Ar hyn o bryd rydym yn aros am gymeradwyaeth ariannol ar gyfer asesiad cymhleth a phecyn therapiwtig ar gyfer fy mab. Rwy'n obeithiol iawn y bydd hyn yn digwydd.*" (Rhiant Mabwysiadol)
>
> *"Mae'r awdurdod lleol wedi dod o hyd i'r arian i'n mab - ac felly'r teulu cyfan - i brynu pecyn cymorth i'w helpu ef a'r teulu i ddelio â'i bryder, ei ddicter a'i ofnau sydd â gwreiddiau dwfn yn ei orffennol. Mae hyn yn golygu fod ganddo hunan-barch isel a gall arwain at ymddygiad afresymol a dinistriol. Mae'r cymorth y mae'n ei dderbyn yn ei helpu i gyfeirio a rheoli ei feddyliau, gan ei alluogi i beidio â chael ei lethu mor gyflym gan ei bryderon mewnol a'i ddicter."* (Rhiant Mabwysiadol)
>
> *"Mae hi'n anodd ar ein teulu ni – mae therapi a seibiant yn ein cadw at ein gilydd fel teulu, heb y rhain byddem wedi yn stryglo'n arw iawn."* (Rhiant Mabwysiadol)

### 3.4.4 Safbwyntiau rhieni a gweithwyr proffesiynol ynghylch hygyrchedd cymorth wedi'i dargedu neu arbenigol

Nododd ychydig dros hanner y rhieni a gwblhaodd arolwg a oedd angen cymorth wedi'i dargedu neu gymorth arbenigol y gallen nhw ei gyrchu pan oedd ei angen arnyn nhw (57%), ac roedd un rhan o bump yn anghytuno'n gryf y gallen nhw wneud hynny (21%). Dywedodd dwy ran o dair fod y gwasanaethau ar gael yn ddigon agos at ble maen nhw'n byw (66%), ond roedd bron i 1 o bob 6 yn anghytuno â hyn (16%).

O'r gweithwyr proffesiynol a gwblhaodd arolwg ar gyfer y gwerthusiad hwn, roedd cyfran uchel (83%) o'r farn ei bod yn eithaf hawdd cael gafael ar gymorth cyffredinol, er bod cyfran is (55%) o'r farn bod teuluoedd yn bennaf neu bob amser yn derbyn y math priodol o'r cymorth hwn.

Fodd bynnag, roedd cyfran lawer is o weithwyr proffesiynol a gwblhaodd yr arolwg o'r farn ei bod yn eithaf hawdd cael gafael ar gymorth wedi'i dargedu (56%) neu gymorth arbenigol (6%). Dim ond traean (33%) yr ymatebwyr a gredai fod teuluoedd yn bennaf

neu bob amser yn derbyn y math cywir o gymorth wedi'i dargedu a dim ond 6% a gredai eu bod yn bennaf neu bob amser yn derbyn y math cywir o gymorth arbenigol.

Nododd teuluoedd a gweithwyr proffesiynol fod y rhwystrau i gyrchu mathau mwy penodol o gymorth yn cynnwys y canlynol:

- Mewn rhai ardaloedd, **mae teuluoedd yn dal i orfod mynd yn ôl trwy awdurdodau lleol unigol i gael cyllid ar gyfer cymorth penodol** yn hytrach na chael gafael ar y rhain trwy'r tîm rhanbarthol - gan achosi oedi.
  *"Rhaid i ni ofyn i'r awdurdodau lleol gytuno i ariannu gwaith therapiwtig ac ati. Maen nhw'n aml yn gwrthod ac yn oedi gan nad ydy eu cyllidebau'n ddigonol i dalu am hyn."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)
- **Disgwyliadau cynyddol teuluoedd** y bydd timau rhanbarthol yn gallu diwallu ystod o anghenion cymhleth a chymysg gan gynnwys anghenion addysgol ac iechyd, pan nad ydy'r timau hyn yn gallu / nad oes ganddyn nhw'r adnoddau i wneud hynny.
  *"Gall fod rhwystredigaeth i deuluoedd nad ydy'r tîm cymorth mabwysiadu ddim yn wasanaeth hollgynhwysol gydag ymyriadau iechyd, addysg, seicolegol ac arbenigol i gyd yn integredig, ac yn lle hynny mae'n rhaid iddyn nhw weithio gyda nifer o wahanol systemau a rhestrau aros."* (Rhiant Mabwysiadol )
- **Oedi wrth allu cael rhai mathau o gymorth a ddisgrifir fel rhai 'cymharol sylfaenol', megis deunyddiau profiadau bywyd.**
- **Cynnig o gymorth annatblygedig mewn rhai ardaloedd a diffyg cysondeb** sy'n effeithio ar rai rhannau o Gymru.
  *"Mae yna lefelau amrywiol o sgiliau o fewn rhanbarthau mabwysiadu, gyda rhai timau cymorth mabwysiadu yn gallu cynnig hyfforddiant NVR neu waith profiadau bywyd therapiwtig tra nad oedd eraill yn gallu gwneud hynny. Mae rhywfaint o wahaniaeth o hyd yn yr hyn sydd ar gael, yn dibynnu ar ble mae'r teulu'n byw."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

Mae'n ymddangos bod pwysau ar gapasiti mewn rhai meysydd arbenigedd, yn enwedig therapïau a therapyddion, mewn rhai rhannau o Gymru, yn bennaf yn yr ardaloedd gwledig. Mae hyn wedi golygu naill ai bod teuluoedd yn gorfod aros am wasanaethau neu na allan nhw gael mynediad at wasanaethau neu orfod teithio pellteroedd cymharol hir i gael gwasanaethau.

> *"Mae mabwysiadwyr yn fodlon teithio, ond dydy hynny ddim bob amser yn dda i'r plentyn."* (Arweinydd Sector)
>
> *"Mae'n dibynnu ble maen nhw'n byw, at bwy maen nhw'n mynd a beth ydy'r angen. Mewn ardaloedd gwledig mae'n bosibl iawn y cynigir beth bynnag sydd ar gael iddyn nhw ac mae'n debygol byddan nhw'n cael eu targedu'n llai cywir i ddiwallu eu hanghenion."* (Gweithiwr Mabwysiadu Proffesiynol)

- **Gwasanaethau cyffredinol penodol,** heb fod yn rhai mabwysiadu, fel meddygon teulu, ymwelwyr iechyd, gweithwyr addysg proffesiynol neu staff meithrin / gofal plant ond hefyd rhai gwasanaethau arbenigol a gweithwyr fel CAMHS **heb fod yn ddigon ymwybodol o effeithiau trawma ar y datblygiad** a heb ddealltwriaeth ddigonol o anghenion plant mabwysiedig a chefndiroedd tebygol, yn fwy cyffredinol.
- **Cynlluniau cymorth cynnar heb fod yn ddigon clir ynghylch y tebygolrwydd bydd angen cymorth wedi'i dargedu yn y dyfodol** a / neu weithwyr cymdeithasol

/ gweithwyr eraill heb fod yn ddigon clir ynghylch pa fathau o ymatebion a nodir gan wahanol gyflwyniadau plant a theuluoedd. Yn fwy eang, diffyg sylfaen o dystiolaeth glir ar gyfer rhai mathau o ymyrraeth, megis ymyriadau therapiwtig.

*"Sonir llawer am gael mynediad at wasanaethau therapiwtig arbenigol fel y rhai sydd â'r atebion i deuluoedd. Fodd bynnag, does dim digon o dystiolaeth ymchwil ar gyfer y mathau o gymorth sydd orau i weithio ar gyfer anghenion penodol ar gamau penodol."* (Arweinydd Sector)

*"Mae teuluoedd yn cael eu harwain gan weithwyr proffesiynol ynghylch pa wasanaeth y bydden nhw'n elwa ohono ond gallan nhw barhau i gael eu dal rhwng gwahanol farnau proffesiynol yn ogystal â heriau ariannol wrth gael cytundeb ar gyfer y dulliau hyn o fynd ati."* (Arweinydd Sector)

- **Teulu yn symud i ardal ddaearyddol newydd** - **gall hyn achosi oedi** cyn cael help, yn enwedig 3 blynedd ar ôl i fabwysiadu gael ei ffurfioli.
  *"Efallai y bydd yn haws i'r teuluoedd hynny sydd â chysylltiad presennol â gwasanaeth mabwysiadu gysylltu â'r unigolyn hwnnw i drafod ei anghenion cymorth, mae'n fwy anodd i deuluoedd sydd wedi symud i'r ardal ers y mabwysiadu neu lle cafodd y plentyn ei leoli flynyddoedd yn ôl, a bod y mae staff wedi newid."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

Roedd teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn ystyried mai cymorth arbenigol oedd y lleiaf hygyrch. Nodwyd y prif rwystrau i fynediad fel y canlynol:

- **CAMHS yn anodd iawn i gael gafael arno ac iddo restrau aros hir iawn.** Hefyd, dryswch i rieni a gweithwyr mabwysiadu ynghylch a ydy plant mabwysiedig hyd yn oed yn gymwys i gael cymorth CAMHS ac o dan ba amgylchiadau.
  *"Mae'n anodd iawn cyrchu CAMHs i deuluoedd sy'n mabwysiadu gan mai anaml y maen nhw'n derbyn atgyfeiriadau ar gyfer unrhyw faterion ymlyniad ac mae ganddyn nhw restrau aros maith. Ni all mwyafrif y teuluoedd rydyn ni'n gweithio gyda nhw gael gafael ar gymorth gan CAMHS."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

  *"Mae CAMHS a darpariaeth iechyd meddwl i blant yn brin iawn o adnoddau gyda rhestrau aros hir iawn."* (Gweithiwr Mabwysiadu Proffesiynol)

- **Diffyg eglurder ynghylch llwybrau neu brotocolau sy'n ymwneud ag asesiadau arbenigol, megis ar gyfer Anhwylder Sbectrwm Alcohol y Ffetws (FASD)** a / neu anhwylderau niwro-ddatblygiadol eraill, ac amseroedd aros hir i gael asesiad o'r fath.

  *"Does yna ddim systemau clir ar waith i gael asesiadau arbenigol ar gyfer y boblogaeth gyffredinol o blant, yn aml mae'r amseroedd aros yn hir iawn, mae negeseuon cymysg gan amrywiol wasanaethau ar sut i fynd at amrywiol asesiadau er enghraifft ar gyfer FASD a NAS, anawsterau synhwyraidd, materion niwro-ddatblygiadol."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Y cymorth mwy arbenigol angenrheidiol oedd weithiau y mwyaf anodd i'w ganfod sy'n achosi oedi ac yn gyffredinol yn achosi dirywiad mewn amgylchiadau. Mae'n anodd iawn cyrchu pethau fel seibiant, cymorth ymarferol, cymorth ariannol,*

*asesiadau arbenigol (iechyd/niwro-ddatblygiadol/synhwyraidd).”* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

*“Mae diffyg argaeledd ac asesiadau cymhleth yn atal gwasanaethau rhag cael eu darparu mewn modd amserol.”* (Gweithiwr Mabwysiadu Proffesiynol)

- **Y diffyg adnoddau a glustnodwyd ar gyfer cymorth arbenigol, yn enwedig cymorth therapiwtig - gorfod ‘ymladd drosto’ ym mhob achos.** Soniodd rhai rhieni am ddiffyg llif cyllid clir, fel y Gronfa Cymorth Mabwysiadu yn Lloegr, i ddiwallu anghenion y teuluoedd hyn.

  *“Wrth gwrs, y prif rwystr ydy cyllid ar gyfer cymorth arbenigol parhaus, sydd i mi yn ymddangos yn ad hoc ac yn fympwyol. Rydyn ni'n colli allan yng Nghymru o gymharu â Lloegr sydd â Chronfa Cymorth Mabwysiadu bwrpasol.”* (Rhiant Mabwysiadol)

### 3.4.4.1. Hygyrchedd cymorth yn ystod y Pandemig COVID-19

Dim ond 8% o'r cymorth targed neu arbenigol a ddisgrifiwyd gan rieni a ymatebodd i'r arolwg ar-lein a oedd wedi cael ei gyrchu'n llawn ganddyn nhw yn ystod y cyfnod y cyfyngiadau COVID. Roedd pumed ran (22%) o deuluoedd wedi cyrchu peth o'r cymorth a gynlluniwyd iddyn nhw, ond doedd y mwyafrif (70%) ddim wedi cyrchu unrhyw ran o'u cymorth cynlluniedig yn ystod y cyfnod hwn.

Mae dadansoddiad o'r sylwadau a wnaed gan weithwyr proffesiynol mabwysiadu ac arweinwyr sector o ran yr adran o'r arolwg sy'n ymwneud â darpariaeth ddigonol o gymorth i deuluoedd yn ystod y cyfnod COVID-19 yn awgrymu'r themâu canlynol:

- **Bod rhai addasiadau creadigol iawn wedi’u gwneud,** yn enwedig i gynhyrchu grwpiau cymorth cymheiriaid ar-lein, ‘grwpiau plant mân’, nosweithiau cwis, neu raglenni addysgiadol/hyfforddi, a bod y rhain wedi cael derbyniad da iawn ac wedi gweddu i rai, os nad pob rhiant. Gwelwyd bod rhai, gan gynnwys NVR, 'Life Journey' a 'Nurturing Attachments', yn arbennig o hygyrch ar-lein. Hefyd, rhai agweddau ar hyfforddiant paratoi mabwysiadu.
  *“Rydyn ni wedi gallu cyrraedd cynulleidfa lawer ehangach fel hyn.”* (Gweithiwr Mabwysiadu Proffesiynol)

  *“Rwy’n credu bod argaeledd mwy o adnoddau ar-lein - cyngor, gweminarau a gwybodaeth, wedi bod yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig gan fod rhain ar gael i’w gwylio ar amser cyfleus. Rwy'n credu bod ansawdd adnoddau ar-lein, a'r gweithwyr proffesiynol sydd wedi gallu dod o hyd i'r amser i'w cyflwyno, wedi bod yn dda iawn."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

  *“Yn ystod Covid, mae hyblygrwydd gwasanaethau wedi fy rhyfeddu a gwneud argraff arnaf.”* (Arweinydd Sector)

  *“Mae’n anodd mesur hyn, ond bu’n rhaid i ni symud pob cymorth i'w ddosbarthu ar-lein sy'n siwtio rhai teuluoedd ond nid eraill. Mae presenoldeb mewn grwpiau cymorth a sesiynau hyfforddi wedi cynyddu.”* (Gweithiwr Mabwysiadu Proffesiynol)

*“Ymddengys bod llawer o ddarpariaeth ar-lein ar gyfer cyfleoedd hyfforddi wedi cael derbyniad da.”* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

- **Bu cynnydd mewn rhai mathau o gymorth, er enghraifft hyfforddiant NVR (ar-lein) i ddiwallu'r galw.**
- **Fodd bynnag, mae cyfyngiadau i allu addasu'r holl gymorth** i'w ddarparu o bell, er enghraifft, rhai mathau o gymorth therapiwtig (fel therapi chwarae i blant iau) neu waith profiadau bywyd.

*“Rydyn ni wedi ceisio addasu gyda galwadau fideo ond mae’n well gan deuluoedd a phobl ifanc ymweliadau, yn enwedig ar gyfer sgyrsiau profiadau bywyd.”* (Gweithiwr Mabwysiadu Proffesiynol)

- **Bu problem gydag argaeledd gofal seibiant / seibiannau byr ar gyfer plant mabwysiedig ag anghenion ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn.**

*“Dydy teuluoedd lle mae plant wedi cael lefelau uchel o anghenion ychwanegol, AAA er enghraifft neu ofal seibiant rheolaidd, ddim wedi gallu cyrchu hyn ac mae hyn wedi rhoi straen ychwanegol ar y teuluoedd hynny.” (Arweinydd Sector)*

- **Mae wedi bod yn anodd cael ystod o gymorth arall a allai fod ar gael mewn cyfnodau mwy arferol, er enghraifft cymorth addysg neu gymorth iechyd.**

*“.. mae llawer o wasanaethau a gweithgareddau cymorth allanol wedi dod i stop neu leihau ac mae hyn wedi effeithio ar sefydlogrwydd a gwytnwch teuluol. Hefyd mae popeth wedi arafu yn ystod Covid a dydy asesiadau ar gyfer gwasanaethau iechyd a seicolegol arbenigol ddim wedi bod cystal ag y gallai fod.”* (Gweithiwr Mabwysiadu Proffesiynol)

- **Mae'r cyfnod hwn wedi gweld tarfu sylweddol ar gyswllt a theulu biolegol.**
  “Mae COVID wedi tarfu’n andwyol ar gyswllt â theuluoedd biolegol oherwydd bod y gwasanaethau plant sy’n trefnu wedi canslo neu ddim ar gael i gwrdd neu siarad â mabwysiadwyr a phlant mabwysiedig. Allai neb fod wedi rhagweld hyn. Ond oherwydd bod dealltwriaeth uwch o bwysigrwydd cyswllt teulu biolegol a hanes, mae yna bellach ddisgwyliad cynyddol am ddarpariaeth.” (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)
- **Teimlad cyffredinol nad ydy rhai teuluoedd mabwysiadol, fel pob teulu, wedi teimlo eu bod nhw'n gallu gofyn am gymorth yn ystod y cyfnod hwn**
  *“Rwy’n credu bod yna deuluoedd, heb os, wedi cael eu colli’n llwyr o ganlyniad i COVID-19 ac nad ydyn nhw wedi derbyn y cymorth angenrheidiol am nifer o resymau - efallai’n teimlo na allan nhw ofyn am help, yn teimlo nad oedd unman i droi ac nad oedd unman yn agored i ofyn am help.”* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

### 3.4.5 Y farchnad ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu

Disgrifiodd arweinwyr sector y farchnad ar gyfer cymorth mabwysiadu fel petai ar hyn o bryd yn bennaf o fewn gwasanaethau a'r timau mabwysiadu rhanbarthol, gyda rhai hefyd yn y sector gwirfoddol. Canfuwyd bod yr olaf yn fwy bregus oherwydd ei faint

cyfyngedig a mynediad mwy cyfyngedig i ffrydiau cyllido o'i gymharu â'r sector statudol ond hefyd ei fod yn rheolaidd yn 'ymladd uwchlaw ei bwysau' o ran effaith. Mae arweinwyr sector yn credu bod cyllid Llywodraeth Cymru wedi helpu ychydig i wella gwytnwch darparwyr y sector gwirfoddol, gyda rhywfaint o gyllid yn mynd yn uniongyrchol atyn nhw.

Mae yna hefyd rai therapyddion annibynnol sy'n darparu capasiti ychwanegol neu feysydd arbenigedd i'r rhanbarthau a thimau cymorth mabwysiadu'r sector gwirfoddol (er enghraifft therapi chwarae). Disgrifir nifer cyfyngedig o ddarparwyr arbenigol (The Family Place yn bennaf, a nodwyd fel canolfan ragoriaeth genedlaethol) nid yn unig yn darparu cymorth mabwysiadu ond hefyd yn cynghori gweithwyr proffesiynol eraill ar raglenni allweddol, megis TESSA.

> *"Ein therapyddion mewnol ydy ein hopsiwn cyntaf ond rydyn ni hefyd yn comisiynu o fannau eraill.. ar gyfer anghenion arbenigol, er enghraifft drama neu therapi celf. Rydyn ni'n tueddu i fod â darparwyr dewisol."* (Arweinydd Sector)

> *"Rydyn ni'n delio ag 80-90% yn fewnol. Os oes angen rhywbeth arall arnon ni, mae'n rhaid i ni fynd yn ôl at yr Awdurdod Lleol. Mae gan rai awdurdodau swm dynodedig ar gyfer cymorth mabwysiadu ac eraill ddim. Mae'n gwneud synnwyr os mai ni sy'n berchen ar y gronfa.. weithiau bydd gorfod mynd yn ôl at yr awdurdod lleol yn gorffen gydag asesiadau dyblyg. Mae rhai awdurdodau lleol yn dda iawn ond mae'n ddiffyg yn y system."* (Arweinydd Sector)

Un pryder bach oedd diffyg cofrestru darparwyr unigol o gymorth (therapiwtig). Disgrifiwyd y farchnad gan y mwyafrif o arweinwyr sector fel un cymysg ond cymharol gyfyngedig o ran ei led. Disgrifiodd rhai cyfweleion pa mor bwysig oedd hi i gynnal marchnad gymysg i ddiwallu gwahanol anghenion teulu a rhoi opsiynau iddyn nhw.

> *"Rydych chi angen cydbwysedd a dewis ar gyfer pobl."* (Arweinydd Sector)

Disgrifiwyd y farchnad fel un sy'n cael ei rheoli i raddau gan NAS a Llywodraeth Cymru (gan eu bod yn rheoli'r sianeli cyllido) ond hefyd gan ranbarthau (yn enwedig y rhai sydd â chyllidebau dirprwyedig ar gyfer pob agwedd ar gymorth mabwysiadu) a/neu awdurdodau lleol sy'n cadw elfen o gyfeiriad strategol dros adnoddau ar lefel leol a rhanbarthol ac sydd, mewn rhai achosion, hefyd yn cadw rheolaeth uniongyrchol dros y gyllideb ar gyfer cymorth arbenigol a'r dewis o gymorth.

Roedd arweinwyr sector o'r farn bod y timau rhanbarthol a'r asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yn cydweithio'n gymharol dda ar hyn o bryd, ac nad oedd angen newid penodol yn y trefniadau cyffredinol.

> *"Dyma lle bu newid seismig yn ystod y 3 blynedd diwethaf. Hyd yn oed cyn Covid, roedd pobl yn dod at ei gilydd ac yn cydweithio'n well a chydag agwedd well. Erbyn hyn mae yna rai meddylwyr blaengar iawn yn y rhanbarthau, pobl sy'n arloesol iawn."* (Arweinydd sector)

Er na ofynnwyd i gyfweleion yn uniongyrchol am y pwynt hwn, mynegwyd peth brwdfrydedd dros fecanwaith cyllido fel yr ASF yn Lloegr, gyda'i botensial i gynhyrchu marchnad fwy amrywiol ac o bosibl marchnad fwy ar gyfer y gwasanaethau cymorth mabwysiadu a ddarperir gan y sector preifat a gwirfoddol.

### 3.4.6 Barn rhieni, gweithwyr proffesiynol ac arweinyddion sector am y graddau y mae gwasanaethau wedi gwella yn ystod oes y Fframwaith Cymorth Mabwysiadu (yn ystod y 2-3 blynedd diwethaf)

O'r rhai a fynegodd farn (ac, i rai, roedd hyn yn anodd oherwydd nad oedden nhw wedi bod angen gwasanaethau neu eu bod yng nghamau cynnar mabwysiadu), roedd 57% o'r rhieni a gwblhaodd yr arolwg o'r farn bod gwasanaethau cymorth mabwysiadu wedi gwella yn y 2 i 3 blynedd ddiwethaf. Mynegodd 33% farn nad oedden nhw wedi gwella na gwaethygu. Dim ond 10% oedd yn credu bod gwasanaethau ar y cyfan yn waeth.

Yn y blwch testun ar gyfer yr atebion hyn, bu rhieni yn disgrifio rhai o'r pethau oedden nhw wedi sylw arnyn nhw yn ystod y cyfnod hwn:

> *"Dair blynedd yn ôl doedd neb yn gwrando arnon ni, nawr maen nhw'n gwrando."* (Rhiant Mabwysiadol)
>
> *"Rwy'n credu ei fod wedi gwella oherwydd ei fod yn cael llawer mwy o sylw yn y penawdau, gyda'r ymwybyddiaeth o effaith trawma cynnar ac ati."* (Rhiant Mabwysiadol)
>
> *"Mae pethau'n symud i'r cyfeiriad cywir ond yn araf iawn a dydyn ni ddim wedi'u gweithredu'n llawn."*
>
> *"Mae wedi gwella ers i'r awdurdodau uno oherwydd cyn hyn ni chynigiwyd unrhyw gymorth ôl-fabwysiadu inni. Nawr, dwi'n credu fod ganddyn nhw gyllideb o'r gronfa cymorth mabwysiadu." (Rhiant Mabwysiadol)*
>
> *"TESSA, sydd ar gael nawr." (Rhiant Mabwysiadol)*
>
> *"Mwy o sesiynau hyfforddi/trafod ar gael." (Rhiant Mabwysiadol)*

Yn yr un modd, rhagwelodd cyfweliadau arweinyddion sector, ar y cyfan, naratif optimistaidd gofalus sy'n disgrifio'r gwasanaethau fel eu bod 'ar ddechrau'r daith i wella'.

> *"Rwy'n credu bod yr NAS wedi bod yn welliant gwirioneddol ar sut oedd pethau ynghynt. Mwy o gysondeb ledled Cymru, mwy o gyllid i gymorth mabwysiadu... Rwy'n gweld rhywfaint o optimistiaeth."* (Arweinydd Sector)
>
> *"Rydyn ni'n nesáu at y nod ond mae gennym ni gryn ffordd i fynd o hyd ac mae'n rhaid i ni barhau â'r siwrnai honno (o welliant). Mae'r Fframwaith wedi helpu, mae'r arian wedi helpu, mae'r berthynas well rhwng y sector gwirfoddol a statudol wedi helpu. Ond mae yna welliannau i'w gwneud o hyd, er enghraifft gwaith ar y daith ansawdd bywyd a gweithio gyda phobl ifanc yn eu harddegau, er enghraifft."* (Arweinydd Sector)
>
> *"Rydyn ni ar siwrnai bositif ond heb fod wedi llawn gyrraedd hyd yn hyn."* (Arweinydd Sector)

Roedd y rhai gyfwelwyd o'r farn bod y daith yn fwy datblygedig o'i chymharu â'r cynnig o gymorth wedi'i dargedu neu gymorth arbenigol i deuluoedd, er bod rhai arwyddion cynnar o lwyddiant mewn perthynas â'r olaf.

> *“Mae pethau wedi gwella’n fawr. Mae mwy o wasanaethau rhanbarthol gwell gyda therapyddion a gwaith profiadau bywyd, thera-chwarae ac ati.”* (Arweinydd Sector)

> *“Yn y gorffennol, daeth pobl yn ôl pan oedd pethau'n mynd yn wir o chwith. Rydyn ni wedi symud i sefyllfa well o lawer lle rydyn ni'n cydnabod bod angen mwy o gymorth arnyn nhw.”* (Arweinydd Sector)

Roedd yna ymdeimlad amlwg o dristáu na fyddai rhai o'r datblygiadau mwy diweddar wedi gallu bod o help yn ddigon cynnar i rai o'r teuluoedd mabwysiadol a oedd wedi profi anawsterau yn y blynyddoedd a fu.

> *“Mae'r newid yn y cymorth mabwysiadu yn anodd i'w ddirnad erbyn hyn. Fy unig dristwch ydy y bydd pobl yn chwilio am newidiadau ar unwaith pan na fyddwn yn gweld y manteision am o leiaf 3 i 5 mlynedd. Rydyn ni'n gweithio gyda rhai teuluoedd nawr lle collwyd cyfleoedd yn gynharach. Mae rhai yn cael cymorth ynghynt erbyn hyn.”* (Arweinydd Sector)

Roedd gweithwyr proffesiynol mabwysiadu yn fwy cadarnhaol ynglŷn â'r gwelliannau yn ystod y cyfnod hwn. Roedd 82% o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ar-lein ar gyfer y gwerthusiad hwn yn ystyried bod gwasanaethau wedi 'gwella tipyn’ (58%) hyd at fod wedi 'gwella'n fawr iawn' (24%) yn ystod y cyfnod 2 i 3 blynedd diweddaraf.

#### 3.4.6.1. Effeithiau buddsoddi(adau)

Cydnabu llawer o weithwyr proffesiynol ac arweinwyr sector y bu cynnydd yn y buddsoddi mewn gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig ar ffurf cyllid wedi'i glustnodi gan Lywodraeth Cymru ond hefyd, mewn rhai achosion, o'r Gronfa Gofal Integredig a / neu gan rai rhanbarthau eu hunain.

Roedd 84% o weithwyr proffesiynol mabwysiadu o'r farn bod buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn gwasanaethau cymorth mabwysiadu wedi cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn ar argaeledd neu ansawdd gwasanaethau cymorth mabwysiadu, ac roedd 98% o'r farn bod y buddsoddiad wedi'i ddefnyddio'n dda, er enghraifft:

- I ddatblygu cynigion o wasanaethau newydd i deuluoedd.
- I ddatblygu cynigion cynharach i deuluoedd.

> *“Galluogi gwell arfer yn gynnar ar y siwrnai fabwysiadu er mwyn lleihau'r angen am gymorth mabwysiadu'n ddiweddarach.”* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

- Er mwyn galluogi creu swyddi newydd o fewn y gwasanaeth rhanbarthol.
- Galluogi hyfforddiant ar gyfer timau (cymorth) mabwysiadu yn y rhanbarthau, er mwyn galluogi mwy o gynigion o gymorth i deuluoedd ar sail tystiolaeth neu rai cydweithredol.

*“Newidiadau sy'n golygu perthynas waith fwy cydweithredol, ddeinamig rhwng rhieni mabwysiadol a'r asiantaethau.”* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

- Er mwyn galluogi cynhyrchu deunyddiau cenedlaethol, er enghraifft y ‘canllawiau arfer da’ a ragwelir fydd yn creu fframwaith ar gyfer arferion gorau ledled Cymru, a hefyd cyfres o bodlediadau i bobl sy’n ystyried dod yn rhiant mabwysiadol.

Dyma oedd gweithwyr proffesiynol ac arweinwyr sector yn ystyried oedd y ddau brif faes gwella a ddeilliodd o gyfuniad o fuddsoddiad cynyddol a'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu yn ystod y 18 mis diwethaf:

- **Y Rhaglen 'TESSA'**

  *“Mae'r adborth am TESSA wedi bod yn dda iawn gan deuluoedd a staff. Mae pobl yn hoff iawn o'r rhiant fentor / partner a hefyd yr ymgynghoriad cychwynnol gyda 'seic'.”* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

  *“Dydyn ni ddim wedi cael unrhyw beth o’r gwerthusiad eto, ond mae pobl yn gadarnhaol iawn yn ei gylch, gweithwyr a theuluoedd.”* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

- **Cynyddu mynediad at gymorth seicolegydd / therapiwtig** trwy'r timau rhanbarthol. Ymddengys bod y math a graddfa’r cynnydd yn y mynediad wedi amrywio o ardal i ardal, er enghraifft, mewn rhai meysydd mae'n cynrychioli un therapydd ychwanegol yn unig, tra mewn eraill mae gwasanaeth ehangach dan arweiniad seicoleg wedi’i sefydlu: ‘tîm therapi ar gyfer mabwysiadu'n unig’. Mewn un maes, ariennir yr agwedd hon o'r tîm gan y Bwrdd Iechyd lleol.

Ymddengys bod yr amrywiaeth o ran maint y datblygiadau hyn wedi dibynnu ar y graddau y mae dyraniad llawn cyllid Llywodraeth Cymru wedi mynd yn uniongyrchol i'r tîm mabwysiadu rhanbarthol neu a ydy peth ohono wedi mynd i bob un o'r awdurdodau lleol dan sylw. Er enghraifft, mewn rhai meysydd mae'n amlwg bod cyllidebau ar gyfer rhai mathau o therapi wedi'u targedu neu rai arbenigol, fel gwaith therapi galwedigaethol (integreiddio synhwyraidd), CBT i blant, therapi chwarae, DDP a therapi drama, yn cael eu dal gan yr awdurdodau lleol ac roedd angen gwneud cais am y rhain fesul achos. Mae'n rhy gynnar i ddweud pa fodel sy'n gweithio orau ond, yn ddealladwy, disgrifiodd timau mabwysiadu gydag arbenigedd mewnol eu bod yn fwy hyderus bod ganddyn nhw'r gwasanaethau cywir i ddiwallu anghenion eu rhanbarth. Lle roedd gan dimau cymorth mabwysiadu rhanbarthol wasanaeth therapi mewnol llawnach, roedd y cynnig yn aml yn cynnwys nid yn unig waith uniongyrchol gyda theuluoedd ond hefyd gymorth ‘arddull ymgynghori’ gan seicolegwyr arbenigol i bawb sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda theuluoedd mabwysiadu.

Mewn rhai rhanbarthau, roedd aelodau presennol y tîm mabwysiadu (gweithwyr cymdeithasol yn bennaf) wedi'u hyfforddi i wneud mwy o waith therapiwtig, er enghraifft DDP, thera-chwarae, rhianta therapiwtig a gwaith profiadau bywyd therapiwtig.

> *“Mae gwybodaeth yn cael ei lledaenu drwy’r tîm rhanbarthol oddi wrth seicolegwyr i wneud gwell synnwyr o anawsterau plentyn.”* (Arweinydd Sector)

> *"Mae cael seicolegydd a staff sydd â sylfaen wybodaeth dda a hyder yn golygu bod yna fwy o sgyrsiau yn digwydd nawr na'n bod yn ymladd ein gilydd."* (Arweinydd Sector)

Pwysleisiodd rhai cyfweleion mai dim ond dechrau deall y mae'r sector ar y ffordd orau i harneisio a defnyddio mathau mwy therapiwtig o gymorth a bod hwn yn faes allweddol o ddatblygiad yn y dyfodol (er mwyn deall yn well beth sy'n gweithio ac o dan ba amgylchiadau). Ymhlith y meysydd gwella eraill y soniwyd amdanyn nhw roedd:

- Y 'Connected Groups' a gefnogir gan Adoption UK Cymru, yn ystyried sefydlu grwpiau ieuenctid mabwysiedig (er bod Covid wedi dod â llawer o'r gwaith i ben).
  *"Mae'n bwydo i'r gymuned fabwysiadu ond bu'n rhaid i ni ymuno o hirbell yn ddiweddar. Mae hefyd yn cysylltu'r rhieni, maen nhw'n dechrau siarad."* (Arweinydd Sector)
- Cynnydd bach yn y gwaith gydag ysgolion (i'w helpu nhw gefnogi plant mabwysiedig mewn dull sy'n seiliedig ar drawma). Priodolir y newid hwn yn bennaf i waith a arweiniwyd gan Adoption UK ledled Cymru, ond mewn dau ranbarth o leiaf galluogodd y buddsoddiad ychwanegol gymorth ymroddedig newydd neu gynyddol i blant yng nghyd-destun eu hysgol. Mewn un rhanbarth, mae cynllun 'ymestyn yn ehangach' hefyd wedi'i gynllunio i gefnogi cyfnod pontio'r plant i fod yn oedolion.
- Trwy hyfforddiant, gwella dealltwriaeth o fewn timau cymorth mabwysiadu am ganologrwydd rhianta therapiwtig (yn gynnar yn y siwrnai fabwysiadu) a thechnegau fel Gwrthiant Di-drais (NVR)i rieni sydd â phlant neu bobl ifanc sy'n herio ymddygiad.

Roedd llawer hefyd yn dweud bod cael y buddsoddiad hwn wedi helpu i godi proffil mabwysiadu ac anghenion teuluoedd sy'n mabwysiadu mewn ffordd gadarnhaol yn ystod cyfnod y buddsoddi.

> *"Proffil uwch ac ymwybyddiaeth o gymorth mabwysiadu a theuluoedd sy'n ceisio cymorth yn gynharach."* (Arweinydd Sector)
>
> *"Codi ymwybyddiaeth o fabwysiadu ac amrywiaeth teuluoedd sy'n mabwysiadu yn ogystal â manteision cymorth hygyrch."* (Arweinydd Sector)
>
> *"Gwell syniadaeth am y llu o asiantaethau sy'n diwallu anghenion plant - pwysigrwydd dull a rennir rhwng yr ysgolion – y plant – y rhieni a gwasanaethau eraill. Mwy o ymwybyddiaeth o effaith trawma a'i effaith ar y plentyn / y teulu."* (Arweinydd Sector)

Awgrymodd gweithwyr proffesiynol a ymatebodd i'r arolwg ei bod yn rhy gynnar, ar y cyfan, efallai i weld mantais lawn/manteision llawn y buddsoddiad, yn enwedig yng nghyd-destun Pandemig Covid-19 a / neu lle roedd timau wedi cymryd peth amser i ddatblygu, ond eu bod yn rhagweld 'gwahaniaeth sylweddol' i argaeledd ac ansawdd y cymorth i deuluoedd sy'n mabwysiadu yn y dyfodol.

Disgrifiodd llawer o arweinwyr sector sut roedden nhw'n credu bod cyllid Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried bod hynny wedi cael ei ddefnyddio'n dda (yn bennaf trwy greu swyddi gwaith cymdeithasol newydd a hyfforddiant ar gyfer y timau, cymorth seicolegol penodol, ond hefyd ar gyfer datblygiadau newydd fel TESSA (mae gan ranbarthau

gydlynydd yr un ar gyfer hyn), Gwasanaeth Personau Ifanc Cysylltiedig, Mabwysiadu Gyda'n Gilydd a chymorth rieni biolegol) ac roedd yn dechrau cael effaith gadarnhaol iawn.

> *"Gwelsom dimau rhanbarthol yn ehangu, gwasanaethau newydd fel TESSA."* (Arweinydd Sector)

> *"Yn bendant, heb yr arian ychwanegol, fydden ni ddim wedi gallu gwneud yr hyn rydyn ni wedi'i wneud."* (Arweinydd Sector)

> *"Mae arian Llywodraeth Cymru wedi ein helpu i roi'r gorau i 'ddiffodd tanau' a datblygu ein gwasanaethau i ddiwallu anghenion."* (Arweinydd Sector)

> *"Rhaid i ni sicrhau ei fod yn ychwanegu gwerth. Rwy'n credu y bydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr."* (Arweinydd Sector)

> *"Roedd gan Gyfarwyddwr NAS waith anodd i'n cael ni i nofio i'r un cyfeiriad. Cytunwyd ar baramedrau clir ynghylch gwariant ac adrodd. Rydyn ni wedi gwneud yn dda – gwaith cyswllt, TESSA a chofio am yr hyn sy'n cael ei ystyried yn dda."* (Arweinydd Sector)

Roedd rhai o'r farn y gallai'r cyllid gael ei ddefnyddio'n dda oherwydd bod y 'gwaith' cefndir eisoes wedi'i wneud (drwy'r Fframwaith).

> *"Roedden ni'n gallu gwneud hyn gan fod gennyn ni syniad gwirioneddol gydlynol o'r hyn roedden ni ei eisiau, drwy'r Fframwaith. Pe byddem wedi cael cyllid cyn hynny, dydw i ddim yn credu y byddai wedi cael cystal defnydd. Mae cael cynllun cadarn y cytunwyd arno cyn rhoi arian yn hynod ddefnyddiol."* (Arweinydd Sector)

I rai, y cyllid hefyd oedd yr 'ymdrech' olaf tuag at ffurfio tîm cymorth mabwysiadu rhanbarthol mwy cydlynol a bod hyn yn ddatblygiad cadarnhaol iawn:

> *"Mae 100% yn well. Cael pobl wedi ymroi i weithio gyda'r rhieni."* (Arweinydd Sector)

Disgrifiodd arweinwyr sector hefyd sut roedd bodolaeth y cyllid wedi helpu'n gadarnhaol i godi proffil (yr angen am) gymorth mabwysiadu yn genedlaethol:

> *"Mae wedi dechrau creu'r gymuned fabwysiadu honno fel bod mabwysiadwyr yn gwybod bod ganddyn nhw gymorth cymheiriaid. Mae wedi codi'r proffil bod gwasanaeth yno i'w cefnogi."* (Arweinydd Sector)

Roedd mwyafrif arweinwyr y sector hefyd yn sôn am freuder yr adnodd hwn ac y byddai'n well ei gael am gyfnod hirach o amser, yn enwedig gan ei fod wedi codi disgwyliadau mabwysiadwyr ynghylch argaeledd cymorth nawr ac i'r dyfodol:

> *"Mae mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth wedi arwain i gynnydd yn y galw."* (Arweinydd Sector)

*"Efallai y gwelwn, unwaith y bydd mwy o ymwybyddiaeth, na fydd pethau'n ddigonol. Y risg ydy ein bod yn creu disgwyliadau ac yna bydd y cyllid grant yn dod i ben."* (Arweinydd Sector)

*"Wrth gwrs, dim ond cyllid o flwyddyn i flwyddyn ydy hyn, felly, hyd yn oed nawr, mae ein staff mewn swyddi dros dro tan Mawrth 31[ain]. Mae'n anodd iawn ac yn effeithio ar sut mae pobl yn teimlo ac yn gweithio."* (Arweinydd Sector)

*"Fy mhryder i ydy ein bod wedi cael y profiad o allu darparu cymorth. Rydyn ni'n codi pobl ac yna'n eu gollwng yr eildro. Mae angen iddo barhau neu gael ei wella."* (Arweinydd Sector)

*"Rwy'n credu bod cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i wario'n dda ond dydy ni ddim am ei weld yn cael ei dynnu'n ôl. Byddai mor ofnadwy gorfod ei ddatgymalu."* (Arweinydd Sector)

### 3.4.6.2. Effaith y Fframwaith Cymorth Mabwysiadu

Ni ofynnwyd i rieni am eu barn am effaith y Fframwaith Cymorth Mabwysiadu, er bod rhai yn ymwybodol ohono. Gofynnwyd i arweinwyr sector yn fwy penodol am hyn.

Roedden nhw o'r farn bod y Fframwaith wedi bod yn ddefnyddiol wrth helpu cymorth mabwysiadu i ddatblygu a gwella yng Nghymru dros y 3 blynedd diwethaf, yn enwedig mewn perthynas â'r 'cynnig craidd'. Roedden nhw'n aml yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol yn y dyfodol hefyd, i helpu i siapio cymorth mabwysiadu ymhellach wrth symud ymlaen.

*"Mae'r ASF wedi bod yn ddefnyddiol. Mae'n nodi bod hwn yn faes mor bwysig a bod angen i ni edrych ar yr holl agweddau. Felly, rydyn ni'n iawn i siarad am wasanaethau cyffredinol yn ogystal â rhai wedi'u targedu a'r rhai arbenigol.*" (Arweinydd Sector)

*"Mae'n ddefnyddiol cael fframwaith gweledol ac mae'n cydnabod i fabwysiadwyr ein bod ni'n ei gymryd o ddifrif."* (Arweinydd Sector)

*"Mae'r Fframwaith wedi rhoi iaith inni. Mae wedi gwneud i'r holl asiantaethau oedi a meddwl ac ystyried... (rydyn ni) mewn sefyllfa dda iawn yng Nghymru nawr i gael dull cymorth cynnar unedig."* (Arweinydd Sector)

*"Mwy o gysondeb ledled Cymru, mwy o arian yn mynd i gymorth mabwysiadu. Gwell, ar y cyfan, cael y Fframwaith yn hytrach na'r Gronfa (Cymorth Mabwysiadu). Mantais Cronfa ydy ei bod yn fwy tryloyw i deuluoedd, ond gall yr arian ddod i ben. Efallai na fydd y bobl sy'n cyrchu cymorth wedi eu sicrhau o ran ansawdd nac yn seiliedig ar dystiolaeth."* (Arweinydd Sector)

*"Mae gweithwyr cymdeithasol yn ymwybodol ohono, mae pobl yn siarad amdano."* (Arweinydd Sector)

Roedd lleiafrif o arweinwyr y sector o'r farn bod y Fframwaith yn ddim ond un o nifer o ffactorau a allai ddylanwadu ac a oedd wedi cael dylanwad, fel y cyllid cenedlaethol newydd neu fod yn rhan o wasanaeth cenedlaethol. Gallai awdurdodau lleol o hyd

benderfynu cyllido eu gwasanaeth cymorth mabwysiadu i fod ar wahanol lefelau, gallai RPB gymryd safbwyntiau gwahanol am eu blaenoriaethau. Roedd ystod o ffactorau ar waith. Fodd bynnag, roedd hyd yn oed y cyfweleion hyn yn cydnabod, heb y Fframwaith, efallai na fyddai unrhyw arian wedi bod a'i fod yn darparu rhywfaint o ddisgwyliadau cenedlaethol.

> *"Mae gen i farn gymysg… ond mae wedi rhoi glasbrint inni symud ymlaen. Ein cynllun ni ydy e. Mae rhanbarthau yn dechrau hyrwyddo eu cynigion drwyddo. Yn y dyfodol, gallai ein helpu gyda recriwtio a matsio. Dyna gam nesaf y daith."* (Arweinydd Sector)

Yn ogystal â gwella gwasanaethau cymorth mabwysiadu, roedd rhai cyfweleion o'r farn bod y Fframwaith wedi cael effaith ehangach ar feysydd pwysig eraill, megis:

- Datblygu asesiadau cymorth mabwysiadu a'r adroddiadau.

  *"Mae'r rhain gymaint yn well nag yr oedden nhw."* (Arweinydd Sector)
  *"Cynlluniau cymorth mabwysiadu diweddar... rydych chi'n gweld bod llawer mwy o feddwl y tu ôl iddyn nhw."* (Arweinydd Sector)

- Darparu strwythur ar gyfer datblygu canllawiau arferion gorau.

  *"Rydyn ni wedi datblygu rhain gyda'n gilydd... maen nhw'n ardderchog."* (Arweinydd Sector)

- Hyrwyddo cydweithredu rhwng y rhanbarthau a'r sector gwirfoddol.

  *"Mae'r Fframwaith wedi bod yn ased gwych. Mae wedi bod yn sail i ddatblygiad gwasanaethau. Mae hefyd wedi helpu gyda chydweithio. Rwyf wedi gweld gwahaniaeth gwirioneddol yn y berthynas gwaith rhwng y rhanbarthau a'r sector gwirfoddol."* (Arweinydd Sector)

- Ymwybyddiaeth gynyddol (o'r angen am) gymorth mabwysiadu.

  *"... tra doedd yna fawr neb yn ei drafod yn y gorffennol. Mae'n teimlo'n llai o Wasanaeth Sinderela nag y bu."* (Arweinydd Sector)

  *"Mae cymorth mabwysiadu wedi'i broffilio - mewn ffordd hollol wahanol. Roedd pobl bob amser yn siarad am gymorth mabwysiadu, ond roedd bob amser yn drafodaeth negyddol, yn sôn nad oedd ar gael."* (Arweinydd Sector)

### 3.5 I ba raddau y mae gwasanaethau cymorth mabwysiadu wedi'u cydgysylltu'n dda?

Roedd llai na hanner (48%) y rhieni a ymatebodd i'r arolwg o'r farn bod gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn cydgysylltu'n dda, gan awgrymu bod yna le i wella yn y maes hwn o'u safbwynt nhw.

Mynegodd gweithwyr proffesiynol a ymatebodd i'r arolwg farn bod gwasanaethau sy'n cefnogi anghenion cyffredinol hyd at anghenion wedi'u targedu yn cael eu cydgysylltu'n

well ar hyn o bryd o'u cymharu â'r rhai y mae angen iddyn nhw weithio gyda'i gilydd pan fydd gan deuluoedd anghenion mwy arbenigol.

Dywedodd rhai o'r gweithwyr proffesiynol mabwysiadu bod hwn yn faes lle cafwyd gwelliannau yn ystod y blynyddoedd diweddar.

> *"Mae hyn yn gwella ac wedi gwella'n ddramatig dros y 12 mis diwethaf ers i'r arian buddsoddi gan LIC fod ar gael. Mae yna'n dal i fod ardaloedd o Gymru lle nad ydy hyn yn gweithio'n esmwyth ond mae pethau'n mynd i'r cyfeiriad cywir ac yn llawer iawn gwell nag yr oedden nhw ychydig flynyddoedd yn ôl."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

Roedd eraill o'r farn bod problemau o hyd yn y cydgysylltiad rhwng gwasanaethau mabwysiadu arbenigol (fel y rhai a ddarperir trwy'r timau mabwysiadu rhanbarthol a 'VAAs' a'r gwasanaethau iechyd ac addysg prif ffrwd), gyda'r olaf yn credu nad oedd ganddyn nhw hyd yn oed nawr ddull o fynd ati sy'n seiliedig ar drawma.

> *"Y cydgysylltiad rydw i'n ei weld ydy'r un lle ceir y gwasanaeth trwy'r asiantaethau mabwysiadu. Mae'n ymddangos bod llai o gydlynu lle mae problemau yn yr ysgol neu gyda'r gwasanaeth iechyd, lle nad ydy'r dull o fynd ati o bosibl yn seiliedig ar drawma. Mae gwir angen am wasanaethau mwy cyfannol e.e. plentyn i gael asesiad synhwyraidd yn ogystal ag ystyried mewnbwn therapiwtig."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

## 3.6 I ba raddau y mae ysgolion neu golegau'n ymwybodol o anghenion penodol plant mabwysiedig?

Mae llenyddiaeth ddiweddar wedi cyfeirio at bwysigrwydd bod ysgolion a cholegau yn 'ymwybodol o fabwysiadu'. Mynegir hyn gan rieni, plant a gweithwyr proffesiynol mewn ystod o astudiaethau yn y DU (Llywodraeth Cymru 2016; Selwyn 2017; King et al. 2017; Adoption UK 2017; Yellow Kite 2020; TouchBase 2020). Mae ymwybyddiaeth fabwysiadu yn y sector addysg yn rhychwantu nifer o feysydd gan gynnwys: dealltwriaeth ehangach o sut mae *pob* plentyn yn dysgu ac yn ffynnu yn yr ysgol; gwybodaeth, cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r anghenion posibl a allai fod gan blant mabwysiedig; a deall ac ymateb yn briodol i strés posibl y plant mabwysiedig a all ymddangos yn yr ystafell ddosbarth.

Canfu astudiaeth ddiweddar gan Sefydliad Tavistock (King et al. 2017) fod teuluoedd a oedd yn teimlo bod ysgolion yn eu deall yn ystyried eu bod yn cael cymorth mewn ffordd sylweddol. I'r gwrthwyneb, roedd rhieni a oedd yn teimlo heb gymorth yn aml naill ai'n newid ysgolion i'w plant neu'n dod yn agos at newid ysgolion.

### 3.6.1 Barn y rhieni mabwysiadol yn yr astudiaeth hon

Ac eithrio'r rhai nad oedden nhw'n gwybod (y rhai â phlant oed cyn-ysgol yn bennaf), roedd dros hanner y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg ar-lein (tua 57%) o'r farn nad oes gan ysgolion ymwybyddiaeth dda neu bod ganddyn nhw ymwybyddiaeth wael o anghenion penodol plant mabwysiedig.

**Tabl 16: Y canran o rieni gwblhaodd yr arolwg yn ôl lefel yr oedden nhw'n gredu oedd ymwybyddiaeth yr ysgolion am fabwysiadu**

| Yr Ymateb | % o'r ymatebwyr |
|---|---|
| Ymwybyddiaeth dda iawn | 12.7% |
| Ymwybyddiaeth eitha da | 30.7% |
| Ymwybyddiaeth heb fod yn dda iawn | 33.8% |
| Ymwybyddiaeth wael iawn | 22.8% |

Sylwer: Nifer y rhieni atebodd y cwestiwn hwn = 261

Fodd bynnag, credai 58% o'r rhieni hyn bod lefelau ymwybyddiaeth yr ysgolion wedi bod yn gwella.

### 3.6.2 Barn y gweithwyr proffesiynol mabwysiadu yn yr astudiaeth hon

Roedd cyfran fwy o weithwyr proffesiynol a gymerodd ran mewn arolwg ar-lein ar gyfer y gwerthusiad hwn (74%) yn ystyried bod ymwybyddiaeth ysgolion o fabwysiadu yn amrywio o 'ddim yn dda iawn' hyd at 'ddim o gwbl'. Fodd bynnag, roedd 49% o'r farn bod gwelliannau wedi'u gwneud yn ystod y 3 blynedd diwethaf.

Roedd gweithwyr proffesiynol mabwysiadu yn dweud, er bod plant mabwysiedig yn aml yn cael yr anhawster mwyaf gydag ac o fewn yr ysgol, bod yr ymwybyddiaeth a chymorth neu ymatebion gwirioneddol i ddiwallu anghenion plant mabwysiedig yn dal i fod yn 'anghyson'.

> *"Rwy'n credu ei fod yn amrywio'n aruthrol nid yn unig o ysgol i ysgol ond o athro i athro! Rwy'n credu mai dim ond ychydig iawn o ysgolion yn gyffredinol sy'n ymwybodol o fabwysiadu neu sydd â dull o fynd ati a dealltwriaeth sy'n seiliedig ar drawma. Mae rhai plant yn cael y profiad o athrawon unigol da am gyfnod os ydyn nhw'n lwcus, ond yn aml dydy pethau ddim yn mynd ymhellach na hynny.*" (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

> *"Rwy'n credu bod hyn yn amrywio o ysgol i ysgol ac mae diffyg cysondeb. Gan fod athrawon dan bwysau aruthrol i ddysgu, cynllunio, marcio a chyflwyno data a thystiolaeth, nid cefnogi plant mabwysiedig 'ydy fy mlaenoriaeth i'."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

Mae'r meysydd allweddol yr ystyrir eu bod yn ddiffygiol o ran dealltwriaeth ysgolion ac athrawon yn ymwneud ag ymlyniad a thrawma cynnar a'u heffaith ar ddysg ac ymddygiad plentyn. Yn ogystal, credir weithiau bod ymagweddau ysgol gyfan at ymddygiad (heriol) yn 'gosbol i raddau helaeth' er anfantais i'r plant sydd â'r anghenion hyn.

> *"Mae pwyslais o hyd ar ymddygiad a'i reolaeth, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr anghenion sylfaenol, sy'n gyrru'r ymddygiad hwnnw. O dan strés, mae cydweithwyr ym maes addysg yn dal i droi at ddull rheoli ymddygiad yn seiliedig ar wobrwyo a chanlyniadau mympwyol, sydd, ar y cyfan, yn aneffeithiol."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

> *"Gall ysgolion cyfun fod yn llai empathig a gyda llai o ddealltwriaeth o effaith barhaus trawma ar ddatblygiad corfforol ac emosiynol plentyn pan fydd yn cyrraedd y cam allweddol hwn. Fe'u hystyrir yn fwy cyfrifol, yn hŷn."* (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

Fodd bynnag, credwyd bod peth cynnydd wedi'i wneud gan gyfuniad o NAS Central, y timau mabwysiadu rhanbarthol ac Adoption UK gyda'i gilydd yn gweithio ochr yn ochr ag ysgolion.

> *"Mae hyfforddiant / ymlyniad / ACEs ar sail trawma wedi helpu staff ysgol i ddod yn fwy ymwybodol o'r trawma y byddai plant mabwysiedig wedi bod drwyddo. Bydd hyn yn helpu staff yr ysgol i ddarparu strategaethau cefnogol ac yn meithrin y plant." (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)*

### 3.6.3 Ym mhle bu'r gwelliannau hyd yma?

Yn aml, ond nid bob amser, rhieni oedd â phlant oed cynradd, ac oedd wedi cwblhau'r arolwg neu a gymerodd ran mewn cyfweliad, oedd yn mynegi mwy o hyder yn ymwybyddiaeth ysgolion a'u bod wedi cael profiadau gwell yn ddiweddar.

> *"Mae ein hysgol gynradd leol fach wedi bod yn hynod agored i gyfathrebu a diwallu anghenion ein plentyn."* (Rhiant Mabwysiadol)

> *"Roedd yr ysgol gynradd yn well ar gyfer ei anghenion ond nawr i fod e mewn ysgol gyfun dydyn nhw ddim wir yn gwybod llawer amdano."* (Rhiant Mabwysiadol)

Trwy eu sylwadau yn yr arolwg, rhoddodd rhieni hefyd fewnwelediad i'r ffactorau yr oedden nhw'n gredu oedd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ysgolion a'r driniaeth gadarnhaol i blant mabwysiedig, gan gynnwys y canlynol:

- **Staff addysgu yn mynychu hyfforddiant ar effaith trawma plentyndod cynnar ac ymlyniad cynnar sydd wedi'i effeithio'n andwyol**.

  *"Mae ymwybyddiaeth yn bendant yn gwella, ac mae'r ysgol wedi cael llawer o hyfforddiant. Mae'n gwneud gwahaniaeth mawr."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Mae'n gwella gyda hyfforddiant fel 'ACES' ond mae'n dal i gael ei gamddeall yn fawr ac mae angen llawer o gymorth gennym ni fel rhieni i gael hyn yn iawn. Mae angen mwy o hyfforddiant/staff i weithio gyda phlant mabwysiedig."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Yng Nghymru, dwi'n credu bod hyrwyddo 'ACES' wedi dechrau treiddio drwodd i'w dealltwriaeth o fewn ysgolion."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Ysgolion yn derbyn cyngor ar ffurf ymgynghori gan arbenigwyr/therapyddion unigol sy'n gweithio gyda'r plentyn neu'r teulu.**

  *"Mi wyddoch am y gwasanaethau iechyd meddwl (CAMHS), mi ddwedais wrthyn nhw, mae gen i wir angen yr help. Mae'n drawma datblygiadol. Fe wnaethon nhw ddod gyda mi i siarad â'r ysgol ac roedd bron fel bod yr ysgol wedi gweld y golau*

*oherwydd eu bod wedi clywed rhywun yn swyddogol yn ailadrodd yr hyn oeddwn i wedi ei ddweud."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Hyfforddiant mabwysiadu penodol wedi ei ddarparu gan sefydliadau fel Adoption UK**

  *"Mae ysgol fy mab yn eithriadol o dda. Mae Adoption UK wedi hyfforddi rhai o'r athrawon. Mae'r pennaeth yn awyddus iawn i gael unrhyw gymorth llesiant i'r holl ddisgyblion ac mae'n rhagweithiol yn hyn o beth. Mae'r Cydlynydd Dysgu Ychwanegol 'ALCo' wedi'i hyfforddi'n dda, yn cydymdeimlo ac yn llawn cymhelliant."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Mae pennaeth yr ysgol ac 'ALCO' yn benodol yn wybodus, yn llawn cymhelliant ac yn agored (er enghraifft i ddulliau rheoli ymddygiad).**

  *"Mae ysgol fy mhlentyn yn wych ac yn rhagweithiol drwy fod yn ysgol gyfeillgar i fabwysiadu / gyfeillgar i LAC."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Y pennaeth a'r ALNCO/CADY sy'n gyfrifol am hyn. Os ydyn nhw'n dda, mae'r ysgol yn dda."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Ysgolion sydd ag agwedd gadarnhaol, gwybodus am drawma a thosturiol tuag at lesiant ehangach ac yn gosod yr agwedd hon ar ddatblygiad plant mewn lle amlwg.**

  *"Mae ysgol fy mab yn rhagorol. Mae o'n derbyn cymorth emosiynol gan y Cynorthwy-ydd Cymorth Dysgu (LSA) hyfforddedig a bydd yr athro sy'n arwain ELSA a'r Pennaeth yn edrych i mewn i unrhyw gymorth y gallan nhw ei dderbyn i gefnogi ei hunanhyder a'i gryfder emosiynol."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Mae ysgolion yn awyddus i ddynodi'r problemau a chynnig help yn gynnar. Yn y gorffennol roedd mwy o duedd i ysgubo pethau o dan y carped."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Ysgolion neu athrawon sydd â phrofiad blaenorol y gallan nhw eu gyd-rannu ynglŷn â phlant wedi'u mabwysiadu neu sy'n derbyn gofal.**

  *"Mae'r ysgol yn dda iawn. Mae ganddyn nhw athro sydd hefyd yn rhiant mabwysiadol. Mae cryn dipyn o blant wedi'u mabwysiadu yn yr ysgol, felly maen nhw'n ymwybodol iawn ac yn eithaf gwybodus am drawma. Gall y cynorthwyydd dysgu... sylwi pan fydd ar fin cael pwl ac fe fydd hi'n mynd ag e i wneud rhywbeth arall a thynnu ei sylw. Mae'r Pennaeth.. yn dilyn y trywydd (atgyfeirio) y seicoleg addysg."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Mae'r feithrinfa a'r ysgol yn ein cymuned wedi cael plant mabwysiedig o'r blaen ac felly rydyn ni'n credu bod eu dealltwriaeth o ymddygiadau a'r anghenion yn eithaf da."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Ysgolion sy'n teilwra cymorth i blant yn hytrach nag un dull sy'n addas i bawb.**

*"Wn i ddim am ysgolion eraill ond mae ysgol fy mab yn ymwybodol o anghenion ychwanegol plant mabwysiedig. Fodd bynnag, dydyn nhw ddim yn cymryd yn ganiataol bod pob problem yn gysylltiedig â mabwysiadu. Maen nhw'n gweithio gyda ni i ganfod yr ateb gorau gan ddefnyddio'r llwybr mwyaf priodol."* (Rhiant Mabwysiadol)

### 3.6.4 Ym mhle mae angen cynnydd o hyd?

Mynegwyd amheuon gan rai rhieni, a oedd â phethau cadarnhaol ar y cyfan i'w ddweud am gynnydd yn y maes hwn neu ysgol benodol neu (bennaeth/athro), er enghraifft ynghylch:

- **Anghysondeb canfyddedig o ran profiad ar draws athrawon neu ysgolion unigol.** Dyma oedd y maes gafodd fwyaf o sylw.

  *"Yr ymateb a gawson ni yn aml wrth geisio cael sgyrsiau am heriau blaenorol neu gyfredol ein merch, oedd bod yna blant yn llawer gwaeth eu byd na hi, a'i ei bod yn ymdopi'n dda. Roedd rhai athrawon yn wych - byddai eraill yn gweld ei hymddygiad fel ymddygiad gwael neu ei bod yn ceisio sylw. Doedd e ddim yn gyson, ac mae'n debyg mai dim ond yr uwch dîm rheoli oedd wedi derbyn hyfforddiant priodol."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Mae rhai staff yn ymateb yn well i broblemau fy mhlentyn nag y mae eraill."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Mae'r ysgol bresennol yn rhagorol ond roedd yr ysgol flaenorol yn warthus, ddylai yna ddim bod unrhyw wahaniaeth rhwng yr ysgolion na'r cymorth sydd ar gael."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Nifer fach o ysgolion sy'n cyrchu hyfforddiant ymlyniad, diffyg dealltwriaeth fod 'FASD' yn gyffredin, gwybodaeth anghyson am y cyllid sydd ar gael, diffyg parodrwydd i feddwl y tu allan i'r bocs am atebion ymddygiadol."* (Rhiant Mabwysiadol)

  *"Mae wedi bod yn daith hir i ni gyda'r ysgol i egluro y gall problemau plant mabwysiedig fod yn gymhleth ac nad ydyn nhw o reidrwydd yn golygu bod y plentyn yn 'ddrwg'. Mae llawer o athrawon bellach wedi derbyn hyfforddiant pwrpasol ond rwy'n ymwybodol nad ydy hyn yn wir ym mhob ysgol."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Effaith hyfforddiant heb gymorth parhaus i herio hen ffyrdd o wneud pethau a sefydlu dulliau newydd.**

  *"Rwy'n credu y gall ysgolion fynd ar y cyrsiau sy'n ddechrau gwych, ond dydy hynny ddim bob amser yn cyfateb i'r hyn sy'n cael ei roi ar waith. Bydd yn cymryd amser i brofiad gynyddu ac i bethau newid."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Gallu ysgolion cyfun i deilwra cymorth i blant unigol, hyd yn oed os ydyn nhw'n deall yr anghenion.**

*"Yn gyffredinol, mae ysgolion prif ffrwd yn mynnu ar systemau ymddygiad gwobrau a chosbau a all fod yn ofer ac yn gwneud bywyd ysgol yn waeth i blant mabwysiedig."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"O leiaf maen nhw bellach ychydig yn fwy ymwybodol y gallai plant mabwysiedig ddod â heriau ond eu bod yn dal i ymddangos yn brin o adnoddau i'w hadnabod yn gynnar ac yna eu rheoli'n briodol."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Mae ysgolion (uwchradd) yn parhau i chwilio am ddull o gael y plentyn i 'ffitio'."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Ysgolion yn gallu ehangu eu dealltwriaeth o anghenion plant sydd â phrofiadau eraill o gael gofal, plant sy'n derbyn gofal, i gynnwys plant mabwysiedig.**

*"Rwy'n credu y bu mwy o hyfforddiant a dealltwriaeth am faterion ymlyniad yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond mae ysgolion yn anwybyddu effeithiau tymor hir mabwysiadu ar blentyn, i raddau helaeth. Tybir yn gyffredinol, unwaith y bydd plentyn wedi bod gyda theulu am ychydig flynyddoedd, bod popeth wedi dod yn iawn ac os ydy rhiant yn codi mater neu ymwybyddiaeth, maen nhw'n ystyried bod y rhiant yn rhy amddiffynnol ac yn gwneud ffwdan diangen."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Rwy'n credu, pan fydd plentyn yn cael ei fabwysiadu, bod ysgolion yn credu mai dyna ddiwedd ar bethau - does ganddyn nhw ddim gwir gysyniad o effaith barhaus trawma cynnar. Yn wahanol i blant sy'n derbyn gofal, lle mae'n ymddangos bod ganddyn nhw ddealltwriaeth dda am hynny."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Rwy'n gweithio mewn ysgol ac rwy'n credu bod mwy o ymwybyddiaeth am blant sydd yn y system ofal ond nid o reidrwydd am y rhai a arferai fod mewn gofal ac sydd bellach wedi'u mabwysiadu - mae yna deimlad 'maen nhw'n iawn nawr'." (*Rhiant Mabwysiadol)

Yn y dyfodol, fe hoffai rhai rhieni weld ymwybyddiaeth ysgolion gael ei wella, ac mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Rhagor o hyfforddiant.
- Gofynion statudol ar gyfer cynlluniau addysgol i blant mabwysiedig (sy'n cyfateb i rai plant maeth).
- Bod hyfforddiant ar ymagweddau gwybodus ymlyniad a thrawma yn orfodol i bob athro.

Roedd llawer o arweinwyr sector a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn cytuno neu hyd yn oed yn pwysleisio bod hwn yn faes cymorth pwysig i blant a theuluoedd mabwysiedig:

> *"Mae cymaint o faterion yn cael eu rhannu gyda ni ynglŷn â'r plentyn yn yr ysgol, y plant sy'n cael trafferth gyda'r amgylchedd cymdeithasol hwnnw."* (Arweinydd Sector)

> *“Mae teuluoedd yn aml yn ffynnu yn y blynyddoedd cynnar ond fe fyddan nhw'n cael anawsterau ar yr adegau pontio, megis cychwyn mewn ysgol neu newid ysgol. Wrth gychwyn yn yr ysgol, gall yr anghenion cymorth ddod i'r amlwg gan gynnwys ASD, FASD ac eraill a allai fod yn fwy amlwg mewn lleoliad ffurfiol.”* (Arweinydd Sector)

Y naratif cyffredinol ynghylch ymatebion arweinwyr sector i gwestiynau yn y maes hwn ydy, er bod rhai gwelliannau bach wedi'u gwneud yn y maes hwn, bod yna lawer i'w wneud o hyd i wella profiad plant mabwysiedig yn yr ysgol, yn enwedig wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r ysgol uwchradd ac fel plant yn eu harddegau.

*“Mae nifer fach o ysgolion yn ymwybodol o fabwysiadu, ond mae ’na waith enfawr o hyd. Mae'r hyn sydd wedi ei gyflawni fel diferyn yn y môr.”* (Arweinydd Sector)

*“Rydyn ni'n ymhell iawn o weld ymwybyddiaeth o drawma ar waith mewn ysgolion.”* (Arweinydd Sector)

*“Mae rhai ysgolion wedi ei ddeall, eraill heb, hyd yn oed ar ôl cael hyfforddiant. Mae rhai ysgolion yn siarad yn dda ond mae ganddyn nhw o hyd 'restr blant drygionus' a dydyn nhw heb ddeall pethau ynglŷn â phlentyn mabwysiedig."* (Arweinydd Sector)

Doedd y rhieni na'r arweinwyr sector a gafodd eu cyfweld ar gyfer y gwerthusiad hwn ddim o dan unrhyw gamargraff ynghylch anhawster posibl y dasg (o ran newid pethau er gwell), yn enwedig o ystyried y canlynol:

- ‘Arddulliau’ sy’n bodoli eisoes o ran arddull addysgu / athrawon a'r diwylliannau sy’n gyndyn o newid.
- Athrawon sydd angen cydbwyso anghenion dosbarth cyfan gydag anghenion plentyn unigol:

*“Hyd yn oed pan maen nhw wedi cael gwybod am drawma, rhaid canfod cydbwysedd rhwng anghenion plentyn mabwysiedig unigol a’r dosbarth cyfan.” (Rhiant Mabwysiadol)*

Fodd bynnag, fe chwalwyd y myth nad ydy ysgolion yn ymwybodol bod plant wedi eu mabwysiadu ai peidio:

*“Roedd dadl nad ydy ysgolion yn gwybod am blant mabwysiedig ond dywedodd 99% o rieni yn y Baromedr Mabwysiadu fod ysgolion yn gwybod bod eu plentyn wedi’i fabwysiadu.”* (Arweinydd Sector)

Roedd gweithwyr proffesiynol ac arweinwyr sector o'r farn bod galluogwyr posibl y newid cadarnhaol pellach yn y dyfodol yn cynnwys y canlynol:

- Gwaith uniongyrchol parhaus rhwng arbenigwyr mabwysiadu ac ysgolion.
- Y cwricwlwm newydd ac ymgynghoriad y Llywodraeth (Cymru) ar ymagweddau ysgol gyfan at iechyd a llesiant emosiynol.
- Argyhoeddi ysgolion bod cael ymwybyddiaeth o drawma yn dda i bob plentyn, nid dim ond plant sydd wedi'u mabwysiadu neu sy'n derbyn gofal.
- Adeiladu ar wybodaeth ysgol, er enghraifft o amgylch 'ACEs' a'r hyn y maen nhw eisoes yn ei wneud o ran trawma ac ymlyniad.

- Sefydlu ‘marc barcut’ ar gyfer ysgolion. Roedd disgwyl i beilot gael ei sefydlu, er enghraifft, mewn un rhanbarth, ond roedd Pandemig COVID-19 wedi gohirio ei gynnydd.

### 3.7 I ba raddau yr ystyrir bod y gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn ddigonol ar draws Cymru?

Roedd yna wahaniaeth barn ymhlith y rhieni a gwblhaodd yr arolwg ar-lein ynghylch i ba raddau y mae'r ystod o wasanaethau cymorth mabwysiadu sydd ar gael ar hyn o bryd yn ddigonol i ddiwallu anghenion eu teuluoedd. Roedd bron i 6 o bob 10 o'r farn eu bod yn ddigonol iawn neu'n eithaf digonol (59%), ond roedd dros chwarter o'r farn nad oedden nhw 'yn ddigonol iawn' (26%), ac roedd 1 o bob 7 o'r farn nad oedden nhw yn 'ddigonol o gwbl' (15%).

Roedd 82% o'r gweithwyr proffesiynol a ymatebodd i'r arolwg ar-lein o'r farn bod gwasanaethau cyffredinol rhwng bod yn ddigonol i raddau helaeth hyd at fod yn ddigonol iawn. Fodd bynnag, dim ond 55% oedd o'r farn bod gwasanaethau wedi'u targedu yn ddigonol a dim ond 11% bod gwasanaethau arbenigol yn ddigonol ar hyn o bryd. Mae'r sylwadau blwch testun yn yr arolwg rhieni ar-lein a chyfweliadau manylach â rhieni hefyd yn awgrymu eu bod yn ystyried bod unrhyw ddiffyg yn ymwneud yn bennaf â mathau mwy penodol neu arbenigol o gymorth.

Mae'r **prif fwlch** a ddisgrifir gan aelodau o'r teulu, gweithwyr proffesiynol ac arweinwyr sector mewn perthynas ag argaeledd cymorth neu gymorth therapiwtig yn amserol, wedi'i gynllunio a'i gydlynu'n dda i ddiwallu anghenion cymhleth teulu, yn enwedig yn ystod y glasoed. Disgrifiodd rhai rhieni sut y dylai’r ‘rhain fod ar gael heb orfod ymladd’. Roedd rhai arweinwyr sector a gweithwyr proffesiynol o'r farn y dylid cael mwy o gymorth therapiwtig i'r teulu cyfan, gan gynnwys rhieni.

> *“Cynllun plentyn wedi'i ysgrifennu gyda phawb yn gytûn ynghylch beth sy'n digwydd. Yn y bôn, byddai pawb yn gwybod, yn arbennig fi, y gweithiwr cymdeithasol a'r meddyg hefyd” (Plentyn a Fabwysiadwyd)*

> *“Dywedon nhw, oherwydd nad oedd y mabwysiadu yn mynd i chwalu, pam fyddai angen iddyn nhw fy nghefnogi. Yn ôl pob tebyg, mae'n rhaid i mi fod, mae'n rhaid iddo fod yn fater diogelu. I gael seibiannau. Dywedir wrthyf yn y bôn nad oes digon o arian a'r unig bobl y gallan nhw eu cefnogi ydy pobl sydd ar fin gwahanu. Fy mhryder wrth symud ymlaen ydy... a fydda i, yn gorfforol, yn gallu ymdopi â phlentyn a all fod yn dreisgar ar adegau ” (Rhiant Mabwysiadu)*

> *“Rydw i wedi bod ymdrechu i gael (cymorth) seicolegol iddi hi. Sut mae teuluoedd yn ymdopi. Mae'n wir anodd” (Rhiant Mabwysiadu)*

> *“Anfonwyd gweithiwr cymdeithasol er mwyn i mi i ddod i siarad â hi. Ni ddigwyddodd dim ar ôl i mi gwrdd â hi. Ni fynychodd hi unrhyw gyfarfodydd yn yr ysgol a wnaeth hi ddim helpu mewn unrhyw ffordd. Dydy hyn ddim ar gael... 'does yna ddim unrhyw beth i'w gyrchu. Mae'n iawn os ewch chi i'r cyflwr argyfwng, yna mae'n ymddangos eu bod nhw'n cynyddu pethau. Ddylech chi ddim gorfod mynd i sefyllfa argyfwng cyn bod yna gymorth.” (Rhiant Mabwysiadu).*

*“Mae angen i wasanaethau fod ar gael yn haws ac yn fwy hygyrch heb deimlo eich bod yn gorfod ymladd i gael y cymorth hwnnw oherwydd diffyg cyllid neu argaeledd.” (Rhiant Mabwysiadu)*

*“Rydyn ni angen mwy o gymorth, sy'n rhwyddach i gael mynediad ato, a byddwn yn awgrymu bod gwasanaethau cymorth ôl-fabwysiadu yn cysylltu'n flynyddol gyda PHOB teulu. Fe wnaethon ni aros yn hwy nag y dylen ni cyn gofyn am gymorth, gan fod dan y rhagdybiaeth (oddi wrth deuluoedd mabwysiadu eraill) ei bod bron yn amhosibl cael gafael ar unrhyw gymorth. Cydbwyswch hyn â'r ffaith bod y mwyafrif o deuluoedd mabwysiadol 'eisiau bod yn normal' ac rwy'n amau bod llawer ohonom yn ei gadael yn hwyrach nag sydd angen i estyn allan.” (Rhiant Mabwysiadu)*

*“Rwy'n credu y dylid cael gwiriad rheolaidd bob chwe mis, trwy gydol bywyd y plentyn. Oherwydd dydy llawer o bobl ddim am ofyn am gymorth. Yn y tymor hir, rwy’n credu y byddai’n arbed i blant a theuluoedd orfod mynd drwy’r heriau” (Rhiant Mabwysiadu)*

*“Digonedd o wasanaethau cymorth, mae'n drueni bod yn rhaid iddyn nhw gyfiawnhau, dadlau, cwyno neu fynegi pryderon i gael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw. Dydyn nhw ddim mor hawdd i gael gafael arnyn nhw ag y cawson ni ein harwain i gredu.” (Rhiant Mabwysiadu)*

*“Mae mwy o gyllid ar gael nawr nag yn y gorffennol ond DIM DIGON o hyd." (Rhiant Mabwysiadu)*

Roedd rhai gweithwyr proffesiynol maes mabwysiadu yn ymwybodol bod cymorth therapiwtig, yn enwedig ar ffurf seicolegwyr ‘mewnol’, yn fwy ar gael mewn rhanbarthau eraill o gymharu â’u rhanbarthau eu hunain.

*“Dydyn ni ddim wedi cael manteision y swyddi hyn. Wn i ddim pam. Fe fydden ni'n dymuno cael seicolegwyr mewnol. Mae'n eithaf blinedig ymladd dros deuluoedd unigol.” (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)*

Er bod gweithwyr proffesiynol mabwysiadu ac arweinwyr sector wedi mynegi gwahanol safbwyntiau am rôl(au) seicolegwyr mewn timau cymorth mabwysiadu, cytunodd llawer o'r cyfweleion fod aliniad agos rhwng seicolegwyr a gweithwyr cymdeithasol mabwysiadu arbenigol yn fodel mwy 'optimwm', o'i gymharu, er enghraifft, i gael clinigwr yn gwneud yr holl waith un i un neu i weithwyr cymdeithasol sy'n parhau i weithio ar wahân i gymorth clinigol.

*“Mae'r gwasanaeth seicoleg yn (rhanbarth penodol), eu mewnbwn o ran paru a chysylltu plant a chefnogi mabwysiadwyr yn y flwyddyn gyntaf, yn hynod fuddiol. Rwy'n credu bod hynny'n seiliedig ar dystiolaeth. Ond mae gan wahanol bobl fodelau eraill.” (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)*

Roedd graddfa driongli uchel hefyd ar draws canfyddiadau'r arolygon rhieni / gweithwyr proffesiynol / arweinwyr sector a chyfweliadau am fylchau cyfredol eraill neu feysydd gwannach mewn perthynas â gwasanaethau cymorth mabwysiadu arbenigol a dargedwyd, fel a ganlyn:

- **Ar gyfer plant ag anawsterau niwro-ddatblygiadol**

  *"Mae yna restrau aros enfawr o hyd ar gyfer diagnosis ASD (anhwylderau yn y sbectrwm awtistig) neb all wneud diagnosis FASD" (Rhiant Mabwysiadu)*

  *"Mae mynychder uwch o blant yn agored i alcohol a chyffuriau yn y system sy'n derbyn gofal felly mae'n rhaid ei fod yn fwy cyffredin hefyd ar gyfer plant mabwysiedig. Ni chydnabyddir FASD. Mae hynny'n asgwrn cynnen yn yr arena fabwysiadu. Dydy pobl ddim yn cael eu cymryd o ddifrif." (Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)*

  *"Ar gyfer diagnosis… ar gyfer y gwasanaeth niwro-ddatblygiadol, mae bron i 2 flynedd o gyfnod aros... mae pawb yn dod allan gyda diagnosis ASD. Maen nhw wedi'u hanelu ar gyfer hyn. Dydy e ddim yn gweithio i bawb. Rydyn ni angen gwell diagnosis, ond hefyd angen gwell triniaethau." (Rhiant Mabwysiadu)*

- **Ynglŷn â chael mynediad i 'CAMHS'**

  *"Dydy CAMHS ddim yn addas i'r diben (ar gyfer plant mabwysiedig)"* (Rhiant Mabwysiadu)

  *"Mae'r trothwy CAMHS yn un mor uchel." (Rhiant Mabwysiadol)*

  *"Mae pryderon ynghylch mynediad i CAMHS.. a bod y gwasanaethau cymdeithasol a CAMHS ddim yn cydweithio'n dda."* (Arweinydd Sector)

  *"Mae ymwybyddiaeth o fabwysiadu ymysg therapyddion a chlinigwyr yn dal i fod yn gyfyngedig neu'n brin. Mae angen i chi gael dealltwriaeth dda iawn o drawma a'i effaith gydol oes arnoch chi." (*Rhiant Mabwysiadu)

Mynegodd rhai gweithwyr proffesiynol ac arweinwyr sector y farn mai un o'r prif resymau nad ydy CAMHS ddim yn hygyrch i blant mabwysiedig ydy nad oes ganddyn nhw arbenigedd ar hyn o bryd mewn gweithio gyda phlant sydd wedi profi anhawster trawma plentyndod cynnar a / neu drafferthion ymlyniad.

> *"Mae CAMHS yn ofalus i beidio â chymryd atgyfeiriadau mewn perthynas â phethau nad ydyn nhw'n eu deall"* (Mabwysiadu Proffesiynol)
>
> *"Ar y pen uchaf, dydy mynediad i CAMHS ddim yn dda. Fy marn i ydy y dylai pob plentyn mabwysiedig gael mynediad at CAMHS pan fyddan nhw ei angen... ond dydy e ddim yn digwydd. Mae'n fater o bwys. Efallai nad oes ganddyn nhw'r arbenigedd, ond dylen nhw allu ymateb."* (Arweinydd Sector)

- **Ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n trosglwyddo i fod yn oedolion**, o ran lle mae gwasanaethau cymorth mabwysiadu wedi bod yn llai datblygedig hyd yn hyn.

  *"Rwy'n teimlo bod yna fwlch (yn y cymorth i blant hŷn ac oedolion wedi eu mabwysiadu) oherwydd, i lawer o blant, maen nhw'n aeddfedu'n hwyrach na phlant eraill beth bynnag. Rwy'n tybio daw'r trawma i'r wyneb nes ymlaen. Dydw i ddim wedi gweld unrhyw gymorth i unrhyw un yn eu harddegau hwyr nag yn eu hugeiniau cynnar. Mae 'na yn bendant bwynt anodd tua 16 i 25 a'r argraff gewch chi nad oes*

*yna gymorth yr adeg honno. Mae'r grwpiau i gyd yn ymwneud â phlant iau."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Mwy am feysydd iechyd rhyw, perthynas, hunaniaeth; teulu biolegol. Sut i reoli hunan-niweidio ac emosiynau cryf." (Rhiant Mabwysiadol)*

*"Rydyn ni wedi cael cryn ffocws ar ymyriadau cynnar ond mae yna garfan a aeth trwy fabwysiadu beth amser yn ôl a dydy rhai ddim yn gwneud yn dda o gwbl. Mae'n golygu iddyn nhw allu cyrchu'r hyn y gall eraill, gan gynnwys pobl sy'n gadael gofal, ei wneud." (*Gweithiwr Proffesiynol Mabwysiadu)

*"Ma'r rhai yn eu harddegau yn fwlch mawr ar hyn o bryd. Glasoed i blant sydd wedi profi pethau nad ydyn nhw hyd yn oed yn eu cofio. Hynny wedi'i gyfuno â disgwyliadau rhieni o'u plant."* (Arweinydd Sector)

*"Plant sy'n NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) neu sydd angen cymorth i gael tŷ ac sydd â phroblemau iechyd meddwl."* (Arweinydd Sector)

- **Ar gyfer mynediad at gymorth arbenigol** yn fwy cyffredinol - gan gynnwys anawsterau mewn rhai meysydd wrth gael gafael ar gyllid pan fydd ei angen, yn enwedig lle mae materion yn ymwneud â mabwysiadu wedi'u plethu ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion iechyd. Disgrifiodd rhai rhanbarthau a darparwyr y sector gwirfoddol rwystrau penodol rhag cyrchu cymorth 'lefel uwch' lle nad oedd y cyllid wedi'i ddirprwyo i'r tîm rhanbarthol o leiaf.

*"Rhywle y gallwch chi fynd i drafod eich problemau gyda rhywun sydd â chefndir mewn therapi a seicoleg... ddim yn hawdd ei tarfu nac ychwaith yn fecanyddol yn eu hymateb. Mae arnom angen pobl sy'n gymwys i helpu'r plentyn a'n helpu ni i helpu'r plentyn. Helpwch ni hefyd, i ddelio â'r problemau. Gofynnwch i fabwysiadwyr. Rydyn ni eisiau 'canolfan cymorth mabwysiadu' lle mae'r holl bobl iawn i'w cael a'r rhai all eirioli ar eich rhan." (*Rhiant Mabwysiadol)

*"Dylid blaenoriaethu plant sy'n cael eu maethu a'u mabwysiadu. Mae tystiolaeth glinigol eu bod yn fwy tebygol o gael ASD ac anawsterau ymlyniad, trawma datblygiadol ac ati. Dylai'r asiantaeth fabwysiadu allu eu rhoi ar gynllun carlam (trwy'r GIG er enghraifft) i gael cymorth. Dydy'r gwasanaeth niwroddatblygiadol ddim ond yn frig y mynydd iâ. Maen nhw'n canolbwyntio'n bennaf ar ASD, dydyn nhw ddim yn canolbwyntio ar ddiagnosis na chymorth arbenigol."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"'Does yna ddim un gwasanaeth sy'n dweud 'dewch yma' os ydy eich plentyn wedi profi trawma bywyd cynnar neu os oes ganddo gyflwr niwro-ddatblygiadol ond mae pobl (ysgolion) eisiau diagnosis clir. Chewch chi ddim unrhyw help heb ddiagnosis yn yr ysgol."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Rwy'n credu bod llawer o'n plant yn cael cam-ddiagnosis o bethau fel awtistiaeth ac ADHD oherwydd bod pobl yn ceisio eu ffitio yn y blychau sy'n bodoli ar hyn o bryd. O fewn gwasanaethau statudol, 'does yna ddim digon o ymwybyddiaeth ac felly mae angen i ni ddibynnu ar gymorrth gan asiantaethau cymorth mabwysiadu a chlinigau arbenigol sydd â'r wybodaeth a'r profiad hwnnw"* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Yr ALl lle mae'r teulu'n preswylio sydd i gytuno ar becyn gofal. Efallai y byddwn ni'n gwneud argymhellion ond mater i'r ALl dynodedig ydy cytuno ar y pecyn ai peidio."* (Gweithiwr Mabwysiadu Proffesiynol)

*"Mae'n dal i fod yn loteri cod post ar gyfer derbyn cymorth arbenigol... wrth i awdurdodau lleol ddyrannu cyllid. Maen nhw'n cymryd yr awenau. Mewn rhai ardaloedd, maen nhw'n aros yn rhy hir nes cyrraedd pwynt argyfwng cyn cymryd rhan"* (Arweinydd Sector)

*"Rydyn ni'n clywed bod gan rai rhanbarthau gyllideb sy'n cynnwys cael ei ddefnyddio ar gyfer cymorth arbenigol ond mae heb wneud hynny. Mae'n rhaid iddyn nhw fynd yn ôl at yr ALl i gael cyllid. Rhaid iddyn nhw frwydro am adnoddau."* (Arweinydd Sector)

- **Gwaith profiadau bywyd mwy hygyrch ac o ansawdd gwell, yn enwedig i blant hŷn**

*"Gwrthodwyd gwaith cofnodi profiadau bywyd i ni gan na all unrhyw un gytuno pwy ddylai dalu."* (Rhiant Mabwysiadol)

*".. mwy o gymorth ar ddeunyddiau profiad bywyd gan fod y teulu biolegol wedi ymddieithrio amser maith yn ôl ac mae gennym wybodaeth gyfyngedig iawn ar y profiadau bywyd cynnar fel nad ydy gweithiwr cymdeithasol ein plentyn ddim wedi bod / ddim yn dymuno ein helpu gyda hyn."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Mwy o ffocws ar weithio gydag ysgolion neu â disgyblion yn yr ysgolion.**

*"Pe bawn i'n rhywun sy'n mabwysiadu, yr hyn sy'n digwydd mewn ysgolion fyddai'r peth pwysicaf. Rwy'n credu y dylai cyllid fynd i hynny."* (Arweinydd Sector)

- **Cymorth ar gyfer cysylltiadau o ansawdd da gyda theuluoedd biolegol a chyngor rhagweithiol cynharach ynghylch cyswllt, gan gynnwys o ran y cyfryngau cymdeithasol.**

*"Mae cyswllt yn agwedd ar gymorth mabwysiadu ac rydym am weld cyswllt sy'n cynorthwyo datblygiad emosiynol a hunaniaeth pobl ac yn rhoi cymorth i deuluoedd"* (Arweinydd Sector)

*"Roedd hi'n ddamwain oedd yn aros i ddigwydd gyda'r cyfryngau cymdeithasol, ond ni wnaeth unrhyw weithwyr cymdeithasol ddim yn ei gylch. Mae cymorth o ran y cyswllt yn yr oes sydd ohoni yn bwysig iawn."* (Rhiant Mabwysiadol)

- **Gwell mynediad at ofal seibiant pan fo ei angen.**

*"Tri o blant gydag anghenion ychwanegol sylweddol y gallwn eu rheoli, ond nad oedd gennym unrhyw syniad am y lefel hyn o anghenion pan gawson nhw eu lleoli gyda ni. Mae lefel eu hanghenion yn aros yr un fath. Does ganddon ni NEB i gynnig unrhyw fath o seibiant i ni a dydyn ni ddim yn gymwys i gael unrhyw gymorth gan ein tîm anabledd lleol, er bod pob un o'n 3 phlentyn yn cael eu cydnabod fel rhai anabl."* (Rhiant Mabwysiadol)

Un testun cynnen ydy'r tensiwn sydd rhwng yr awydd am gysondeb (a fynegir yn aml gan rieni mabwysiadol ac ambell dro gan arweinwyr sector) a'r angen am hyblygrwydd wrth gyflenwi mewn gwahanol ardaloedd a rhanbarthau (a fynegir weithiau gan rai arweinwyr sector a gweithwyr proffesiynol mabwysiadu).

> *"Mae gennym ni gynnig craidd ond rydyn ni'n gadael lle ar gyfer creadigrwydd ac arloesedd. Er fy mod yn deall yr awydd am gael cysondeb, dydw i ddim yn siŵr bod yn rhaid i bopeth fod yr un peth."* (Arweinydd Sector)

> *"Mae yna amrywiadau o hyd o gwmpas Cymru o ran cael mynediad at gymorth… rhai teuluoedd wedi gorfod dychwelyd at ddrws ffrynt y gwasanaethau cymdeithasol i gael cymorth. Erbyn hyn mae gan lawer (eraill) dimau cymorth arbenigol sy'n deall, ond dydy hynny ddim yn digwydd yn gyffredinol eto ledled Cymru ac mae hynny'n peri peth pryder."* (Arweinydd Sector)

> *"Rwy'n hoffi cysondeb. Pam na allwn ddweud wrth y rhanbarthau i roi'r gorau i wneud rhai pethau a dechrau gwneud pethau eraill? Rwy'n hapus iddo aros yn y rhanbarthau, cyhyd â bod rhywfaint o atebolrwydd. Fe fyddwn i'n wir yn hoffi gweld digon o gymorth arbenigol, cymorth therapiwtig yn cael eu cyflwyno."* (Arweinydd Sector)

## 3.8 I ba raddau y mae'r llywodraethiant a'r gwella parhaus o gymorth mabwysiadu yn addas i'r diben?

Mae'r gwerthusiad hwn yn awgrymu bod rhai rhanbarthau wedi bod 'ar y blaen' i eraill wrth ddatblygu a gwella gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn barhaus. Mae cael systemau monitro perfformiad wedi eu galluogi i ganfod y bylchau a gwneud gwelliannau (gan gymharu eu hunain ag eraill).

> *"Yn y dechrau, roedd rhywfaint o wrthwynebiad i gael archwiliad manwl fel yna. Yna, roedd pobl yn meddwl bod rhywfaint o synnwyr i gael fframwaith perfformiad cenedlaethol."* (Arweinydd Sector)

Mae rhai a holwyd yn nodi bod arweinyddiaeth ganolog gadarn (NAS) gan gynnwys gweithgaredd cydgysylltu wedi cynorthwyo rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol i weithredu'n gadarnhaol.

> *"Mae cael dull cyfunol o fynd ati yn bwysig iawn. Gall pob un ohonom dynnu ar gryfderau ein gilydd yn hytrach na bod ni'n ailadrodd y gwaith."* (Arweinydd Sector)

> *"Mae NAS 'Central' yn gwneud gwaith da. Fe wnaethon nhw arwain ar bethau a cheisio cadw pethau mewn trefn. Gwnewch yn siŵr ein bod ni i gyd yn canu'r un gân a bod rhywfaint o gydraddoldeb ar draws y rhanbarthau."* (Arweinydd Sector)

> *"Mae NAS yn ymbarél da. Maen nhw'n ceisio dod â ni at ein gilydd a chreu cysondeb a syniadau disglair ac amcanion cyffredin. Mae'n ymbarél cyffredin sy'n dda ar gyfer ei rannu."* (Arweinydd Sector)

Bu rhai arweinwyr sector yn sôn am arwyddocâd cael gwell perthynas waith rhwng timau rhanbarthol a'r sector gwirfoddol:

*“Mae’n ymddangos bod yna fwy o gydweithrediad nawr. Rydyn ni wedi dod o hyd i ffyrdd o weithio gyda'n gilydd, hyd yn oed yn fwy felly gan ein bod ni nawr yn gweithio'n rhithiol. Mae yna beth gorgyffwrdd yn yr hyn rydyn ni'n ei wneud ond mae hefyd yn dda bod gan bobl ddewisiadau ynglŷn â ble i fynd am gymorth.”* (Arweinydd Sector)

*“Mae'r berthynas ar draws y rhanbarthau wedi gwella. Mae'r holl reolwyr cymorth mabwysiadu bellach yn cyfarfod i gael cymorth cymheiriaid yn ystod Covid - mae wedi helpu ac mae'n galluogi iddyn nhw gymharu a chynhyrchu syniadau.”* (Arweinydd Sector)

Ymhlith y cryfderau a buddion eraill drwy gydweithredu ledled Cymru a nodwyd, y mae'r canlynol:

- Datblygu deunyddiau cenedlaethol am brofiadau bywyd a chanllawiau arferion da eraill i'w defnyddio yn y rhanbarthau.
- Cydweithio rhwng y rhanbarthau a NAS Central i'r graddau nad ydy pobl sy'n gweithio gyda theuluoedd mabwysiadol ddim yn teimlo bod rhywun 'wedi gwneud' ar eu rhan.

Fodd bynnag, cyfeiriodd llawer o'r rhai a gyfwelwyd hefyd am y tensiwn naturiol sy'n deillio o drefniadau rhanbarthol cadarn gweithio i gorff canolog sy'n cael ei ddal yn atebol ac, yn yr un modd, yn gorfod bod yn atebol i sawl awdurdod lleol sydd â gwahanol flaenoriaethau a meysydd o ddiddordeb.

Awgrymodd rhai arweinwyr sector y gallai mesurau cysylltiedig â mabwysiadu a sefydlwyd ers cryn amser bellach gael eu lleihau neu eu gwella'n well ym maes cymorth mabwysiadu. Roedd rhai darparwyr eisoes yn defnyddio mesurau effaith (cymorth mabwysiadu) fel graddfa Warwick Caeredin ar gyfer llesiant rhieni a / neu adnoddau wedi eu hen brofi mewn perthynas â chanlyniadau y cytunwyd arnyn nhw.

*“Hoffwn i ni fod yn casglu mwy o fesurau cymorth mabwysiadu er bod y Baromedr Mabwysiadu, i raddau, yn llenwi'r bwlch hwnnw. Byddai’n ddefnyddiol cael adnoddau wedi eu hen brofi a gallu olrhain cynnydd plant yn yr ysgol.”* (Arweinydd Sector)

*“Rwyf yn treulio fy mywyd yn riportio ond dydyn ni ddim (hyd yma) yn edrych ar y pethau ansoddol.”* (Arweinydd Sector)

*“Dydw i ddim yn siŵr a ydyn ni'n mesur yr hyn sy’n bwysig hyd yn oed nawr. Mae'n feichus ac heb fod yn ddigon hyblyg i ddarganfod beth sy'n gweithio a beth sydd ddim. Byddai'n dda olrhain canlyniadau plant dros amser, dadansoddiadau ac ati.”* (Arweinydd Sector)

Roedd eraill yn credu y gallai cyfarfodydd cenedlaethol fod yn dyblygu agendâu a deunyddiau:

*“Mae yna lawer o ddyblygu data a thrafodaethau.”* (Arweinydd Sector)

"Mae yna ormod o lywodraethu. Mae wedi cael ei resymoli ychydig yn fwy bellach, ond mae yna ddyblygu cyfarfodydd o hyd, yr un sgyrsiau drosodd a throsodd." (Arweinydd Sector)

*"Gormod o waith papur, dim digon o ddeialog. Rydyn ni'n cael ein claddu mewn gwybodaeth ond dydyn ni ddim yn gallu gwneud synnwyr ohono. Mae angen mwy o sgyrsiau a thrafodaeth am hynny."* (Arweinydd Sector)

### 3.8.1 I ba raddau mae teuluoedd mabwysiadol wedi eu hymglymu mewn datblygu'r gwasanaeth?

Mae ymgynghoriadau cenedlaethol diweddar a dolenni adborth i'w gweld ar wefan NAS, gan gynnwys rhai o ganlyniad i'r Rhaglen 'Lleisiau Mabwysiadu', hefyd mae digwyddiadau cenedlaethol wedi'u hyrwyddo i glywed gan rieni mabwysiadol ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol, er enghraifft y 'Sgwrs Fawr' a noddwyd gan AUK Cymru ym mis Tachwedd 2020.

Fodd bynnag, dim ond 40% o'r rhieni a gwblhaodd arolwg ar gyfer y gwerthusiad hwn a atebodd fod eu barn o ran llywio sut y datblygwyd gwasanaethau yn 'eithaf da' i 'dda iawn'. Roedd 36% yn credu nad oedd eu barn yn llywio datblygiad 'fawr o gwbl' a 24% 'ddim o gwbl', gan awgrymu nad ydy'r dolenni adborth yn cyrraedd pob teulu.

Roedd gweithwyr proffesiynol a ymatebodd i'r arolwg ar-lein ar gyfer y gwerthusiad hwn ychydig yn fwy optimistaidd ynghylch i ba raddau y mae gwasanaethau cymorth mabwysiadu yn cael eu llywio gan leisiau teuluoedd mabwysiadol, gyda 76% o'r rhai a oedd â barn yn awgrymu bod gwasanaethau wedi'u llywio yn eithaf da gan leisiau'r teuluoedd (er i lawer o bobl eraill ddweud nad oedden nhw'n gwybod neu nad oedd ganddyn nhw farn).

Mae'r sylwadau testun yn yr adran hon o'r arolwg rhieni yn awgrymu profiadau amrywiol ymhlith y mabwysiadwyr, gyda rhai yn teimlo eu bod wedi ymgynghori'n eithaf da ac 'wedi eu cynnwys' gyda llunio a datblygu gwasanaeth parhaus, tra eraill ddim yn teimlo felly.

*"Gofynnir yn rheolaidd am farn ac adborth drwy e-bost a threfnir y digwyddiadau yn dilyn rhain."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Dyma'r tro cyntaf i neb ofyn i mi gwblhau arolwg."* (Rhiant Mabwysiadol)

Roedd rhai'n dweud bod gweithredu fel rhiant mabwysiadol yn golygu nad oes gennych chi'n wir lawer o amser ar ôl i gefnogi datblygu gwasanaeth!

*"Rwy'n credu bod yr arolwg hwn yn bwysig iawn. Byddwn hefyd yn dweud pan ydych chi'n magu plentyn mor gymhleth a bod gennych chi blant eraill ac mewn swydd nad oes gennych unrhyw amser nac egni ar ôl i'w roi i ddatblygu gwasanaethau mabwysiadu."* (Rhiant Mabwysiadol)

Tra roedd rhai rhieni yn hyderus bod eu hadborth wedi helpu i arwain datblygiad y gwasanaeth, roedd eraill yn llai cadarnhaol:

*"Fe hoffwn i feddwl bod pob barn yn cael ei pharchu a bod gwahanol brofiadau yn helpu i gynnig dull amrywiol o fynd ati i gynorthwyo pob mabwysiadwr trwy'r grwpiau oedran eang ac anghenion y plant."* (Rhiant Mabwysiadol)

*"Mae'n ddrwg gen i ymddangos mor sinigaidd, ond mae'n ymddangos ein bod ni'n derbyn llawer iawn o holiaduron ond ddim yn gweld pa gamau sy'n cael eu cymryd o ganlyniad i hynny. A'n profiad ni, fel dw i wedi dweud, ydy ei bod hi'n anodd iawn cael cymorth."* (Rhiant Mabwysiadol)

### 3.9 I ba raddau y mae rhieni a rhanddeiliaid ehangach yn hyderus am ddyfodol gwasanaethau cymorth mabwysiadu yng Nghymru?

Mynegodd bron yn union yr un cyfrannau o rieni (66%) a gweithwyr proffesiynol (63%) a gwblhaodd arolwg ar gyfer y gwerthusiad hwn hyder ('eithaf hyderus' i 'hyderus iawn') ynghylch dyfodol gwasanaethau cymorth mabwysiadu yng Nghymru. Disgrifiodd rhai rhieni a ymatebodd fod ganddyn nhw fwy o hyder neu optimistiaeth ynghylch y canlynol:

- Angerdd a bwriadau arbenigwyr mabwysiadu i ddarparu gwasanaeth da.
- Datblygiad a phroffesiynoldeb timau mabwysiadu, yn enwedig o ganlyniad i gyllid diweddar a / neu ad-drefnu.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion plant sy'n cael eu mabwysiadu.

Dywedodd rhieni eraill wnaeth ymateb fod ganddyn nhw lai o hyder ac optimistiaeth am y canlynol:

- Argaeledd adnoddau ar gyfer cymorth mabwysiadu yn y dyfodol, yn enwedig oherwydd galwadau cystadleuol am adnoddau cyhoeddus mewn cyfnod o lymder.
- Gallu sefydliadau i newid yn ddigon cyflym i ddiwallu anghenion teuluoedd sy'n mabwysiadu.
- Parhad y cyllid (yn deillio o sicrhau adnoddau ychwanegol am gyfnod cymharol fyr).
- Argaeledd gweithwyr cymdeithasol digon profiadol.

Roedd cyfranogwyr proffesiynol a oedd yn trafod ymhellach ar y cwestiwn hwn yn aml yn disgrifio taith o welliant sydd wedi / oedd wedi cychwyn ac yr oedden nhw'n obeithiol optimistaidd mewn perthynas â hi.

*"Rwy'n credu dros y 5 mlynedd diwethaf, bod ansawdd y cymorth mabwysiadu wedi gwella yn enwedig mewn gwasanaethau cyffredinol ac, i raddau helaeth, mewn gwasanaethau wedi'u targedu. Gyda buddsoddiad LIC dros y ddwy flynedd ddiwethaf, cymerwyd camau pellach. Mae fframwaith NAS ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu yn gweithredu fel model a templed ar gyfer yr hyn y mae angen i ni ei gyflawni. Mae angen i ni gymryd llawer mwy o gamau mewn cymorth arbenigol - mae'n dal yn anodd cael gafael ar wasanaethau CAHMS." (Gweithiwr Mabwysiadu Proffesiynol)*

*"Mae Gwasanaethau Mabwysiadu bellach yn rhan o agenda cenedlaethol ac y mae'n debygol i gynyddu, felly rhaid i'r gwasanaethau ymateb."* (*Gweithiwr Mabwysiadu Proffesiynol*).

**Institute of Public Care / Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus**
**February / Chwefror 2021**

## 4 Bibliography / Llyfryddiaeth


Adoption UK (2014). *Adopted children's experiences of school – The Results Are In – Research findings April 2014.* Available at https://www.adoptionuk.org/adopted-childrens-experiences-of-school-the-results-are-in-research-findings-april-2014 Accessed date 28/04/2020

Adoption UK (April 2020) *Home learning during the Covid-19 lockdown - The impact of school closures on care experienced children.* Available at https://mail.google.com/mail/u/0/#inbox?projector=1
Accessed date 11/05/2020

Adoption UK (2018) *FASD: The hidden epidemic 2018.* Available at https://www.adoptionuk.org/blog/fasd-the-hidden-epidemic Accessed date 27/04/2020

Adoption UK website *Managing contact with birth family.* Available at https://www.adoptionuk.org/managing-contact-with-birth-family
(Accessed date 15/04/2020)

Adoption UK – *Getting it right for every child – schools guide to working with adopted children and their families*. Available at https://www.adoptionuk.org/Handlers/Download.ashx?IDMF=30144d94-9802-4f11-bc4a-3d77f14cd4e6 (Accessed date 29/04/2020)

Adoption UK (2020) Adoption Barometer: A stocktake of adoption in the UK. Available at https://www.adoptionuk.org/Handlers/Download.ashx?IDMF=c79a0e7d-1899-4b0f-ab96-783b4f678c9a

Ainsworth MD, Bell SM. 'Attachment, exploration, and separation: illustrated by the behavior of one-year-olds in a strange situation'. *Child Dev*. 1970;41(1):49-67. doi:10.2307/1127388

Anthony, R.E., Paine, A.L., Shelton, K.H. 'Adverse Childhood Experiences of Children Adopted from Care: The Importance of Adoptive Parental Warmth for Future Child Adjustment'. International Journal of Public Health, 2019, 22;16(12)2212

Atkinson, A., & Gonet, P. (2007). 'Strengthening adoption practice, listening to adoptive families'. *Child Welfare*, 86 (2), 87-104

Bange S., Mahon C., & Parrish E (2014) *Identifying effective marketing methods to engage potential adopters*. Kindred for the Department of Education. London

Bazalgette, L., Rahilly, T. and Trevelyan, G., *Achieving emotional wellbeing for looked after children: a whole system approach,* London: NSPCC (2015)

Becker-Weidman, A. (2006) 'Treatment for children with trauma-attachment disorders: Dyadic Developmental Psychotherapy', *Child and Adolescent Social Work Journal*, 23(2), 147–171

Benfield Johnathan, 2017 *Adopters' Perspectives of Adoption Support in the UK: An Empirical Study.* Available at https://www.pac-uk.org/wp-content/uploads/2018/02/Adoption-Study-2017.pdf (Accessed date 28/04/2020)

Bernard, K., Dozier, M., Bick, J., Lewis Morrarty, E., Lindhiem, O., & Carlson, E. (2012). 'Enhancing attachment organization among maltreated infants: Results of a randomized clinical trial'. *Child Development.* Mar-Apr; 83(2):623- 36

Biehal, N., Ellison, S., Baker, C., and Sinclair, I. (2009) *Characteristics, outcomes and meanings of three types of permanent placement – adoption by strangers, adoption by carers and long-term foster care. Research brief* DCSF-RBX-09-11, London: Department for Children, Schools and Families

Bonin E, Beecham J, Dance C and Farmer E (2014) 'Support for adoption placements: the first six months'. *British Journal of Social Work* 44(6): 1508–1525

Bowlby J. (1982) *Attachment and Loss: Volume 1 Attachment*. 2nd ed. New York: Basic Books; 1982

Bowlby, J. (1988). *A Secure Base: Parent-Child Attachment and Healthy Human Development*. Tavistock professional book. London: Routledge

Break4Change (2015) Break4Change programme toolkit: for professionals working with families where young people are violent/abusive towards their parents/carers Break4Change. Available at:https://www.scie-socialcareonline.org.uk/break4change-programme-toolkit-for-professionals-working-with-families-where-young-people-are-violentabusive-towards-their-parentscarers/r/a11G000000MGgi8IAD (Accessed on 20/04/2020)

Brodzinsky, D., Schecter, M. & Henig, R.M. (1993). *Being adopted: The lifelong search for self,* New York: Doubleday

Burch, K., Backinsell, A., Coombes, L., Daru, D., Halford, E. at the Institute of Public Care, Oxford Brookes University. *Evaluation of the Adoption Support Fund: Early Findings from the Family Survey (2021 – forthcoming)* Department for Education. London

Cairns, K. 'Enabling effective support: secondary traumatic stress and adoptive families. In Hindle, D., Shulman, G., (eds) The emotional experience of adoption: a psychoanalytic perspective. Routledge / Taylor & Francis Group (2008) p 90 – 98.

Chamberlain and Horne 2003 Chamberlain K and Horne J (2003) 'Understanding normality in adoptive family life: the role of peer group support'. In Argent H (ed) (2003) *Models of Adoption Support*. BAAF, London

Coram BAAF - Statistics Wales. Available at https://corambaaf.org.uk/fostering-adoption/looked-after-children-adoption-fostering-statistics/statistics-wales (Accessed 28/04/2020)

DDP Network website – *Research, Evidence base & Outcomes.* Available at 22/04/2020 https://ddpnetwork.org/about-ddp/research-evidence-base-outcomes/ (Accessed date: 22/04/2020)

Department for Education (2016). *Statistics on looked after children and those adopted in England.* Available at https://www.gov.uk/government/collections/statistics-looked-after-children (Accessed date: 28/04/2020)

Department for Education (2019) Children looked after in England (including adoption), year ending 31 March 2019, London. Available at: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/850306/Children_looked_after_in_England_2019_Text.pdf

Dozier, M., Peloso, E., Lewis, E., Laurenceau, J., & Levine, S. (2008). 'Effects of an attachment based intervention on the cortisol production of infants and toddlers in foster care'. *Development and Psychopathology*, 20, 845-859

Fargas-Malet, M., McSherry, D. (2020) 'The emotional nature of birth family relationships for care experienced and adopted young people: a longitudinal perspective' Journal of Family Issues, 1-26

Ford T., Vostanis P., Meltzer H., and Goodman R. (2007). 'Psychiatric disorder among British children looked after by local authorities: comparison with children living in private households'. *The British Journal of Psychiatry,* 190(4) S. 319-325

Gibbs, D., Siebenaler, K., & Barth, R. P. (2002).' Assessing the field of post-adoption services: Family needs, program models, and evaluation issues. Summary report'. U.S. Department of Health and Human Services, Office of the Assistant Secretary for Planning and Evaluation. Available at: https://aspe.hhs.gov/basic-report/assessing-field-post-adoption-services-family-needs-program-models-and-evaluation-issues-literature-review (Accessed date: 20/04/2020)

Glover V. (2011). 'Annual Research Review: Prenatal stress and the origins of psychopathology: an evolutionary perspective'. *Journal of Child Psychology and Psychiatry* 52:4, S. 56-367

Golding K. (2014) *Using stories to build bridges with traumatised children*. Jessica Kingsley Publishers.

Grant, M., & Thomas, C., (no date) *The adoption of disabled children*. British Association for Adoption and Fostering (BAAF). Available athttps://www.celcis.org/files/3114/4051/0903/BAAF_Briefing_adoption_of_disabled_children.pdf (Accessed date: 28/04/2020)

Gutherie L & Blood I. (2019). *Embedding strengths-based practice: Frontline Briefing* (2019). Dartington: Research in Practice

Hamblin, E (July 2018) *'Realistic positivity': understanding the additional needs of young children placed for adoption and supporting families when needs are unexpected*. A report from the Council for Disabled Children

Hardy. L., (Feb 2007) ‘Attachment theory and reactive attachment disorder: theoretical perspectives and treatment implications. *Journal of Child Adolescent Psychiatric Nursing* 20(1):27-39

Ingram. R., & Smith., M (February 2018) *Relationship-based practice: emergent themes in social work literature. Insights a series of evidence summaries.* Iriss. Available at: https://www.basw.co.uk/system/files/resources/basw_95107-2.pdf (Accessed date: 04/05/2020)

King, S., Gieve, M., Iacopini, G., Sophie Hahne, A., Stradling, H. (2017) – *The Evaluation of the Adoption Support Fund Independent evidence review of post-adoption support interventions.* The Tavistock Institute of Human Relations (TIHR). Department for Education.

Meltzer, H., Gatward, R., Goodman, R., and Ford, F. (2000). Mental health of children and adolescents in Great Britain. London: The Stationery Office.

Professor Harold, G., Professor Hampden-Thompson G., Dr Rodic, M., Sellers., Dr Sellers., (January 2017) *An evaluation of the AdOpt parenting programme. Research report.* Department of Education. Available at: https://innovationcsc.co.uk/wp-content/uploads/2017/11/1.2.74-AdOpt_parenting_programme_evaluation.pdf (Accessed date: 22/04/2020)

Hart, A., & Luckock, B. (2004). *Developing adoption support and therapy: New approaches for practice.* London: Jessica Kingsley Publishers

Lewis, J. and Ghate, D. (2015) *Adoption Support Fund Market Review and Implementation. Working Paper 1: Rapid Evidence Review: Adoptive Families' Needs and Experiences of Adoption Support Services'.* London: HM Government and The Colbrooke Centre

Lushey, C (May 2018 pages 137 -145) et al ‘Normalizing post adoption support for all’. *Child & Family Social Work*

Lyons-Ruth K. ‘Attachment relationships among children with aggressive behavior problems: the role of disorganized early attachment patterns’. *J Consult Clin Psychol.* 1996;64(1):64-73

McKay, K., Ross, L.E., & Goldberg, A.E. (2010). ‘Adaptation to parenthood during the postadoption period: A review of the literature’. *Adoption Quarterly*, 13(2), S. 125-144

Meakings, S., Ottoway, H., Coffey A,. Palmer C., Doughty, J., & Shelton, K., *The support needs and experiences of newly formed adoptive families: findings from the Wales Adoption Study.* Available at: https://journals.sagepub.com/doi/pdf/10.1177/0308575917750824 (Accessed date: 29/04/2020)

Neil, E. (2003). 'Contact after Adoption: A Research Review' in M. Bainham, B. Lindley, M. Richards, and L. Trinder (Eds.) *Children and their families: Contact, rights and welfare.* Oxford: Richard Hart

Nesta and National Voices (no date) Peer Support: What is it and does it work? Summarising evidence from more than 1000 studies. Available at: https://www.nationalvoices.org.uk/sites/default/files/public/publications/peer_support_-_what_is_it_and_does_it_work.pdf (Accessed date: 22/04/2020)

NSPCC (Jan 2019) Statistics briefing: looked after children. Available at: https://learning.nspcc.org.uk/media/1622/statistics-briefing-looked-after-children.pdf Accessed date: 29/04/2020)

Paine, A.L., Perra, O., Anthony, R. and Shelton K. (2020) *Charting the trajectories of adopted children's emotional and behavioural problems: the impact of early adversity and post-adoptive parental warmth.* Development and Psychopathology, Cambridge, accessed at https://www.cambridge.org/core/journals/development-and-psychopathology/article/charting-the-trajectories-of-adopted-childrens-emotional-and-behavioral-problems-the-impact-of-early-adversity-and-postadoptive-parental-warmth/1EB363858BBC3BFC0552B7665E6DBEFA

Play Therapy UK (2011) *An Effective Way of Alleviating Children's Emotional, Behaviour and Mental Health Problems – the Latest Research* http://playtherapy.org.uk/Research/Research1

Rees J. (2009). *Life story books for adopted children*. Jessica Kingsley Publishers.

Rees, C., & Selwyn, J. (2009). 'Non-infant adoption from care: Lessons for safeguarding children'. *Child: care, health and development*, 35(4), S. 561-567

Radford, L. et al. (2011) *Child abuse and neglect in the UK today.* London: NSPCC

Rose, R., & Philpot, T. (2005). *The child's own story: Life story work with traumatized children.* Philadelphia: Jessica Kingsley Publishers

Schofield, G. and Beek, M. (2006). *Attachment Handbook for Foster Care and Adoption.* London: BAAF

SCIE (2017) *Models of care and care pathways to support mental health and wellbeing of looked after children: Findings of call for evidence.* Available at: https://www.scie.org.uk/children/care/mental-health/findings/call-evidence-findings (Accessed date: 22/04/2020)

Selwyn J., Frazer L., and Quinton, D. (2006) 'Paved with good intentions: the pathway to adoption and the costs of delay'. *British Journal of Social Work*, 36: pp.561–76

Selwyn J., Meakings S. & Wijedasa D. (2015). *Beyond the Adoption Order: challenges, interventions and disruption*. London, BAAF

Selwyn J. (2016). *An evaluation of the Nurturing Attachments parenting programme.* Hadley Centre University of Bristol

Selwyn, J. (2017) *Post-adoption support and interventions for adoptive families: Best practice approaches* An expertise for the German Research Center on Adoption (EFZA)

Available at http://www.education.ox.ac.uk/wp-content/uploads/2019/06/Post-adoption-Support-and-Interventions-for-Adoptive-Families-Best-Practice-Approaches.pdf (Accessed date: 14/04/2020)

StatsWales. Adoptions. Available at: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/Adoptions (Accessed date: 28/04/2020)

Stock Laura, Spielhofer Thomas Dr and Gieve Matthew (June 2016) – *Independent evidence review of post-adoption support interventions. Research report* The Tavistock Institute of Human Relations (TIHR). Department for Education

Sturgess W and Selwyn J (2007) 'Supporting the placements of children adopted out of care'. *Clinical Child Psychology and Psychiatry* 12(1): 13–28

Talge N M, Neal C, Glover V. (2007). 'Antenatal maternal stress and long-term effects on child neurodevelopment: how and why?' *Journal of Child Psychology and Psychiatry* 48(3-4), S. 245-61

Watson, D., Latter, S. & Bellew, R., (Nov 2015) 'Adopted children and young people's views on their life storybooks: The role of narrative in the formation of identities'. *Children and Youth Services Review*. 58, p.90-98

Watson, D., Latter, S. & Bellew, R., Jul 2015, 'Adopters' views on their children's life story books': *Adoption and Fostering.* 39, 2, p.119-134

Welsh Government (January 2016) *Raising the ambitions and educational attainment of children who are looked after in Wales Strategy.* Available at: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/strategy-raising-the-ambitions-and-educational-attainment-of-children-who-are-looked-after-in-wales.pdf (Accessed date 28/04/2020)

Welsh Government -Experimental Statistics: Children looked after by local authorities, 2018-19 Available at https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/children-looked-after-local-authorities-april-2018-march-2019-964.pdf (Accessed date: 28/04/2020)

Wilburg, B. Adopting a traumatized child: a phenomenological investigation of eight families' postadoptive experience of the psychological and neurobiological impact of early childhood trauma. dissertation abstracts international: section b. *Sci Engineering* (2014) 74(10-B).

Winnicott, D.W. (1957). *Mother and Child; A Primer of First Relationships*. New York: Basic Books, Inc

Woolgar, M. (2013) 'The practical implications of the emerging findings in the neurobiology of maltreatment for looked after and adopted children: recognising the diversity of outcomes'. *Adoption & Fostering*, 37 (3) pages.237–252

Young, J., & Dr Neil., B *Adoption and identity: learning from the experiences of adoptees across the lifespan.* Centre for Research on Children & Families, University of

East Anglia, Norwich, England. Available at: https://www.kentadoption.co.uk/__data/assets/pdf_file/0011/93665/Adoption-and-Identity-Learning-from-The-Experiences-of-Adoptees-presentation.pdf (Accessed date 22/04/2020)